Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Cynllun Gwaith Ofcom 2023/24 - Ymatebion rhanddeiliaid

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

**Atodiad i'r Datganiad:**

Dyddiad Cyhoeddi: 28 Mawrth

# A1. Ymatebion i'r ymgynghoriad

## Digwyddiadau ymgynghori ac ymatebion

A1.1 Fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Gwaith arfaethedig ar 14 Rhagfyr 2022 ar gyfer ymgynghoriad, gan amlinellu gwaith prosiect arfaethedig ar draws y sefydliad ar gyfer 2023/24.

A1.2 Ar 26 Ionawr 2023 fe wnaethom gynnal digwyddiad hybrid ar draws y DU i gael adborth ar y Cynllun Gwaith arfaethedig. Roedd hyn yn gyfle i ni ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid a chlywed safbwyntiau amrywiol am flaenoriaethau Ofcom.

A1.3 Cawsom 56 o ymatebion ysgrifenedig i'n Cynllun Gwaith arfaethedig, gan gwmnïau cyfryngau a chyfathrebiadau, cyrff masnach, sefydliadau budd defnyddwyr, unigolion ac eraill.

A1.4 Rydym wedi ystyried pob ymateb wrth lunio ein Cynllun Gwaith terfynol, ac rydym wedi cyhoeddi pob cyflwyniad nad oedd yn gyfrinachol yn llawn ar ein gwefan. Isod, rydym wedi darparu crynodeb o’r ymatebion a gafwyd, ynghyd â'n hymatebion i'r prif bwyntiau, wedi’u grwpio yn ôl blaenoriaeth strategol.

# Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno

## Fforddiadwyedd a thariffau cymdeithasol

A1.5 Roedd fforddiadwyedd yn thema amlwg yn yr ymatebion a gawsom eleni, gyda phwysau costau byw yn cael eu nodi'n aml. Gwnaed dros ddwsin o bwyntiau gwahanol ynghylch fforddiadwyedd gwasanaethau telegyfathrebiadau ac i ba raddau y mae Ofcom yn blaenoriaethu fforddiadwyedd i ddefnyddwyr yn ei waith. Yn benodol, cafodd fforddiadwyedd a thariffau cymdeithasol eu nodi gan Lywodraeth yr Alban, Vodafone, y Cyngor Defnyddwyr (Gogledd Iwerddon), Llywodraeth Cymru, TalkTalk, MG ALBA, Which?, Consumer Scotland, Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban (ACS), BT Group, Openreach, Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth Yr Alban (CAS) ymysg eraill.

A1.6 Nododd Llywodraeth yr Alban y dylai lefelau amrywiol fforddiadwyedd gwahanol ddulliau cysylltu gael eu hystyried gan Ofcom a darparwyr mawr. Er enghraifft, cyfeiriodd at Arolwg Mynegai Digidol Lloyds yn ddiweddar lle dywedodd nifer sylweddol o bobl eu bod yn ystyried rhoi'r gorau i'w contract band eang oherwydd diffyg fforddiadwyedd.

A1.7 Nododd Vodafone fod y diwydiant wedi cynnig rhai datrysiadau o'u hewyllys da i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, ac mae'n parhau i wneud hynny. Roedd yn annog Ofcom i fod yn fwy llafar ynghylch sut yr eir i'r afael â'r angen cyhoeddus hwn a nododd fod cymorth Ofcom i ddarparu tariff cymdeithasol cyfanwerthol yn dal yn hanfodol. Yn ei farn ef, mae mewnbwn cyfanwerthol priodol yn hanfodol i ategu tariffau cymdeithasol adwerthu, gan eu gwneud yn fwy cynaliadwy. Gwnaed sylwadau gan BT sydd hefyd yn cefnogi ymdrechion ar fforddiadwyedd.

A1.8 Dywedodd TalkTalk, "Hyd yma, mae Ofcom wedi methu â gwneud y cam mwyaf rhesymegol y gallai ei gymryd i leddfu'r pwysau costau byw ar ddefnyddwyr: gan wneud addasiad rhesymol i'r cynnydd mewn prisiau cyfanwerthol sy'n gysylltiedig â mynegai prisiau defnyddwyr y mae Openreach wedi cynnig ei osod ym mis Ebrill 2023". Roedd hefyd yn cynnig bod Ofcom yn adolygu ei weithgareddau'n gyffredinol i sicrhau ei fod yn mabwysiadu dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer rheoleiddio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr, gan annog Ofcom i adolygu ei ddull rheoleiddio i sicrhau cysondeb rhwng ei ymyriadau ar draws y marchnadoedd cyfanwerthu ac adwerthu.

A1.9 Dywedodd y Cyngor Defnyddwyr (Gogledd Iwerddon), "wrth i ddefnyddwyr barhau i brofi'r argyfwng costau byw gwaethaf ers degawdau, mae'n ddyletswydd ar reoleiddwyr fel Ofcom i gefnogi defnyddwyr sy'n wynebu caledi ariannol ac atal niwed cyn iddo ddigwydd". Roedd yn annog Ofcom i gynnwys fforddiadwyedd fel rhan o'r teitl canlyniad 'Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno'.

A1.10 Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn croesawu ffocws cynllun gwaith amlinellol Ofcom a'i ymrwymiad i raglen barhaus ar fforddiadwyedd gwasanaethau symudol a band eang, a mynegodd awydd i weithio'n agos gydag Ofcom ar fforddiadwyedd yn ystod 2023/24.

A1.11 Nododd MG ALBA fod y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu yn dibynnu ar gysylltiadau rhyngrwyd a band eang diogel a sefydlog i fyw eu bywydau bob dydd, gan gynnwys cael

gafael ar gynnwys a chyfathrebu yn y cyfryngau. Mae deall fforddiadwyedd yn hollbwysig i hyn.

A1.12 O ran tariffau cymdeithasol yn benodol, canfu Which? fod ymwybyddiaeth yn dal yn "isel iawn", gyda 63% o ddefnyddwyr cymwys erioed wedi clywed am dariffau cymdeithasol, ond fe wnaeth hefyd dynnu sylw at rwystrau eraill o ran defnyddio'r tariffau. Roedd yn cynnig bod y Llywodraeth ac Ofcom yn gweithio gyda'r darparwyr i ddod o hyd i ddefnyddwyr sy'n gymwys i gael tariffau cymdeithasol, ond nad ydynt wedi gwneud defnydd ohonynt eto.

A1.13 Gwnaeth Consumer Scotland nifer o bwyntiau ynghylch fforddiadwyedd, gan groesawu sylw parhaus Ofcom i fforddiadwyedd band eang a gwasanaethau cyfathrebu eraill. Roedd yn annog pobl i ddefnyddio tariffau cymdeithasol band eang ac yn cynnig cwrdd ag Ofcom i ystyried y ffordd orau o godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol a sut gellir eu targedu at ddefnyddwyr cymwys. Roedd CAS yn annog adolygiad o'r meini prawf cymhwyso ar gyfer tariffau cymdeithasol.

A1.14 Roedd ACS yn cydnabod pwysigrwydd Ofcom ar dariffau cymdeithasol. Argymhellodd y dylai Ofcom ehangu hyn i ymgysylltu ag elusennau a grwpiau allweddol sy'n ymwneud â chefnogi unigolion sy'n agored i niwed, er mwyn dysgu sut gellid gwella tariffau cymdeithasol.

## Ein hymateb

A1.15 Mae sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau band eang sefydlog a gwasanaethau rhyngrwyd symudol yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom. Mae dyletswydd ar Ofcom i gynnal, cyhoeddi ac ystyried ymchwil defnyddwyr ynghylch profiadau defnyddwyr o wasanaethau cyfathrebu. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, rydym yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth am y farchnad ac ymchwil defnyddwyr yn rheolaidd, gan gynnwys gwybodaeth am fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu.

A1.16 Nid oes gan Ofcom bŵer i gyflwyno tariffau cymdeithasol wedi'u rheoleiddio heb gael cyfarwyddyd i wneud hynny gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi bod yn galw ar ddarparwyr band eang a symudol i gyflwyno tariffau cymdeithasol yn wirfoddol. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr band eang sefydlog mawr bellach yn cynnig tariff cymdeithasol sy'n golygu bod 85% o gwsmeriaid nawr yn gallu newid i dariff cymdeithasol gyda'u darparwr presennol os ydynt yn bodloni meini prawf cymhwysedd y darparwr hwnnw. Rydym nawr hefyd yn gweld rhai tariffau cymdeithasol symudol yn dod ar gael. Rydym yn parhau i alw ar ddarparwyr nad ydynt yn cynnig tariff cymdeithasol i wneud hynny.

A1.17 Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer tariffau cymdeithasol yn ôl disgresiwn darparwyr ac rydym wedi gweld amrywiaeth o ddulliau gweithredu. Fodd bynnag, rydym nawr yn gweld bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynnwys Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn a'r hen fudd-daliadau prawf modd, sy'n targedu aelwydydd incwm isel. Rydym yn disgwyl y bydd defnyddio rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau yr Adran Gwaith a Phensiynau yn galluogi gwirio cymhwysedd yn fwy awtomatig ac yn lleihau'r rhwystrau i gymryd camau mwy ymarferol.

A1.18 Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth a defnydd o dariffau cymdeithasol yn dal i fod yn isel. Ym mis Awst 2022, roedd 136,000 o aelwydydd ar dariff cymdeithasol o'i gymharu â 55,000 ym mis Ionawr 2022 – mae hyn yn ond yn cynrychioli 3.2% o aelwydydd sy'n gymwys i gael tariff cymdeithasol. Canfu ein hymchwil nad oedd bron i 7 o bob 10 defnyddiwr cymwys yn ymwybodol bod tariffau cymdeithasol band eang yn bodoli. Mae hyn yn golygu nad yw miliynau o gwsmeriaid yn manteisio ar dariffau cymdeithasol ac nad ydynt yn elwa o'r arbedion maen nhw'n eu cynnig. Rydym yn credu y gall cwmnïau ymateb i hinsawdd economaidd unigryw o fewn eu modd, a heb gyfaddawdu ar fuddsoddiad parhaus.

A1.19 Dylai darparwyr sy'n cynnig tariff cymdeithasol ar hyn o bryd wneud llawer mwy i'w hyrwyddo, eu gwneud yn hawdd i ddefnyddwyr cymwys ddod o hyd iddynt a gwneud mwy i gael gwared ar rwystrau eraill sy'n atal pobl rhag eu defnyddio. Rydym yn ymgysylltu â nhw ynghylch y cwestiynau penodol a wnaethom yn ein hadroddiad ar Fforddiadwyedd ym mis Medi 2022, gan gynnwys gwneud tariffau cymdeithasol yn fwy amlwg ac yn haws i ddod o hyd iddynt ar wefannau darparwyr, dylai staff canolfannau cyswllt gael eu hyfforddi i nodi lle gallai cwsmeriaid fod angen tariffau cymdeithasol, a dylai darparwyr gyfathrebu'n rheolaidd (er enghraifft defnyddio hysbysiadau diwedd contract) i dynnu sylw at dariffau cymdeithasol.

A1.20 Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol, rydym wedi darparu deunydd wedi'i dargedu i'r Adran Gwaith a Phensiynau, yr Adran Addysg, a Chyngor ar Bopeth i'w anfon at eu hasiantau/ysgolion. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n agos â llywodraethau ledled y DU, cyrff defnyddwyr ac elusennau i rannu canfyddiadau ein hymchwil traciwr fforddiadwyedd rheolaidd. Rydym hefyd yn defnyddio ein sianeli cyfathrebu ein hunain i godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol a ffyrdd eraill y gall defnyddwyr gael cymorth os ydynt yn ei chael hi'n anodd fforddio eu biliau.

A1.21 Er bod tariffau cymdeithasol ar gael, rydym yn cydnabod y bydd rhai cwsmeriaid yn dal mewn ôl-ddyledion gyda'u biliau ffôn, band eang neu deledu drwy dalu. Felly, rydym wedi diweddaru ein 'Canllaw Trin Cwsmeriaid Agored i Niwed yn Deg' ym mis Medi 2022 gydag arferion da ychwanegol i ddarparwyr ar sut mae trin cwsmeriaid sydd mewn dyled neu sy'n ei chael hi'n anodd talu.

A1.22 Byddwn yn cyhoeddi diweddariad pellach ar y defnydd o dariffau cymdeithasol ac ymwybyddiaeth ohonynt yn 2023 ac rydym yn croesawu ymgysylltu â chyrff eraill a all helpu i godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol.

A1.23 Rydym hefyd yn hyrwyddo cystadleuaeth yn y sector telegyfathrebiadau, gan fod hyn yn rhoi dewis o amrywiaeth o ddarparwyr, gwasanaethau a phecynnau i gwsmeriaid. Mae'r gystadleuaeth hon yn golygu bod darparwyr yn cynnig disgowntiau i ddenu cwsmeriaid newydd. Mae cwsmeriaid wedi elwa o wasanaethau gwell a chyflymach ac yn defnyddio mwy o ddata nag erioed o'r blaen. Wrth i'r galw am ddata barhau i gyflymu, mae seilwaith band eang a symudol y DU yn cael ei uwchraddio, sydd wir ei angen. Mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol gan gwmnïau telegyfathrebiadau, sydd hefyd yn cynyddu capasiti eu rhwydweithiau er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio mwy o ddata. Rydym hefyd yn rheoleiddio prisiau telegyfathrebiadau cyfanwerthol mewn ffordd sy'n gosod yr amodau iawn i gwmnïau allu adeiladu'r rhwydwaith cyflymach a mwy dibynadwy hwn. Gyda'i gilydd, mae band eang cyfradd gigabit nawr ar gael i 70% o'r DU – bron i 21 miliwn o

gartrefi – ac mae tua 70% o eiddo yn y DU mewn ardaloedd lle mae 5G ar gael gan o leiaf un gweithredwr rhwydwaith symudol.

A1.24 Canfu ein hadroddiad diweddar ar Batrymau Prisio fod bargeinion da ar gael i wasanaethau cyfathrebu os ydynt yn siopa o gwmpas. Mae dewis yn y farchnad, a gall llawer o gwsmeriaid arbed arian drwy newid i ddarparwr newydd neu negodi gyda'u darparwr presennol.

## Codi prisiau ar ganol contract

A1.25 Gofynnodd Which? i Ofcom gynnal adolygiad llawn o'r defnydd o gynnydd mewn prisiau ar ganol contract ac ystyried ei effaith ar gystadleurwydd y farchnad. Mae Which? hefyd wedi codi pryderon ynghylch tegwch codi prisiau ar ganol contract, gan nodi bod arferion presennol yn gosod disgwyliadau ar ddefnyddwyr i gael dealltwriaeth gadarn o chwyddiant. Roedd Which? hefyd wedi datgan pryderon ynghylch tryloywder y cynnydd mewn prisiau ar ganol contract ac wedi annog Ofcom i ystyried y ffordd orau o hyrwyddo'r canllawiau newydd gan y Pwyllgor Arferion Hysbysebu (CAP) ar gyflwyno cynnydd mewn prisiau ar ganol contract mewn hysbysebion telegyfathrebiadau.

### Ein hymateb

A1.26 Rydym yn nodi'r pryderon ynghylch codi prisiau ar ganol contract. Mae gennym ddwy ffrwd waith allweddol ar y gweill i edrych ar wahanol agweddau ar hyn. Yn gyntaf, ym mis Rhagfyr 2022 fe wnaethom gyhoeddi rhaglen orfodi i asesu cydymffurfiad darparwyr â'n rheolau mewn perthynas â sicrhau bod codi prisiau ar ganol contract yn amlwg ac yn dryloyw i gwsmeriaid cyn iddynt ymrwymo i gontract. Mae hyn yn rhan o'n gwaith rhaglennol parhaus i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'n rheolau.

A1.27 Yn ail, ym mis Chwefror 2023 fe wnaethom lansio adolygiad i asesu a yw'r arfer o godi prisiau mewn contract sy'n gysylltiedig â chwyddiant yn rhoi digon o sicrwydd ac eglurder i gwsmeriaid ffôn a band eang ynghylch yr hyn y gallant ddisgwyl ei dalu. Mae'r ffaith nad oes modd rhagweld cyfraddau chwyddiant yn golygu ei bod yn anodd gwybod – fisoedd ymlaen llaw – beth fydd cynnydd mewn prisiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant yn cyfateb i mewn punnoedd a cheiniogau pan fydd defnyddwyr yn ymrwymo i gontract. Mae ein hymchwil cychwynnol wedi canfod nad yw tua thraean o gwsmeriaid symudol a band eang yn gwybod a yw eu darparwr yn gallu cynyddu eu pris. Ymysg y rheini sy'n gwybod y gall eu darparwr gynyddu eu pris, nid yw tua hanner ohonynt yn gwybod sut y byddai hyn yn cael ei gyfrifo. Ac nid yw bron i hanner yr holl gwsmeriaid yn gwybod beth mae mynegai prisiau defnyddwyr a mynegai prisiau manwerthu yn ei fesur. Bydd ein hadolygiad yn edrych ar y materion hyn i weld a oes angen mesurau diogelu llymach. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein canfyddiadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Rydym yn ymwybodol o gynigion diweddar y CAP ar gyfer canllawiau newydd ar sut dylid cyflwyno cynnydd mewn prisiau mewn hysbysebion telegyfathrebiadau a byddwn yn parhau i gysylltu â'r CAP fel y bo'n briodol.

A1.28 Gall defnyddwyr hefyd newid i dariffau cymdeithasol heb gosb fel nad ydynt yn gorfod dilyn unrhyw gynnydd mewn prisiau o fewn y contract.

## Defnyddwyr agored i niwed a gwybodaeth

A1.29 Rydym yn croesawu'r pwyntiau a wnaed gan sefydliadau defnyddwyr, rhanddeiliaid y trydydd sector ac eraill ynghylch defnyddwyr agored i niwed, gwasanaethau a chymorth i ddefnyddwyr anabl, a gwybodaeth i ddefnyddwyr. Rydym wedi ceisio crynhoi'r pwyntiau hyn isod.

A1.30 Nododd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB) y dylai gwaith Ofcom ar fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu ystyried pobl ag anableddau fel colli eu golwg - cymuned sy'n fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi, yn ogystal â phobl ag anableddau eraill. Dywedodd RNIB hefyd fod pobl ddall a rhannol ddall wedi elwa o'r cynnydd mewn gweithio o bell a fideo-gynadledda a ddaeth yn sgil y pandemig, a bod hyn yn gwneud pecynnau cyfathrebu a band eang fforddiadwy yn bwysicach fyth.

A1.31 Gofynnodd CAS i Ofcom ystyried dadansoddi effaith yr arferion da ar gyfer darparwyr yn y Canllaw Trin Cwsmeriaid Agored i Niwed yn Deg i sefydlu lle mae darparwyr yn rhoi polisïau ar waith yn llwyddiannus i gwsmeriaid agored i niwed yn y maes hwn. Roedd CAS hefyd yn annog parhau i ymgysylltu â chyrff defnyddwyr sy'n cynrychioli grwpiau agored i niwed i ddeall a oedd y canllaw yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan ddarparwyr. Gwnaed pwynt tebyg hefyd gan Lywodraeth yr Alban a oedd yn argymell hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhellach o'r gwasanaethau presennol sydd ar gael gan ddarparwyr telegyfathrebiadau i flocio galwadau niwsans, yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn.

A1.32 Roedd y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl (CCP-ACOD) yn annog Ofcom – ar draws ei gylch gwaith – i ddefnyddio ei ddylanwad hyd yn oed pan nad oedd ganddo bwerau gorfodi ffurfiol i ddiogelu a hyrwyddo hawliau defnyddwyr. Roeddent yn dymuno gweld mwy o ymrwymiad i hyn. Yn eu barn nhw, nid oedd y Cynllun yn dweud digon am yr hyn y bydd Ofcom yn ei wneud i sicrhau bod y gwasanaethau ar gael i bawb.

A1.33 Dywedodd y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl hefyd nad oedd y Cynllun yn rhoi digon o fanylion am ddull gweithredu Ofcom ar gyfer 'defnyddwyr agored i niwed' yn y flwyddyn i ddod, ar wahân i gyfeiriadau at ddefnyddwyr sy'n profi niwed ar-lein a chyfeiriad at raglen sgamiau barhaus Ofcom a gwaith traws-sector gyda Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU. Roeddent yn annog Ofcom i roi mwy o bwyslais ar archwilio'r croestoriadau o niwed sy'n gallu bodoli neu'n gallu cael eu creu wrth ystyried bod yn 'agored i niwed'. Roedd hyn yn cyd-fynd â chymorth y Panel a'i randdeiliaid i ddefnyddio'r 'Model Cymdeithasol o Anabledd' yn hytrach na'r 'Model Meddygol o Anabledd' – roedd y Panel yn annog Ofcom i ddefnyddio 'Model Cymdeithasol o Gynhwysiant Defnyddwyr' newydd yn y sector cyfathrebu.

### Ein hymateb

A1.34 Mae cymhwysedd ar gyfer tariffau cymdeithasol gwirfoddol (ar gyfer band eang a symudol) a thariffau cymdeithasol gorfodol (llinellau tir) yn ein sector ar sail rhai buddion penodol fel credyd cynhwysol, felly mae pobl ddall a rhannol ddall ar incwm isel yn gymwys. Mae Ofcom hefyd yn mynnu bod darparwyr cyfathrebu yn cynnig cyfres o wasanaethau i ddefnyddwyr anabl (gan gynnwys ymholiadau am rifau ffôn yn rhad ac am ddim i bobl nad

ydynt yn gallu defnyddio cyfeiriadur wedi'i argraffu). Mae'r rhain am ddim adeg eu defnyddio ac mae cymhwysedd yn seiliedig ar anabledd yn hytrach nag incwm. Mae hyn yn adlewyrchu ein hamcan polisi na ddylai pobl anabl orfod talu mwy am wasanaethau ffôn na phobl nad ydynt yn anabl.

A1.35 Mae gennym raglen o weithgareddau i fonitro gweithrediad ein Canllaw Trin Cwsmeriaid Agored i Niwed yn Deg. Fel rhan o'r rhaglen hon, rydym yn ymgysylltu â darparwyr a chyrff defnyddwyr i ddeall i ba raddau y mae'r canllaw trin cwsmeriaid yn deg yn trin pobl sydd mewn dyled neu sy'n ei chael hi'n anodd talu.

A1.36 Mae ein gwaith yn canolbwyntio cymaint ar anghenion cwsmeriaid agored i niwed â'r amgylchiadau sy'n achosi hynny. Rydym yn cydnabod y gall pawb fod mewn amgylchiadau sy'n eu gwneud yn agored i niwed ac rydym yn annog darparwyr i fabwysiadu dull hyblyg o ddiffinio agored i niwed, gan sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion cwsmeriaid. Mae ein rheolau'n mynnu bod rhai darparwyr sy'n cael eu rheoleiddio yn cynnig gwasanaethau ychwanegol i bobl ag anableddau er mwyn iddyn nhw allu cael gafael ar wasanaethau cyfathrebu mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n sicrhau eu bod yn gallu rheoli eu cyfrifon yn effeithiol.

## Symud i dechnolegau newydd

*Symud o wasanaethau rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN) i brotocol llais dros y rhyngrwyd (VOIP)*

A1.37 Cawsom nifer o ymatebion ar symudiad y diwydiant oddi wrth wasanaethau teleffoni traddodiadol (y broses o ddiffodd y Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus (PSTN) a thuag at linellau tir sy'n cael eu darparu gyda gwasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP) dros gysylltiadau band eang.

A1.38 Mynegodd nifer o randdeiliaid bryderon ynghylch diffyg ymwybyddiaeth genedlaethol o'r newidiadau yn eu diwydiannau. Maent yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r wefan gan Ofcom a Llywodraeth y DU, a'r gwaith mae llawer o ddarparwyr gwasanaethau mawr yn ei wneud i ledaenu'r neges. Fe wnaethant ddweud y gallai newid mor sylweddol gael effaith negyddol ddifrifol ar y bobl fwyaf agored i niwed ac mae'n haeddu llawer mwy o gyhoeddusrwydd a meddwl yn gydgysylltiedig. Roedd y Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu (FCS) yn dal yn bryderus bod yr amserlen ar gyfer cau'r rhwydwaith PSTN a symud i wasanaethau VoIP yn dal yn gymhleth ac o bosibl yn heriol iawn. Ar ben hynny, dywedodd Magrathea Telecommunications y bydd negeseuon ffurfiol a niwtral yn helpu'n fawr i ddangos yr angen am newid yn ogystal â'r manteision ar gyfer symud.

A1.39 Dywedodd BT ei fod wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w raglen symud i Lais Digidol i wella dealltwriaeth cwsmeriaid a blaenoriaethu profiad cwsmeriaid, yn enwedig i'r cwsmeriaid agored i niwed a'r rhai sydd mewn perygl. Nododd BT hefyd fod Ofcom mewn sefyllfa unigryw fel llais diduedd yn y diwydiant i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o helpu i oruchwylio'r diwydiant i symud oddi wrth wasanaethau teleffoni traddodiadol a chynnal golwg gytbwys ar y rhaglen gyda rhanddeiliaid ehangach.

A1.40 Roedd Openreach yn croesawu'r ffaith bod Ofcom wedi cydnabod pwysigrwydd symud i wasanaethau VoIP ac wedi cynnwys hyn yn ei Gynllun Gwaith. Yn benodol, gofynnodd i

Ofcom ystyried y rheoleiddio sy'n ofynnol yn y dyfodol er mwyn gallu gadael y gyfnewidfa a rhoi'r gorau i ddefnyddio copr.

A1.41 Wrth ystyried symud defnyddwyr o hen lwyfannau, dywedodd Openreach ei bod yn dal yn bwysig bod cwsmeriaid yn hyderus ac yn cael sicrwydd wrth ddewis eu technoleg band eang a'u rhwydwaith ac wrth iddynt wneud y dewis rhwng gwahanol fathau o dechnoleg a darparwyr seilwaith.

A1.42 Gofynnodd Llywodraeth yr Alban am ragor o fanylion ynghylch sut bydd Ofcom yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r diwydiant telegyfathrebiadau i ddiogelu neu i gynnal mynediad at Sefydliadau Brys yn ystod digwyddiadau hir o darfu ar y cyflenwad trydan.

A1.43 Fel rhan o'r Cynllun Gwaith, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ddefnyddiol i Ofcom gynnal gwerthusiad o'r risgiau sy'n deillio o'r newidiadau arfaethedig yn y diwydiant i ganfod bylchau o ran parodrwydd, ac i rannu'r dadansoddiad hwn â chyrff sydd â diddordeb, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Er bod symud oddi wrth seilwaith pŵer y PSTN i ffeibr yn bolisi sy'n cael ei arwain gan y diwydiant, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ofcom ddefnyddio'r holl ddulliau rheoleiddio sydd ar gael i sicrhau nad yw'r diwydiant telegyfathrebiadau yn mynd rhagddo nes bod y pryderon diogelwch a'r mesurau lliniaru diogelwch sy'n ymwneud â thoriadau yn y cyflenwad trydan yn cael sylw llawn.

A1.44 Croesawodd y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu arbenigedd Ofcom wrth ystyried sut mae'r dyletswyddau sy'n berthnasol i rwydweithiau telegyfathrebiadau traddodiadol yn berthnasol i'r rhwydweithiau rhithwir. Roedd y Panel hefyd yn falch o weld cefnogaeth Ofcom tuag at farn Llywodraeth y DU ar y gofynion yn y dyfodol ar gyfer cadernid seilwaith digidol. Dywedodd y Panel ei bod yn hanfodol bod y DU gyfan yn cael ei diogelu a bod camau'n cael eu cymryd yn brydlon i sicrhau diogelwch ac adferiad cyflym rhag ymosodiadau neu ddamweiniau sy'n arwain at gyfnodau o doriadau yn y cyflenwad trydan. Un pryder a gafodd ei nodi gan y Panel oedd os bydd y rhwydwaith llinell dir yn stopio gweithio ar ôl symud i VoIP, nid yw'n rhesymol i ddarparwyr cyfathrebu ddibynnu ar y disgwyliad y bydd gan bob defnyddiwr ffôn symudol sy'n gweithio ac wedi'i wefru. Nododd y Panel bod rhaid i Ofcom sicrhau bod darparwyr cyfathrebu yn deall y risgiau mae eu cwsmeriaid yn eu hwynebu yn y rhannau o'r DU maen nhw'n eu gwasanaethu ac i gynnig cyllid wrth gefn i'r rheini sy'n wynebu risg uwch.

A1.45 Ategwyd y pryderon hyn gan CAS, a nododd y risgiau penodol a wynebir gan ddefnyddwyr mewn cymunedau gwledig ac ynysoedd wrth i'r symudiad i VoIP barhau, ac roedd yn annog Ofcom i fonitro'r risgiau hyn yn ogystal ag unrhyw niwed i ddefnyddwyr sy'n dod i'r amlwg drwy gydol y broses o symud.

A1.46 Yn dilyn y broses o ddiffodd PSTN, dywedodd Vodafone mai rhwydwaith symudol fydd dewis olaf y DU yn ddiofyn. Nododd Vodafone os yw'r cyhoedd am gael lefelau da o gadernid, mae angen ariannu hyn yn deg naill ai drwy gyllid y wladwriaeth neu gan set fwy eang o randdeiliaid. Roedd yn rhannu pryderon nad oes gan y sector bellach yr adnoddau i hyrwyddo cadernid.

A1.47 Wrth i'r diwydiant symud tuag at VoIP, cododd FCS bryderon y bydd ail-werthwyr ac adwerthwyr llai yn prynu gwasanaethau llais gan gyfanwerthwyr (yn hytrach na phrynu cynnyrch a gwasanaethau yn uniongyrchol gan Openreach, er enghraifft) a fydd yn gallu

dewis pa swyddogaeth ac, er enghraifft, cynigion prisio sy'n cael eu trosglwyddo i'r adwerthwyr/ail-werthwyr llai. Dywedodd FCS y byddai o fudd i'r diwydiant pe bai Ofcom yn monitro'r mater hwn ac yn atal cytundebau gwrth-gystadleuol a'r posibilrwydd o gamddefnyddio safleoedd cryf, yn enwedig drwy uno a phrynu, gan sicrhau nad yw adwerthwyr/ail-werthwyr llai dan anfantais o'u cymharu â'r adwerthwyr mwy sy'n gysylltiedig â chwmnïau sydd wedi'u hintegreiddio'n fertigol.

A1.48 Nododd Cyngor Cyfathrebu'r DU (CCUK) ei bod yn ymddangos yn y crynodeb gweithredol bod Ofcom yn canolbwyntio gormod ar gysylltiad â'r rhyngrwyd ac agweddau o sbectrwm diwydiant telegyfathrebiadau y DU. Er bod y rhain yn ddwy elfen hanfodol o'r diwydiant, mae aelodau CCUK yn poeni bod hyn yn arwydd o symud i gyfeiriad nad yw'n rhoi digon o sylw i wasanaethau llais – rhan allweddol o'n seilwaith cenedlaethol hanfodol – o blaid mwy o ganlyniadau sy'n fwy gweladwy i'r cyhoedd, fel cysylltiad gigabit.

A1.49 Gofynnodd TalkTalk hefyd i Ofcom osod fframwaith ar gyfer pan fodd copr yn cael ei ddiffodd, er mwyn helpu trafodaethau'r diwydiant a chefnogi ymwybyddiaeth cwsmeriaid ar yr adeg briodol.

*Diffodd 2G/3G*

A1.50 Mewn perthynas â symud o'r hen wasanaethau, roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r newid wedi'i reoli oddi wrth yr hen wasanaethau, fel gwasanaethau teleffoni llinell dir traddodiadol a gwasanaethau 2G/3G symudol. Fodd bynnag, dywedodd y Cyngor Defnyddwyr a Consumer Scotland bod rhaid i'r newid hwn ystyried y defnyddwyr sydd fwyaf agored i niwed yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Nododd CAS y gallai defnyddwyr anabl fod yn arbennig o ddibynnol ar ddyfeisiau 2G a 3G yn unig sy'n cael eu hadeiladu gyda hygyrchedd mewn golwg, ac maent yn annog Ofcom i weithio gyda darparwyr i sicrhau bod defnyddwyr o'r fath yn cael eu cefnogi.

A1.51 Roedd Which? yn croesawu ymrwymiad parhaus Ofcom i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu cefnogi a'u diogelu drwy'r broses o symud oddi wrth yr hen wasanaethau, fel y rhwydweithiau PSTN a 2G/3G. Mae'n credu bod angen gwneud llawer mwy i wneud defnyddwyr yn ymwybodol o'r broses o ddiffodd ac i ddeall yr effaith bosibl y gallai hynny ei chael arnynt. Fe wnaeth Which?, ynghyd â Llywodraeth Cymru, nodi pryderon y gallai'r broses o ddiffodd fod yn broblem i'r rheini mewn ardaloedd gwledig sydd â darpariaeth 4G neu 5G wael, neu ddim darpariaeth o gwbl. Roedd hefyd yn bryderus y gallai defnyddwyr sy'n defnyddio dyfeisiau a gwasanaethau symudol hŷn sy'n dibynnu ar y rhwydweithiau hyn gael eu gorfodi i dalu mwy am eu dyfeisiau neu eu gwasanaethau, ac os na chaiff dyfeisiau eu hailgylchu'n iawn, gallai'r broses o ddiffodd gael effaith ar yr amgylchedd.

## Ein hymateb

*Symud o wasanaethau rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN) i brotocol llais dros y rhyngrwyd (VOIP)*

A1.52 Y diwydiant sy'n arwain y broses o symud o linellau tir traddodiadol i linellau ffôn VoIP. Amcan Ofcom yw cefnogi proses bontio ddidrafferth a diogelu defnyddwyr rhag niwed. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae gennym raglen fonitro barhaus ac mae gennym reolau a disgwyliadau perthnasol ar gyfer darparwyr telegyfathrebiadau. Yn benodol, rydym yn

ymgysylltu â darparwyr telegyfathrebiadau mawr, grwpiau defnyddwyr a chyrff y diwydiant. Mae ein datganiad polisi ar Ddyfodol Gwasanaethau Ffôn Sefydlog yn 2019 yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer darparwyr telegyfathrebiadau wrth symud i rwydweithiau protocol (IP). Rydym yn nodi'n glir bod rhaid i’r diwydiant gyfathrebu’n effeithiol ac yn eglur â defnyddwyr ynghylch y newid a’u cefnogi yn ystod y cyfnod pontio os oes angen.

A1.53 Byddwn yn parhau i fonitro sut mae darparwyr cyfathrebu yn cyfathrebu â’u cwsmeriaid ynghylch y broses o symud. Mae gan Ofcom wybodaeth a chyngor niwtral i ddefnyddwyr am y symud i IP ac mae’n parhau i weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am y symud i IP.

A1.54 Mewn perthynas â phryderon ynghylch cadernid llinellau tir VoIP, mae Ofcom wedi gosod rhwymedigaethau rheoleiddio ar ddarparwyr telegyfathrebiadau i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gwneud galwadau brys yn ystod toriadau cyffredin yn y cyflenwad trydan pan fydd angen iddynt wneud hynny. Yn 2018, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau ar sut gall darparwyr gyflawni’r rhwymedigaethau hyn ar gyfer cwsmeriaid sy’n defnyddio gwasanaethau VoIP. Mae hyn yn nodi bod rhaid i ddarparwyr telegyfathrebiadau gael o leiaf un ateb am ddim, ar gyfer cwsmeriaid sy’n dibynnu ar linell dir, sy’n galluogi mynediad at sefydliadau brys am o leiaf awr os bydd toriad yn y cyflenwad trydan. Ar ben hynny, ym mis Gorffennaf 2022, lansiodd Ofcom raglen monitro cydymffurfiaeth a oedd yn ystyried a yw darparwyr yn cymryd yr holl fesurau angenrheidiol yn unol â’n rheolau ar fynediad at alwadau brys yn ystod toriadau yn y cyflenwad trydan. Disgwylir adroddiad ar y rhaglen hon yn ddiweddarach eleni.

A1.55 O ran yr ymatebion gan Lywodraeth yr Alban a Vodafone ynghylch cadernid rhwydweithiau, mae’r rhwydweithiau ffôn a band eang angen trydan i weithredu. Os oes toriad sylweddol yn y trydan, mae’n debygol y bydd nifer o linellau ffôn yn rhoi’r gorau i weithio. Ynghyd â’r diwydiant telegyfathrebiadau, Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig a rheoleiddwyr eraill, rydym yn gweithio i nodi pa wersi y gellir eu dysgu ar gyfer cadernid rhwydweithiau yn y dyfodol o’r tarfu sylweddol a gafodd eu hachosi gan stormydd gaeaf 2021/22.

A1.56 Bydd Ofcom yn parhau i fonitro risgiau a materion sy’n deillio o symud i VoIP. Mae hyn yn cynnwys a oes risgiau ychwanegol i gwsmeriaid sy’n deillio o effeithiau posibl y symud ar y farchnad telegyfathrebiadau sefydlog, a sut mae darparwyr yn symud cwsmeriaid sy’n agored i niwed, cwsmeriaid sy’n dibynnu ar linell dir a Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol.

A1.57 Rydym yn parhau i groesawu’r adborth gan CAS, y Panel Defnyddwyr Gwasanaeth Cyfathrebu a rhanddeiliaid defnyddwyr eraill ar brofiad defnyddwyr.

A1.58 Rydym yn nodi’r rheolau sy’n berthnasol i Openreach ar gyfer rhoi’r gorau i ddefnyddio copr yn yr Adolygiad o’r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol ac rydym wedi cyhoeddi ein disgwyliadau i ddarparwyr ddiogelu defnyddwyr wrth symud cwsmeriaid o wasanaethau teleffoni traddodiadol i VoIP. Wrth i’r diwydiant geisio gweithredu mewn perthynas â rhoi’r gorau i ddefnyddio copr – fel gadael cyfnewidfeydd – rydym yn disgwyl i’r diwydiant ymgysylltu, gan gynnwys drwy OTA2, mewn trafodaethau ar newidiadau i drefniadau masnachol i gefnogi’r newid o gopr i ffeibr.

A1.59 Yn olaf, mewn ymateb i ymateb CCUK, rydym yn cydnabod bod gwasanaethau llais yn bwysig i ddefnyddwyr ac i gymdeithas. Fe wnaethom gwblhau ein hadolygiad rheolaidd o farchnadoedd llais cyfanwerthol yn 2021, a nodi sut y caiff y marchnadoedd hyn eu rheoleiddio ar gyfer y cyfnod hyd at 2026. Rydym yn monitro effaith y symud i lais IP ac yn glynu wrth reoleiddio ac ymrwymiadau mewn perthynas â llais.

*Diffodd 2G/3G*

A1.60 Wrth i Weithredwyr Rhwydweithiau Symudol (MNOs) ddechrau diffodd eu rhwydweithiau 3G ac, yn dilyn hynny, eu rhwydweithiau 2G, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu trin yn deg, a'u bod yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i gynnal mynediad at y gwasanaethau maent eu hangen gyda chyn lleied o darfu â phosibl – mae hyn yn arbennig o bwysig i gwsmeriaid mewn amgylchiadau agored i niwed.

A1.61 Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi dogfen yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer darparwyr symudol wrth iddynt roi'r broses o ddiffodd 2G/3G ar waith. Un o'n disgwyliadau allweddol ar gyfer darparwyr symudol yw sicrhau bod cyfathrebu â chwsmeriaid yn glir ac yn brydlon, yn ogystal â sicrhau bod cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn cael cymorth ychwanegol yn ystod y broses hon. Mae hyn yn cynnwys y cwsmeriaid hynny a allai fod yn ei chael hi'n anodd yn ariannol – rydym yn disgwyl i ddarparwyr symudol gyfeirio cwsmeriaid at opsiynau ffôn fforddiadwy, a gallai cynnig disgownt ar ffonau symudol fod yn briodol hefyd.

A1.62 Rydym hefyd wedi nodi'n glir ein bod yn disgwyl i ddarparwyr symudol wneud pob ymdrech i ganfod mathau eraill o ddyfeisiau (gan gynnwys, er enghraifft, dyfeisiau teleofal) sy'n dibynnu ar eu rhwydweithiau, ac i helpu i godi ymwybyddiaeth o effaith y broses o ddiffodd ar ddyfeisiau o'r fath, fel bod gan gyflenwyr a chwsmeriaid perthnasol amser i ddiweddaru eu dyfeisiau ac nad yw defnyddwyr yn colli mynediad at wasanaethau hanfodol.

A1.63 Mewn perthynas â darpariaeth, mae ein dogfen ddisgwyliadau yn esbonio sut mae EE, Three a Vodafone wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn cynnig lefel gyfatebol o ddarpariaeth ar ôl diffodd y rhwydwaith 3G ac yna'r rhwydwaith 2G, gyda'r ardaloedd sy'n dibynnu ar 2G/23 ar hyn o bryd yn cael eu huwchraddio i 4G cyn cael eu diffodd. Rydym yn croesawu hyn ac yn disgwyl i Virgin Media O2 (sydd heb bennu dyddiad ar gyfer diffodd ei rwydwaith 3G eto) wneud ymrwymiad tebyg ar ôl datblygu ei gynlluniau.

A1.64 Rydym yn disgwyl i ddarparwyr symudol gynnal dadansoddiad manwl o'r ddarpariaeth cyn diffodd eu rhwydweithiau i sicrhau eu bod yn bodloni'r ymrwymiadau hyn, a byddwn yn monitro eu cynnydd yn ofalus fel rhan o'n rhaglen reolaidd o gyfarfodydd gyda'r gweithredwyr rhwydweithiau symudol. Rydym yn nodi'r pryder ynghylch yr effaith ar yr amgylchedd, ond rydym yn disgwyl i ddarparwyr symudol gyfeirio cwsmeriaid at opsiynau sy'n caniatáu iddynt ailgylchu eu hen ddyfeisiau. Bydd diffodd y rhwydweithiau hyn hefyd yn arwain at fanteision o ran gwella effeithlonrwydd ynni.

A1.65 Er nad oes gan Ofcom rôl ffurfiol yn y broses diffodd ei hun, mae gennym raglen ar waith i fonitro'r broses o ddiffodd 2G/3G i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu trin yn deg a'u bod yn gallu parhau i gael gafael at y gwasanaethau y maent eu hangen. Fel rhan o'r gwaith

hwn, byddwn yn parhau i ymgysylltu â darparwyr symudol i ddeall sut maen nhw'n ystyried ein disgwyliadau, yn ogystal â gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r broses ddiffodd.

## Newid darparwr

A1.66 Dywedodd y Cyngor Defnyddwyr fod rhaid i ddefnyddwyr gael digon o ddewis o ran band eang er mwyn mwynhau'r budd llawn o Newid Un Cam (OTS). Yn ei farn ef, bydd yn hanfodol yn y flwyddyn i ddod bod OTS yn cael ei hyrwyddo'n eang i sicrhau bod defnyddwyr yn deall eu hawliau, eu hamddiffyniadau a'r manteision o newid.

A1.67 O ran OTS, amlinellodd Which? ei farn ei bod yn bwysig bod Ofcom yn cynnal yr amserlen bresennol ar gyfer gweithredu OTS ym mis Ebrill 2023. Yn y cyfamser, dywedodd Cyngor Cyfathrebu'r DU (CCUK) nad yw prosiectau fel OTS yn ddigon i wella'r profiad o newid a bod yr holl broses yn mynd yn rhy ddrud os bydd materion cyfanwerthol fel cludo rhifau yn cael eu gadael yn eu cyflwr presennol. Roedd Ogi hefyd yn annog Ofcom i gydweithio ac ymgysylltu'n barhaus ar OTS.

A1.68 Roedd FCS yn teimlo'n gryf bod angen i ofynion darparu 'o'r dechrau i'r diwedd' gynnwys swyddogaeth newid busnes dan arweiniad y darparwr sy'n ennill y cwsmer (GPL) (mae FCS yn credu bod datblygu'r rhain yn cael effaith fach iawn ar ddarpariaeth OTS gan The One Touch Switch Company Ltd. (TOTSCo)). Yn ei farn ef, dylai'r holl wasanaethau i gwsmeriaid ystyried y newid hwn, sy'n debygol o gynnwys gwasanaethau symudol, llais sefydlog, llais IP a band eang yn y dyfodol, yn ogystal â newid cyflenwad seilwaith. Trafododd FCS y dylai'r pwyntiau hyn gael eu hystyried yn holistaidd (gan gynnwys seilwaith) wrth i ni symud yn nes at fyd sy'n defnyddio rhwydweithiau IP yn unig. Nid yw asesu rheoleiddio a chystadleuaeth mewn seilos (h.y. edrych ar wasanaethau symudol ar eu pen eu hunain) yn addas i'r diben mwyach.

A1.69 Roedd BT o blaid rhoi proses newid newydd ar waith, a nododd ei fod yn gweithio'n galed i sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, eglurodd BT ei fod o'r farn bod y dyddiad cau ar gyfer mis Ebrill 2023 yn parhau i fod yn heriol iawn, er gwaethaf y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud o ran adeiladu'r hyb cyfathrebu newydd a sefydlu strwythur llywodraethu.

### Ein hymateb

A1.70 Mae sicrhau proses newid well i ddefnyddwyr yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod defnyddwyr yn deall eu hawliau a manteision newid. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ystyried y ffordd orau o hyrwyddo ymwybyddiaeth defnyddwyr o OTS ar gyfer gwasanaethau band eang a ffôn pan fydd yn cael ei lansio ar gyfer cwsmeriaid preswyl.

A1.71 Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod OTS yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl. Mae'r diwydiant wedi nodi ei fod yn rhagweld rhywfaint o oedi wrth ddarparu'r dechnoleg sy'n hwyluso'r Hyb, sy'n rhan o'r datrysiad OTS. Rydym yn siomedig gyda chyfradd y cynnydd a wnaed gan y diwydiant ar OTS. Rydym yn disgwyl y bydd darparwyr cyfathrebu yn cymryd pob cam posibl i sefydlu OTS cyn gynted â phosibl. I'r

graddau nad yw darparwyr yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau newid ar ôl 3 Ebrill 2023, byddwn yn ystyried a yw'n briodol cymryd camau gorfodi i sicrhau'r canlyniad hwnnw.

A1.72 Rydym yn nodi sylwadau FCS. Ein prif ffocws yw sicrhau bod prosesau newid hawdd a dibynadwy yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl er mwyn i bob defnyddiwr allu dechrau elwa. Fe wnaethom benderfynu na fyddai'n briodol i bennu proses newid fanwl ar gyfer cwsmeriaid busnes gan fod ganddynt wahanol anghenion a lefelau soffistigeiddrwydd o'u cymharu â chwsmeriaid preswyl. Yn hytrach, rydym yn nodi nifer o ofynion newid lefel uchel, gan gynnwys bod rhaid i newid mewn busnes ddilyn proses GPL.

A1.73 Rydym wedi rhoi amser sylweddol i'r diwydiant baratoi ar gyfer y gofynion newid lefel uchel newydd, gan gynnwys ein rheolau ar GPL.

A1.74 O ran a ddylid cynnwys swyddogaeth newid busnes yn OTS, ni fyddai'n dderbyniol i ohirio'r manteision o newid yn haws i gwsmeriaid preswyl oherwydd gofynion newid busnes pan fydd mwy na digon o amser wedi bod i'r diwydiant baratoi.

## Diogelwch a chadernid rhwydweithiau

A1.75 Nododd nifer o randdeiliaid yr heriau i gymunedau gwledig ac ynysoedd yr Alban. Nodwyd bod Shetland ac Uig wedi dioddef cyfnodau o doriad yn y cyflenwad trydan y llynedd, gan effeithio ar anghenion preifat a busnes. Gofynnodd rhanddeiliaid a oedd hi'n bryd cynnal adolygiad cyflawn o ymateb darparwyr gwasanaethau i gyfnodau segur a dirywiad mewn perfformiad mewn ardaloedd gwledig, gyda'r nod o gynhyrchu cadernid a mesurau segur gwell, ac ymateb gweithredol cyflymach i gyfnodau o'r fath.

A1.76 Roedd Consumer Scotland yn croesawu ymrwymiad Ofcom i gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â chadernid rhwydweithiau ac i fonitro dyluniadau cadarn yn rhagweithiol wrth gyflwyno rhwydweithiau ar hyn o bryd. Roedd hefyd yn croesawu ymestyn y system adrodd a monitro bresennol i ymdrin â materion sy'n ymwneud â chadernid sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

A1.77 Rhannodd Cyngor Cyfathrebu'r DU bryder penodol bod ei aelodau'n parhau i brofi amrywiol 'fectorau ymosod' (TDOS, DDOS, SPIT), gan roi amryw o wasanaethau pwysig mewn perygl. Nododd y gallai ymosodiad ar ddarparwr gwasanaethau teleffoni rhyngrwyd bach (ITSP) olygu bod cyfran llawer mwy o wasanaethau rhyngrwyd a llais sector penodol yn anweithredol. Croesawodd CCUK ymgysylltiad Ofcom â'i aelodaeth, a nododd eu bod wedi cael sgyrsiau adeiladol â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) a Llywodraeth y DU.

A1.78 Cododd Hellen Systems Ltd y mater o ddibyniaeth gynyddol ar Systemau Llywio â Lloeren Byd-eang (GNSS) fel galluogwr a dibyniaeth sylweddol ar gyfer sawl math o rwydweithiau seilwaith cenedlaethol hanfodol. Roeddent yn nodi bod bregusrwydd systemau GNSS i ymyriant bwriadol a methiannau systemig yn dod yn fwy o risg systematig i economi'r DU.

A1.79 Nododd Vodafone, yn dilyn y broses o ddiffodd PSTN, mai rhwydwaith symudol fydd dewis olaf y DU yn ddiofyn. Os yw'r cyhoedd yn dymuno lefelau da o gadernid, nododd Vodafone bod angen i hyn gael ei ariannu'n deg naill ai drwy gyllid y wladwriaeth neu gan set fwy eang o randdeiliaid.

A1.80 Roedd The Voice of the Listener and Viewer (VLV) yn poeni bod yr ymgyrch tuag at rwydweithiau cyfathrebu IP yn gadael y rhwydweithiau hyn yn agored i ymosodiad. Gall hyn fod ar lefel bersonol, er enghraifft sgamwyr, meddalwedd wystlo, neu ar lefelau cenedlaethol lle mae asiantaethau diogelwch y wladwriaeth a seilweithiau hanfodol yn gallu dioddef ymosodiad.

Soniodd y FCS am y costau uwch y bydd aelodau mwy yn eu hwynebu a sut y bydd cyfrifoldebau'n cael eu dosrannu. Dywedodd FCS y dylid targedu rhwymedigaethau/rheoleiddio diogelwch ar bartïon seilwaith ac ar gyfer gwasanaethau dros y rhyngrwyd (OTT) neu ar y cyflenwr/darparwr eu hunain (h.y. byddai Teams yn Microsoft). Bydd FCS yn parhau i fonitro'r maes hwn yn ofalus wrth i ofynion yr amserlen arfaethedig fynd rhagddynt.

## Ein hymateb

A1.81 O ran y pryderon ynghylch cadernid yng nghymunedau gwledig ac ynysoedd yr Alban, rydym yn nodi ein bod wedi darparu canllawiau i helpu darparwyr i gydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch sy'n ymwneud â chadernid yn ein Canllawiau Diwygiedig ar ofynion cadernid a osodir gan neu o dan adrannau 105A i D o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022. Rydym yn gwneud rhagor o waith i ganfod a chau bylchau mewn safonau, a datblygu rhagor o arweiniad i ddarparwyr cyfathrebu ar yr hyn rydym yn ei ystyried yn egwyddorion dylunio a gweithredu priodol. Mae'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau mawr, megis yr achos yn Shetland, yn fewnbwn pwysig i'n syniadau yn hyn o beth. Mae digwyddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd dros y 18 mis diwethaf, fel stormydd Arwen a Malik, wedi egluro'r angen i gynllunio ar gyfer y posibilrwydd y bydd digwyddiadau o'r fath yn dod yn fwy cyffredin. Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu gweithredu a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

A1.82 Mae Ofcom yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid i gysoni dealltwriaeth gyffredin o'r heriau mewn perthynas â lefelau nodweddiadol o gadernid disgwyliedig yn erbyn senarios hir o golli gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebu. Rydym yn gweithio drwy ddisgwyliadau pob parti, achosion sylfaenol y problemau, ac yn ystyried atebion posibl i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen i ddefnyddwyr a dinasyddion.

A1.83 Nodwn y pryderon sy'n cael eu mynegi ynghylch y 'fectorau ymosod' a brofir gan ITSPs a byddwn yn parhau i weithio gyda'r holl sector i fynd i'r afael â gwendidau o'r fath.

A1.84 Rydym yn cydnabod bod llawer o rwydweithiau cyfathrebu yn defnyddio amser sy'n deillio o GNSS ar gyfer cysoni rhwydweithiau. Mae dewisiadau eraill heblaw GNSS, sydd fel arfer yn seiliedig ar ddefnyddio gwybodaeth amseru ar sail cloc atomig, sy'n cael ei defnyddio gan rai, yn enwedig darparwyr mwy. Yn fwy cyffredinol, yn dilyn Adroddiad Blackett, mae gan Lywodraeth y DU raglen sy'n mynd i'r afael â chadernid ehangach gwasanaethau llywio ac amseru safle (PNT) y mae Ofcom yn cymryd rhan ynddo.

A1.85 O ran y pryderon a godwyd gan FCS, mae'r rhwymedigaethau yn adran 105A-D o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn berthnasol i bob darparwr gwasanaethau/ rhwydweithiau cyfathrebu electronig cyhoeddus (PECN ac PECS), beth bynnag fo'u maint neu ystyriaethau eraill, fel pa mor helaeth yw eu perchnogaeth o seilwaith. Mae Cod Ymarfer yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg cysylltiedig, sy'n nodi mesurau technegol manylach y

mae'n rhaid i PECN a PECS eu cymryd, wedi sefydlu'r cysyniad o haenu ar sail trosiant perthnasol pob darparwr. Mae canllawiau Ofcom yn egluro sut rydym yn bwriadu teilwra ein goruchwyliaeth reoleiddiol ar gyfer pob haen, mewn ffordd briodol a chymesur.

## Darpariaeth a chysylltedd gwledig

A1.86 Mynegodd RethinkPNT a Which? bryderon ynghylch y 'mannau di-gyswllt' sy'n dal i fodoli (h.y. ardaloedd â diffyg darpariaeth symudol) mewn sawl ardal gan gynnwys Cymru, yr Alban a de-orllewin y DU. Awgrymodd RethinkPNT y dylai Ofcom annog darparwyr telegyfathrebiadau yn gryf i gydweithio i sicrhau bod ardaloedd lle nad oes signal neu ddiffyg darpariaeth gwasanaeth data dibynadwy yn cael sylw ar yr un lefel â rhannau eraill o'r wlad.

A1.87 Roedd Which? yn dadlau ei bod yn bwysig bod Ofcom yn sicrhau bod gweithredwyr symudol yn cymryd camau i sicrhau bod eu darpariaeth 4G yn cael ei gwella cyn y broses o ddiffodd, fel nad yw defnyddwyr yn wynebu colli gwasanaeth. Dywedodd Which? hefyd y dylai Ofcom geisio galluogi defnyddwyr i ddeall y wybodaeth a ddarperir iddynt ynghylch perfformiad a darpariaeth symudol. Roedd Which? wedi addo cefnogi rhaglen waith Ofcom yn y maes hwn i adrodd ar argaeledd ac ansawdd darpariaeth symudol.

A1.88 Roedd y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl (CPP-ACOD) wedi argymell bod Ofcom yn cyd-ddylunio rhaglenni newid yn y diwydiant gyda chynrychiolwyr defnyddwyr i sicrhau bod y diwydiant a llunwyr polisïau yn codi ymwybyddiaeth o newidiadau ac yn gwrando ar anghenion defnyddwyr sy'n wynebu rhwystrau amrywiol, gan gynnwys lleoliad, diffyg sgiliau digidol a nam ar y synhwyrau. Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl hefyd wedi annog Ofcom i ystyried diogelwch y cyhoedd a diogelu defnyddwyr rhag canlyniadau anfwriadol rhaglenni newid yn y diwydiant cyfathrebu.

A1.89 Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oes llawer o arwydd yn y Cynllun Gwaith o sut bydd Ofcom yn defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddo i sbarduno cysylltedd gwell yng Nghymru. O'r herwydd, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ofcom amlinellu'n benodol y camau y bydd yn eu cymryd yn ei Gynllun Gwaith, a dywedodd y dylai camau gweithredu Ofcom fod yn ychwanegol at gamau gweithredu arfaethedig y diwydiant a'r llywodraeth.

A1.90 Croesawodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad Ofcom i weithio gyda'r diwydiant i wella cysondeb a chywirdeb gwybodaeth am ddarpariaeth symudol. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r data hwn gael ei rannu â nhw i gefnogi mentrau polisi sy'n ymestyn y ddarpariaeth symudol yng Nghymru.

### Ein hymateb

A1.91 Bydd y Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN) yn gwella darpariaeth 4G ymhellach drwy leihau elfennau rhannol a mannau di-gyswllt mewn ardaloedd gwledig. Rydym yn cydnabod y bydd rhai mannau di-gyswllt yn aros ar ôl i'r rhaglenni presennol gael eu cyflwyno. Efallai y bydd angen rhagor o gyllid cyhoeddus os ydym am fynd i'r afael â'r rhain, sy'n gwestiwn i Lywodraeth y DU yn y pen draw. Rydym yn parhau i fonitro sut mae MNOs yn defnyddio'r SRN ac yn adrodd ar hyn yn ein cyhoeddiad Cysylltu'r Gwledydd. Ar ben hynny, rydym yn cynyddu'r wybodaeth rydym yn ei darparu am ansawdd darpariaeth

symudol er mwyn llywio dewis ac annog cystadleuaeth, ynghyd â chynyddu mynediad at sbectrwm symudol mewn ffordd sy’n caniatáu i ddarparwyr eraill gefnogi rhai atebion, gan gynnwys Mynediad Di-wifr Sefydlog.

A1.92 Byddwn yn parhau i weithio gyda’r diwydiant i wella cywirdeb a chysondeb y wybodaeth am y ddarpariaeth sydd ar gael. Fel rhan o hyn, byddwn yn archwilio sut gall gwahanol ffynonellau data yn y byd go iawn roi rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr am y perfformiad symudol y gallant ddisgwyl ei gael yn y man lle byddant yn defnyddio'r gwasanaeth, er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau mwy gwybodus am wasanaethau a darparwyr. Bydd y wybodaeth hon hefyd yn helpu i lywio llunwyr polisïau.

A1.93 Rydym yn bwriadu diweddaru ein gwiriwr darpariaeth gyda gwybodaeth well am ansawdd y gwasanaeth.

## Diogelu cwsmeriaid wrth iddynt grwydro

A1.94 Yn dilyn tri o’r pedwar prif weithredwr symudol yn y DU yn ailgyflwyno ffioedd crwydro, roedd Which? yn rhannu pryderon na fydd mesurau diogelu eraill o dan Reoliadau Crwydro’r UE 2012 sydd bellach wedi dod i ben yn cael eu cynnal yn wirfoddol, fel y terfyn diofyn o £45 ar ddefnyddio data a’r rhwymedigaeth i roi gwybod i gwsmeriaid pan fyddant wedi cyrraedd 80% a 100% o’u lwfans data. Roedd Which? yn cytuno bod rhaid i Ofcom fonitro profiadau defnyddwyr o grwydro’n ofalus a sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu’n dda pan fyddant yn crwydro dramor.

A1.95 Roedd MoneySavingExpert yn croesawu cynnwys mesurau diogelu cwsmeriaid wrth iddynt grwydro yng ngwaith prosiect Ofcom ar gyfer 2023/24, ond byddai’n hoffi gweld cerrig milltir manylach yn cael eu nodi ar gyfer y ffrwd waith hon. Roedd MoneySavingExpert hefyd yn annog camau cyflym i wella sut mae ffioedd crwydro’n cael eu cyfathrebu i ddefnyddwyr (er enghraifft, amlinellu diffiniadau’n glir ar gyfer ‘diwrnod’ o godi tâl) ac i adfer mesurau diogelu allweddol sydd bellach wedi dod i ben, yn ddelfrydol mewn pryd ar gyfer haf 2023.

### Ein hymateb

A1.96 Rydym yn croesawu ymatebion Which? a MoneySavingExpert a byddwn yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o’n hadolygiad. Bydd ein hadolygiad o fesurau diogelu cwsmeriaid wrth iddynt grwydro yn ystyried y risg o niwed i ddefnyddwyr a’r ffordd orau o ddiogelu cwsmeriaid yn y maes hwn (e.e. drwy reolau presennol eraill, cytundebau gwirfoddol a/neu ddiwygio’r Amodau Cyffredinol). Nid oes gan Ofcom y pŵer i atal cwmnïau symudol rhag codi tâl ar gwsmeriaid am ddefnyddio eu gwasanaethau wrth deithio ac, felly, ni fyddwn yn edrych ar lefel prisiau crwydro fel rhan o’r gwaith hwn. Rydym yn nodi pryderon MoneySavingExperts mewn perthynas ag amseriad yr adolygiad. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth am amserlenni yn y Cynllun Gwaith ond rydym yn nodi na fyddwn wedi cwblhau ein hadolygiad erbyn haf 2023. Wrth gynllunio’r gwaith hwn, rydym wedi ystyried ehangder blaenoriaethau Ofcom ar gyfer y flwyddyn nesaf, a bod y rhan fwyaf o ddarparwyr wedi dewis yn wirfoddol i gadw mesurau diogelu wrth grwydro ar hyn o bryd.

## Sgamiau

A1.97 Mewn perthynas â gwaith Ofcom ar sgamiau, nododd y Cyngor Defnyddwyr fod “angen brys i symud o ymgynghori i gamau gweithredu sy’n cynyddu mesurau diogelu, cryfhau rheolau, codi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth i ddefnyddwyr”.

A1.98 Mynegodd BT ei fod yn ymfalchïo yn ei gynnydd o ran datblygu a gweithredu atebion i atal sgamiau a chynyddu hyder defnyddwyr mewn gwasanaethau cyfathrebu. Nododd BT fod cyfle i wella’r broses o lunio polisïau yn y maes hwn y tu hwnt i gwmpas ymgynghoriad nesaf Ofcom a gofynnodd i Ofcom sicrhau bod gwasanaethau sy’n dibynnu ar fabwysiadu 100% yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gydlynol er mwyn cael gwared ar unrhyw gyfleoedd ar gyfer sgamiau.

A1.99 Dywedodd Cyngor ar Bopeth yr Alban (CAS) y dylai Ofcom weithio gyda darparwyr a rhanddeiliaid i fynd i’r afael â’r stigma sy’n gysylltiedig â chael eich sgamio; i annog dioddefwyr i roi gwybod a gofyn am gymorth. Nododd CAS y dylai Ofcom weithio gyda chydweithwyr ar draws Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU i ddefnyddio arferion gorau o farchnadoedd a sectorau amrywiol mewn perthynas â chefnogi pobl rhag cael eu twyllo gan sgamiau.

Croesawodd Which? gynllun Ofcom i ymgynghori ar newid y rheolau presennol i gryfhau’r broses o ddilysu rhifau, o bosibl drwy gronfa ddata rhifau cyffredin, er mwyn mynd i’r afael â’r cynnydd yn nifer y sgamiau sy’n cael eu derbyn drwy alwadau ffôn. Credai Which? y gallai cyflwyno dilysu rhifau leihau’r risg o sgamiau. Fodd bynnag, mynegodd Which? bryderon pe bai dim ond rhai darparwyr yn cyflwyno gwasanaeth o’r fath, y byddai’r gwahaniaethau’n arwain at rai defnyddwyr yn dal i gael eu gadael yn agored i niwed.

### Ein hymateb

A1.100 Mae gennym nifer o gynlluniau ar waith i leihau galwadau a negeseuon testun sgâm. Rydym wedi cryfhau ein rheolau a’n canllawiau i ddarparwyr i ganfod a rhwystro rhifau sy’n cael eu ffugio ac rydym wedi cyhoeddi canllaw arferion da ar gyfer darparwyr telegyfathrebiadau i helpu i atal sgamwyr rhag cael gafael ar rifau ffôn dilys. Mae’r rhain yn cael eu rhoi ar waith nawr ac yn cynnig rhai manteision uniongyrchol i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, fel y nodwyd ar dudalen un ein Datganiad Sefyllfa Polisi a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror 2022, o ystyried pa mor gyflym y mae sgamwyr yn newid eu tactegau, rydym yn deall na fydd yn bosibl atal pob sgam rhag cyrraedd defnyddwyr.

A1.101 Mae’n galonogol bod darparwyr telegyfathrebiadau a gwasanaethau trydydd parti eraill yn cymryd camau i fynd i’r afael â galwadau sgam ac yn ystyried camau pellach yn y maes hwn. Er y bydd rhai cynlluniau’n cymryd amser i’w gwerthuso, mae rhywfaint o dystiolaeth eisoes bod mesurau’n cael effaith.

A1.102 Rydym yn ystyried ein dewisiadau o ran sut gallai dilysu rhifau helpu i fynd i’r afael â sgamiau. Rydym hefyd yn symud y tu hwnt i ymgynghori i gamau gweithredu – er enghraifft, o fis Mai 2023 ymlaen, bydd rhaid i ddarparwyr ddilyn rheolau cryfach i ganfod a rhwystro rhifau sy’n cael eu ffugio. Ar ben hynny, fel y nodwyd uchod, mae gweithio gyda rhanddeiliaid a chael ymwybyddiaeth o ddefnyddwyr (gan gynnwys mewn perthynas ag adrodd) yn rhan o’n strategaeth sgamiau ehangach fel y nodir yn ein Datganiad Sefyllfa

Polisi. Felly, rydym yn cydnabod yr ymatebion a byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol 2023/24, wrth i ni fwrw ymlaen â'n Cynllun Gwaith arfaethedig.

## Openreach

A1.103 Dywedodd nifer o randdeiliaid fod rhaid i Ofcom fonitro dull gweithredu Openreach i sbarduno'r broses o gyflwyno ffeibr er mwyn sicrhau nad yw Openreach yn gweithredu'n wrth-gystadleuol er mwyn cael gwared ar unrhyw gystadleuaeth dechreuol. Dywedodd rhanddeiliaid y byddai'n werthfawr i Ofcom amlinellu gweithgareddau arfaethedig Uned Monitro Openreach i gefnogi ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid ar y pwnc hwn a sicrhau bod Openreach yn deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig.

A1.104 Ar ben hynny, gofynnodd TalkTalk i Ofcom nodi amserlen ar gyfer cyhoeddi adroddiadau OMU yn y dyfodol a'u nodi fel adroddiad ar wahân yn y Cynllun Gwaith.

A1.105 Gofynnodd Cymdeithas Rhwydweithiau Annibynnol Cydweithredol (INCA) i Ofcom asesu effaith cystadleuaeth bosibl y rhaglen cau cyfnewidfa. Drwy'r asesiad hwn, nododd INCA y gallai Ofcom roi gwybod i randdeiliaid beth mae'n ei ystyried yw'r egwyddorion priodol y dylid eu mabwysiadu a sicrhau na fyddai dyluniad a phenderfyniadau masnachol a thechnegol Openreach ei hun yn gallu lleihau cystadleuaeth mewn rhwydweithiau ffeibr.

### Ein hymateb

A1.106 Rydym yn nodi'r diddordeb yn ein Huned Monitro Openreach (OMU), a'r amserlen cyhoeddi ar gyfer ein hadroddiadau OMU. Rydym yn bwriadu cyhoeddi Adroddiad Monitro Openreach yn yr haf.

A1.107 O ran cynigion i gau cyfnewidfeydd yn benodol, rydym yn disgwyl i'r diwydiant ymgysylltu â phroses ymgynghori Openreach a byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad, gan gynnwys cynigion i gau cyfnewidfeydd. Byddwn yn ystyried datblygiadau perthnasol wrth weithio tuag at fframwaith adolygu'r farchnad nesaf, a fydd yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2026.

## Marchnadoedd Digidol

A1.108 Mynegodd BT ei gymorth i'n gwaith ar Wasanaethau Cyfathrebu Rhyngbersonol sy'n Annibynnol ar Rifau (NIICS). Gofynnodd i Ofcom edrych yn fras ar farchnadoedd digidol yn y sector cyfathrebu, gan gynnwys gwasanaethau sydd y tu allan i'w baramedrau rheoleiddio ar hyn o bryd, er mwyn asesu a yw'r drefn reoleiddio bresennol yn dal yn briodol ar gyfer marchnad sy'n newid.

### Ein hymateb

A1.109 Roedd ein cyhoeddiad ar 22 Medi 2022 ar Farchnadoedd Digidol yn y sector cyfathrebu yn edrych ar ddull gweithredu Ofcom ar gyfer materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth a defnyddwyr mewn marchnadoedd cyfathrebu ar y rhyngrwyd. Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom ddechrau astudiaeth o'r farchnad a oedd yn edrych ar gyflenwi gwasanaethau cwmwl yn y DU. Rydym hefyd yn adolygu a yw defnyddwyr gwasanaethau cyfathrebu personol ar-lein (neu NIICS) yn cael eu diogelu'n briodol rhag niwed, yn ogystal ag ystyried

a oes unrhyw broblemau cystadleuaeth yn y marchnadoedd cyfathrebu pwysig hyn i ddefnyddwyr a busnesau yn y Deyrnas Unedig. Byddwn yn parhau i drafod y materion hyn â rhanddeiliaid drwy gydol 2023/24.

## Dull gweithredu ar gyfer marchnadoedd symudol yn y dyfodol

A1.110 Dywedodd Cellnex y dylai Ofcom ganolbwyntio ar gyhoeddi data perfformiad rhwydwaith, sy’n uchel ei ansawdd, yn debyg ar draws gweithredwyr rhwydweithiau symudol (MNOs), ac yn ddigon lleol. Dywedodd Cellnex y byddai hyn yn sicrhau bod cwmnïau rhwydweithiau symudol yn cael eu gwobrwyo am eu buddsoddiad; gyda’r data cymharol sydd ar gael yn debygol o gynyddu ‘perfformiad rhwydwaith’ fel maen prawf prynu defnyddwyr gan greu cylch rhinweddol o fuddsoddiad rhwydwaith sy’n arwain at ganlyniadau economaidd gwell i’r MNOs. Nododd hefyd y byddai hyn yn galluogi’r diwydiant i wneud y gorau o fuddsoddiadau mewn seilwaith i’w defnyddio gan nifer o bartïon.

A1.111 Roedd y FCS yn annog Ofcom i oruchwylio cyflenwyr mwy sydd wedi’u hintegreiddio’n fertigol ac sy’n berchen ar rwydweithiau symudol a sefydlog a chynnig atebion wedi’u cydgyfeirio gan ystyried y potensial i’r canghennau adwerthu cyflenwyr mawr hyn gael mantais annheg o’u cymharu â’r adwerthwyr canolig/bach a’r ail-werthwyr. Roedd FCS yn annog ffocws priodol ar strwythurau’r farchnad i sicrhau bod cystadleuaeth deg, mynediad cyfartal a rheoleiddio priodol wrth symud ymlaen i wneud yn siŵr bod y farchnad yn parhau i fod yn llawn ac yn eithaf cystadleuol (hyd at ac yn cynnwys ar lefel y seilwaith).

### Ein hymateb

A1.112 Rydym yn cytuno â Cellnex y dylai gwybodaeth well am berfformiad rhwydweithiau alluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus am y rhwydwaith sy’n gweddu orau i’w hanghenion, ac y gallai annog buddsoddiad gan y diwydiant i ddiwallu’r anghenion hynny. Rydym yn bwriadu parhau i weithio gyda’r diwydiant i wella cywirdeb a chysondeb y wybodaeth sydd ar gael am ddarpariaeth symudol ac i archwilio sut gall ffynonellau gwahanol o ddata yn y byd go iawn roi rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr.

A1.113 O ran goruchwylio cyflenwyr mwy sydd wedi’u hintegreiddio’n fertigol mewn rhwydweithiau symudol a sefydlog, byddwn yn parhau i fonitro sut mae marchnadoedd yn esblygu a sicrhau canlyniadau da i gwsmeriaid.

## Hyrwyddwr Busnes

A1.114 Fe wnaeth Cyngor Cyfathrebu’r DU ddangos cefnogaeth i hyrwyddwr busnes yn Ofcom. Byddai hwn yn banel unigol neu weithgor o arbenigwyr a fyddai’n treulio amser yn siarad â rhwydweithiau busnes a darparwyr gwasanaethau, er mwyn deall strwythur y diwydiant, ac yna’n mynychu cyfarfodydd Ofcom i ddarparu’r wybodaeth honno wrth lunio polisïau. Nodwyd y byddai rôl o’r fath yn gwella’r broses o wneud penderfyniadau’n sylweddol, ac yn ymestyn y canlyniadau polisi, gan y rheoleiddiwr.

### Ein hymateb

A1.115 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cyfathrebu i fusnesau a’r rôl bwysig y mae cyrff y diwydiant yn ei chwarae o ran cynrychioli cwsmeriaid a darparwyr, ac rydym yn

croesawu ymgysylltu â'r cyrff hynny yn y diwydiant. Rydym hefyd yn cydnabod bod y gadwyn gyflenwi ar gyfer gwasanaethau busnes ac anghenion cwsmeriaid busnes mewn rhai achosion yn wahanol i'r rhai ar gyfer defnyddwyr, ond nid oes gennym unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i benodi hyrwyddwr busnes. Mae ein gwaith o reoleiddio marchnadoedd cyfanwerthu perthnasol yn ystyried eu rôl mewn marchnadoedd sy'n is i lawr ar gyfer defnyddwyr a busnesau, ac rydym yn llunio ein gwaith rheoleiddio er bod yr ymgynghoriad yn hygyrch i bob rhanddeiliad.

## Nifer sy'n defnyddio cysylltiad ffeibr i'r adeilad (FTTP)

A1.116 Dywedodd TalkTalk fod sicrhau bod digon o bobl yn manteisio ar y defnydd o wasanaethau sy'n cael eu cynnig dros y rhwydweithiau newydd yn ffactor pwysig o ran hyrwyddo cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau wrth gyflwyno seilwaith band eang cyfradd gigabit. Nododd y bydd lefelau isel a chyfraddau araf o ddefnydd yn peryglu gallu rhwydweithiau amgen i gystadlu ag Openreach, yn ogystal â pheryglu cyflawni targedau'r ddarpariaeth yn gyffredinol.

A1.117 Dywedodd TalkTalk fod y nifer sy'n penderfynu gwneud defnydd o fand eang yn hanfodol i gyflawni amcan strategol Ofcom i hyrwyddo buddsoddiad cystadleuol mewn band eang cyfradd gigabit. Nododd fod y gwaith o hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau cyfradd gigabit ar goll o Gynllun Gwaith Ofcom, a dywedodd yr hoffai weld gweithgareddau i gefnogi'r nifer sy'n defnyddio FTTP. Roedd hefyd yn gofyn i Ofcom gymryd camau i gefnogi gwell dealltwriaeth ymysg defnyddwyr o FTTP a chyhoeddi dadansoddiad manylach a mwy rheolaidd o lefelau'r defnydd o FTTP yn ôl daearyddiaeth.

A1.118 Ar wahân, roedd Which? ac Openreach yn falch o gael gwahoddiad i gynnull Grŵp Cynghori (GigaTAG) i annog pobl i ddefnyddio cysylltiadau cyfradd gigabit yn 2021 ac roeddent yn gwerthfawrogi ymgysylltiad rhagweithiol Ofcom ar y mater. Roedd Which? yn cefnogi pwysigrwydd cynnal momentwm o ran codi ymwybyddiaeth defnyddwyr a'r nifer sy'n gwneud defnydd o gysylltiadau cyfradd gigabit drwy ddatblygu terminoleg gyffredin a set graidd o achosion defnydd a buddion.

A1.119 Rhannodd Which? eu siom nad oedd rhoi argymhellion GigaTAG ar waith wedi'i gynnwys yng Nghynllun Gwaith Ofcom. Fodd bynnag, maent yn edrych ymlaen at weld ymchwil Ofcom i ddealltwriaeth defnyddwyr o derminoleg band eang yn cael ei chyhoeddi a hoffent weld hyn yn darparu catalydd ar gyfer ymgysylltu â'r diwydiant i sicrhau bod terminoleg gyson yn cael ei defnyddio a bod set graidd o achosion defnydd yn cael ei datblygu i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr.

### Ein hymateb

A1.120 Mewn perthynas â sylw TalkTalk am fonitro'r nifer sy'n defnyddio FTTP, ar hyn o bryd rydym yn cyhoeddi data llawn ar y defnydd o ffibrau yn ôl gwlad yn flynyddol fel rhan o'n hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd. Byddwn yn adolygu a allwn gyhoeddi data manylach fel rhan o adroddiad eleni.

A1.121 Roeddem yn falch o weithio gyda Which? ac Openreach ar argymhellion GigaTAG, ac rydym yn croesawu ymgysylltiad parhaus yn y maes hwn. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith i wella dealltwriaeth cwsmeriaid

o'r farchnad band eang ac i rymuso pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am y band eang maent yn ei brynu. Rydym wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar gynigion i wella gwybodaeth defnyddwyr am y dechnoleg sylfaenol a ddefnyddir i ddarparu eu gwasanaeth band eang, a chanlyniadau ymchwil defnyddwyr ar derminoleg band eang, ym mis Mawrth 2023. Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion cyn gwneud ein penderfyniad terfynol, yr ydym yn bwriadu ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gwaith.

## Niwtraliaeth y rhyngrwyd

A1.122 Cawsom sylwadau gan FCS, Vodafone a BT ar y fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd. Roeddent yn nodi bod angen adolygu'r fframwaith rheoleiddio presennol i ystyried sut gallai a sut ddylai niwtraliaeth y rhyngrwyd weithredu yn y DU ar haenau seilwaith, rhwydwaith a gwasanaeth ac mewn byd sy'n defnyddio rhwydweithiau IP yn unig yn y dyfodol ac i gefnogi uchelgeisiau 5G y DU.

A1.123 Nododd FCS fod y diwydiant angen adroddiadau a metrigau manwl a thryloyw ar wasanaethau sefydlog a symudol er mwyn cael dealltwriaeth fwy llawn o lwyddiant niwtraliaeth y rhyngrwyd neu feysydd sy'n peri pryder.

A1.124 Fe wnaeth BT annog Ofcom i gwblhau ei adolygiad o niwtraliaeth y rhyngrwyd i ddarparwyr cyfathrebu ddechrau gweithredu o dan y drefn newydd gyda sicrwydd.

### Ein hymateb

A1.125 Mae ein hadolygiad o niwtraliaeth y rhyngrwyd yn ystyried amrywiaeth eang o gwestiynau o ran sut dylai darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd ddelio â gwahanol wasanaethau a mathau o draffig, yn ogystal â sut dylai'r darparwyr hyn ddarparu tryloywder o ran sut maen nhw'n rheoli traffig ar eu rhwydwaith yn unol â'r rheolau. Mae ein hadolygiad hefyd yn ystyried sut gellir cefnogi gwasanaethau 5G newydd ac arloesol o fewn fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd. Er ein bod yn ceisio cwblhau ein hadolygiad yn gyflym, mae angen i ni hefyd fod yn siŵr ein bod yn ystyried yr ymatebion rydym wedi'u cael yn llawn. Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu cwblhau ein hadolygiad yn ystod hydref 2023, fel y nodir yn ein hymgynghoriad ym mis Hydref 2022.

A1.126 Mae'r fframwaith cyffredinol wedi'i osod mewn deddfwriaeth ac mae newidiadau'n fater i Lywodraeth y DU ac yn y pen draw i'r Senedd; Ofcom sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiad â'r fframwaith.

## Astudiaeth o'r farchnad ar gyfer gwasanaethau cwmwl

A1.127 Cawsom rai ymatebion gan ein rhanddeiliaid ar ein hastudiaeth o'r farchnad ar gyfer gwasanaethau cwmwl. Fe wnaeth BT annog Ofcom i ddefnyddio'r astudiaeth barhaus o'r farchnad i feithrin dealltwriaeth o niwed nawr ac yn y dyfodol (yn deillio o ddiffyg rhyngweithredu, manteisio a/neu ataliaeth fertigol); gan nodi pa gamau sydd eu hangen nawr ac ystyried sut i olrhain datblygiadau yn y farchnad yn y dyfodol.

A1.128 Roedd yr ACS yn annog Ofcom i ymchwilio i'r defnydd presennol a'r defnydd arfaethedig o wasanaethau cwmwl cyhoeddus mewn darparwyr gwasanaethau yn y DU. Nododd ACS,

gan fod y maes hwn yn cael ei ddominyddu gan gwmnïau pŵer annibynnol tramor yn bennaf (er y cwmnïau mawr o’r Unol Daleithiau), bod angen i’r DU ystyried pa mor ddibynnol y mae’n dymuno bod ar gydrannau seilwaith telegyfathrebiadau sy’n eiddo i’r Unol Daleithiau ac sy’n cael eu gweithredu yno.

### Ein hymateb

A1.129 Er ein bod yn cynnal archwiliad cyffredinol o’r farchnad ar gyfer gwasanaethau cwmwl, bydd hyn yn golygu edrych yn benodol ar y sectorau telegyfathrebiadau a darlledu yn ein cylch gwaith. Os byddwn yn canfod pryderon posibl sydd â goblygiadau penodol i ni fel rheoleiddiwr sector, byddwn yn ystyried pa waith pellach y dylem ei wneud fel rhan o’n dyletswyddau.

A1.130 Rydym yn cydnabod sylwadau BT ar ddefnyddio’r astudiaeth o'r farchnad ar gyfer gwasanaethau cwmwl i ddeall niwed nawr ac yn y dyfodol. Os byddwn yn dod o hyd i unrhyw bryderon ynglŷn â chystadleuaeth neu niwed posibl i ddefnyddwyr, byddwn yn edrych ar bolisïau neu ymyriadau posibl a fyddai’n ceisio lliniaru’r niwed hwnnw.

## Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) Band eang

A1.131 Roedd Llywodraeth Cymru yn rhannu pryderon na fydd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) band-eang yn darparu cysylltedd i’r cartrefi a’r busnesau anoddaf eu cyrraedd yng Nghymru. Roedd yn nodi nad yw’r cap ar gostau eiddo yn dal i adlewyrchu'r realiti o ddarparu datrysiad band eang cynaliadwy yn ardaloedd mwyaf gwledig Cymru. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru annog Ofcom a Llywodraeth y DU i ddod at ei gilydd i fynd i’r afael â hyn fel mater o frys.

A1.132 Gofynnodd Which? i Ofcom ystyried a yw'r cyflymder llwytho i lawr presennol (10Mbit yr eiliad) yn ddigonol, yn enwedig gan fod band eang cyflym iawn (cyflymder o 30Mbit yr eiliad o leiaf) nawr ar gael i 97% o gartrefi’r DU.

### Ein hymateb

A1.133 Mae’r USO band eang wedi’i nodi mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth y DU ac felly byddai unrhyw newidiadau iddo, gan gynnwys newidiadau i’r cyflymder lawrlwytho penodedig o 10Mbit yr eiliad a’r cap 100GB, yn fater i Lywodraeth y DU. Ers lansio’r USO yn 2020, rydym wedi bod yn monitro ei ddarpariaeth gan y darparwyr dynodedig (BT a KCOM), a byddwn yn parhau i wneud hynny.

A1.134 Yn fwyaf diweddar, fe wnaethom adrodd ar gynnydd yr USO fel rhan o’n hadroddiad Cysylltu’r Gwledydd yn 2022, lle nodwyd bod 168 o orchmynion USO wedi’u gwneud yng Nghymru, gan arwain at dros 1,000 o gartrefi’n cael eu pasio gan y gwaith dilynol i adeiladu ffeibr llawn. Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganlyniadau ei hymgynghoriad ar adeiladau mewn lleoliadau anodd eu cyrraedd – rydym yn deall ei bod yn bwriadu defnyddio’r dystiolaeth a gasglwyd o hyn i lunio cyfres o gynigion polisi i fynd i’r afael ag anghenion yr adeiladau hyn. Bydd Ofcom yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu ei pholisi yn y maes hwn.

# Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

## Darlledu gwasanaeth cyhoeddus

A1.135 Gwnaeth nifer o randdeiliaid bwyntiau am Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB) yn y DU. Mynegodd The Voice of the Listener and Viewer (VLV) bryder na ddylai Ofcom golli golwg ar bwysigrwydd darlledu traddodiadol wrth i Ofcom gynyddu ei ffocws ar lwyfannau digidol ac ar-lein.

A1.136 Gwnaed pwyntiau hefyd mewn perthynas â darlledu gwasanaeth cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Mynegodd Llywodraeth Cymru ei dymuniad i barhau â thrafodaethau gydag Ofcom i gefnogi fframwaith rheoleiddio sy'n cyflawni ar gyfer Cymru, a gwnaeth Llywodraeth yr Alban bwyntiau ynghylch y bwriad i adnewyddu trwyddedau ar gyfer Sianeli 3 a 5 ac unrhyw effaith ar gynulleidfaoedd a'r diwydiannau creadigol yn yr Alban.

A1.137 Roedd VLV yn poeni bod adnewyddu trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 yn dibynnu'n rhannol ar gynnwys darpariaethau newydd yn y Bil Cyfryngau, nad yw wedi cael ei gyhoeddi eto.

### Ein hymateb

A1.138 Yn ein hadolygiad diwethaf o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM), Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, fe wnaethom ddweud bod angen diwygio'r fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynnwys gwasanaethau ar-lein perthnasol, gan gydnabod hefyd bwysigrwydd parhaus gwasanaethau darlledu i'r rhan fwyaf o gartrefi.

A1.139 Bydd ail-drwyddedu'r gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn faes gwaith blaenoriaeth i Ofcom yn y flwyddyn i ddod. Rydym wedi dechrau prosesau adnewyddu trwyddedau Sianel 3, Sianel 4 a Sianel 5 a byddwn yn parhau â'r gwaith hwn gyda mewnbwn gan randdeiliaid fel y bo'n briodol dros 2023/24. Byddwn yn gofyn am farn Pwyllgorau Cynghori Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban wrth i'r broses ddatblygu, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses i swyddogion llywodraethau ledled y DU.

A1.140 Ynglŷn ag adnewyddu trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus Sianel 3 a Sianel 5 yn benodol, roeddem wedi cyhoeddi 'Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol <https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0011/240203/s.229-report-channel-3-and-5-licensing.pdf> ym mis Mehefin 2022 a oedd yn nodi'r achos dros adnewyddu'r drwydded ynghyd â dyddiadau allweddol yn y broses adnewyddu, yn ogystal â'n camau nesaf. Fe wnaethom ganfod y gallai'r rhwymedigaethau presennol fod yn fasnachol gynaliadwy, fel y gallai'r trwyddedeion barhau i'w cyflawni dros gyfnod nesaf y drwydded. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi bod cynaliadwyedd darlledu gwasanaethau cyhoeddus mewn mwy a mwy o berygl ac y gellid cryfhau'r sefyllfa drwy roi diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig ar waith i sefydlu rheoliadau amlygrwydd ac argaeledd newydd ar gyfer gwasanaethau teledu ar-lein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus perthnasol.

A1.141 Mynegodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bwriad i ddeddfu yn ei Phapur Gwyn ar Ddarlledu, *Nesaf* ym mis Ebrill 2022. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar eu cynlluniau ac, yn y cyfamser, byddwn yn sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio presennol yn gweithio mor effeithiol â phosibl.

## Rheoleiddio'r BBC

A1.142 Gwnaed amrywiaeth o bwyntiau mewn perthynas â gwaith rheoleiddio Ofcom ar y BBC. Mynegodd y VLV bryder y gallai Ofcom fod yn lleihau ei rôl yn y gwaith o reoleiddio'r BBC i bob pwrpas.

A1.143 Croesawodd Llywodraeth Cymru y newidiadau i broses gwynion BBC yn Gyntaf a gwaith Ofcom i sicrhau mwy o dryloywder mewn perthynas â chwynion, didueddrwydd dyladwy a chywirdeb. Byddai'n croesawu'r cyfle i weithio gydag Ofcom a BBC Cymru i nodi themâu a materion i ganolbwyntio arnynt yn benodol ac i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud gyda dealltwriaeth glir o ofynion unigryw cynulleidfa yng Nghymru.

A1.144 Er bod Adroddiad Blynyddol diweddaraf Ofcom ar y BBC yn dangos rhywfaint o welliant ers blynyddoedd blaenorol, nododd Llywodraeth yr Alban bod rhai gwylwyr a gwrandawyr yn yr Alban yn dal i deimlo'n llai cadarnhaol am gynrychiolaeth a dilysrwydd rhaglenni'r BBC. Roedd yn annog Ofcom i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn yr Alban yn cael gwasanaeth mwy cynrychioladol sy'n cefnogi'r economi greadigol yn yr Alban ac yn cyfrannu at ei ddatblygiad. Gofynnodd Llywodraeth yr Alban hefyd a fydd Adolygiad Thematig arfaethedig Ofcom o gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn edrych yn ehangach ar gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, gan gynnwys cynulleidfaoedd anabl a'r rheini o'r Alban a gwledydd eraill.

A1.145 Gwnaeth Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban (ACS) bwyntiau hefyd ynghylch perfformiad y BBC, er enghraifft, y dylid cyfeirio rhywfaint at effaith podlediadau ar gynulleidfaoedd a mesur data a'i ddadansoddiad. Dywedodd y Pwyllgor hefyd, yn enwedig yn ystod adolygiad Trwydded Weithredu'r BBC, ei fod yn credu ei bod yn allweddol bod tîm Ofcom yn yr Alban yn annog presenoldeb mwy cysylltiedig a gweithredol gan Bwyllgor BBC Scotland, gan mai dyma'r prif adnodd llywodraethu ar gyfer y BBC yn yr Alban ac y byddai perthynas fwy tryloyw ag Ofcom a rhanddeiliaid eraill yn fuddiol.

### Ein hymateb

A1.146 Mae ein dyletswyddau statudol o ran rheoleiddio'r BBC wedi'u nodi yn Siarter a Chytundeb y BBC. Yn 2022, fe wnaethom gyhoeddi ein hadolygiad ar Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC. Rydym hefyd wedi ymgynghori'n ddiweddar ar Drwydded Weithredu newydd ar gyfer y BBC lle rydym yn glir ein bod yn disgwyl i'r BBC barhau i ddarparu amrywiaeth o gynnwys ar gyfer pob cynulleidfa, sut bynnag maent yn dewis gwylio neu wrando. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r BBC yn cyflawni hyn, gan gynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n parhau i ddibynnu ar gyfryngau traddodiadol a gwasanaethau darlledu.

A1.147 Bydd y Drwydded newydd o fudd i gynulleidfaoedd gan y bydd yn diogelu cynnwys pwysig, ac yn rhoi'r gallu i'r BBC siapio ei allbwn rhaglenni a'i gymysgedd o genres er mwyn diwallu

eu hanghenion sy’n newid. Yn hollbwysig, mae’r Drwydded Weithredu nawr yn rheoleiddio gwasanaethau ar-lein y BBC yn gynhwysfawr. Mae hyn yn cael ei ategu gan ofynion llym a manwl yn y Drwydded newydd, sy’n nodi'r hyn y mae angen i’r BBC adrodd yn ôl a phryd, a rhaglen oruchwylio helaeth.

A1.148 O ran y pwyntiau a wnaed gan Lywodraeth Cymru, mae’r dewisiadau golygyddol a’r cyfeiriad sy’n cael ei gymryd gan y BBC ar draws ei allbwn yn fater i Fwrdd a Gweithrediaeth y BBC yn y pen draw, ac nid i Ofcom. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ddal y BBC i gyfrif am ei berfformiad; nodi materion drwy ein gwaith monitro parhaus ac Adroddiad Blynyddol y BBC; a chyfrannu at Adolygiad Canol Tymor y BBC Llywodraeth y DU.

A1.149 Rydym hefyd yn monitro lle mae materion wedi cael eu codi o’r blaen ac mae’r BBC wedi gwneud newidiadau. Er enghraifft, ein nod yw cynnal rhagor o ymchwil ‘siopwr dirgel’ ar system gwynion BBC yn Gyntaf yn dilyn y newidiadau i’r system sy’n cael eu rhoi ar waith gan y BBC. Rydym yn ymgysylltu’n rheolaidd â rhanddeiliaid a darlledwyr i ddeall materion, ac yn cynnal ymchwil rheolaidd ymysg cynulleidfaoedd i ddeall eu hanghenion a’u dewisiadau. Mae ein hymchwil yn cynnwys cynulleidfaoedd ar draws bob grŵp demograffeg ac ar draws y DU.

A1.150 Gan ymateb i bwynt Llywodraeth yr Alban ar amrywiaeth a chynrychiolaeth, mae gan y BBC Ddiben Cyhoeddus i adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol yr holl wledydd a rhanbarthau ac, wrth wneud hynny, cefnogi’r economi greadigol ledled y DU. Yn ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ar y BBC, fe wnaethom nodi bod y BBC wedi gwneud cynnydd o ran cefnogi diwydiannau creadigol y DU, ac y byddai’n rhoi mentrau ar waith i wella cynrychiolaeth ar y sgrin ac oddi arni.

A1.151 Yn dilyn ein hadolygiad o Drwydded Weithredu’r BBC, byddwn hefyd yn ymgynghori ar ddiweddaru’r fframwaith mesur perfformiad yn ddiweddarach eleni. Rydym wedi cynnig mwy o dryloywder a gofynion adrodd er mwyn i ni gael rhagor o wybodaeth i fonitro perfformiad y BBC yn erbyn ei Ddibenion Cyhoeddus, gan gynnwys y Diben hwn. Rydym hefyd wedi cadw cwotâu ar gyfer rhaglenni’r gwledydd a’r rhanbarthau a fydd yn gweithio ochr yn ochr â’r adnoddau newydd i ddiogelu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd a’r rhanbarthau a chefnogi’r sectorau cynhyrchu.

A1.152 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y rhain trwy ein Hadroddiad Blynyddol.

A1.153 Yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf ar y BBC, fe wnaethom nodi nifer o gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol gan y BBC. Rydym wedi lansio adolygiad o gynulleidfaoedd y BBC i archwilio pam fod grwpiau cynulleidfa penodol, gan gynnwys y rheini yn yr hyn a elwir yn draddodiadol yn grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E, yn llai bodlon yn gyson â’r BBC ac i geisio deall eu harferion yn well, a sut mae’r BBC yn cyflawni ar eu rhan. Mae’r grwpiau hyn o bobl yn fwy tebygol o fod yn hŷn, yn ddi-waith, gydag anabledd neu wedi ymddeol. Bydd ein hadolygiad yn cynnwys comisiynu ymchwil ansoddol manwl newydd, sy’n cofnodi amrywiaeth y cynulleidfaoedd hyn ledled y DU. Bydd ein canfyddiadau yn rhoi sail i’n hasesiad blynyddol nesaf o berfformiad y BBC, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr hydref 2023.

A1.154 O ran y pwynt ynghylch ymgysylltu gan Bwyllgor BBC Scotland, mae cydweithwyr Ofcom yn yr Alban yn cwrdd yn rheolaidd â gweithrediaeth BBC Scotland a byddant yn parhau i drafod rôl y Pwyllgor gyda nhw ac eraill yn unol â hynny. Fodd bynnag, yn y pen draw, mater i'r BBC yw strwythur a chylch gwaith Pwyllgorau Bwrdd y BBC.

## Ymddiriedaeth mewn newyddion

A1.155 Amlinellodd Llywodraeth Cymru yr angen i sicrhau bod newyddion yn berthnasol ac wedi'u teilwra i anghenion gwahanol rannau o'r DU, a bod hyn yn adlewyrchu'r setliad datganoli yn gywir. Roedd Llywodraeth Cymru yn falch o weld ymrwymiad clir gan Ofcom i barhau i orfodi safonau o'r fath a gofynnodd am ragor o fanylion ynghylch sut mae dysgu wedi deillio o'r dadansoddiad annibynnol (a gynhaliwyd gan yr Athro Stephen Cushion o Brifysgol Caerdydd, a Dr Richard Thomas o Brifysgol Abertawe) sy'n edrych ar sut mae darparwyr newyddion rhwydwaith y DU yn adrodd ar faterion polisi datganoledig ar y teledu ac ar-lein.

### Ein hymateb

A1.156 Mae adroddiad newyddion Rhwydwaith 2021 yn gyd-destun pwysig sy'n cyfrannu at ein gwaith parhaus ar ofynion a darpariaeth newyddion i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan y BBC a darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus eraill, ac mae'n cefnogi ein rhaglen ehangach o ymchwil ac ymgysylltu ar Ddyfodol Lluosogrwydd Cyfryngau yn y DU.

## Diogelu cynulleidfaoedd

A1.157 Cafodd y rhan fwyaf o'r ymatebion mewn perthynas â chynnwys niweidiol eu gwneud mewn perthynas â niwed ar-lein ac mae crynodeb ohonynt yn yr adrannau perthnasol. Gyda phobl iau yn dod yn fwyfwy agored i gynnwys darlledu, nododd Llywodraeth Cymru eu bod yn croesawu'n arbennig y ffocws ar amddiffyn plant ac yn croesawu'r gwaith amserol sy'n ymwneud ag ymchwil ar agweddau cynulleidfaoedd at ddeunydd darlledu treisgar a rhywiol.

### Ein hymateb

A1.158 Mae Ofcom o'r farn bod diogelu plant yn un o'n dyletswyddau pwysicaf o ran safonau cynnwys a byddwn yn parhau i flaenoriaethu'r maes hwn o'n gwaith. Canfyddiadau ein hymchwil diweddaraf ar agweddau presennol a phryderon perthnasol rhieni a gofalwyr fydd sail ein gwaith o orfodi safonau cynnwys darlledu ac ar-alw yn y dyfodol.

## Amrywiaeth mewn darlledu yn y DU

A1.159 Gwnaed sawl pwynt ynghylch amrywiaeth yn y maes darlledu. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod cael gweithlu mwy amrywiol yn y diwydiant cyfryngau yn flaenoriaeth benodol yng Nghymru, ac adlewyrchir hyn yn y Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol a'r adroddiad Drws ar Glo. Croesawodd Llywodraeth Cymru y gydnabyddiaeth i'r mater hwn

gan Ofcom a lansiad y pecyn cymorth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mis Tachwedd 2022.

A1.160 Dywedodd Llywodraeth yr Alban y byddai'n ddefnyddiol deall cynlluniau penodol Ofcom ar gyfer gwella amrywiaeth y sector creadigol yn yr Alban, a sut mae dull rheoleiddio Ofcom yn addasu i ystyried safbwyntiau'r sector a chynulleidfaoedd yn yr Alban.

A1.161 Awgrymodd Pwyllgor Cynghori'r Alban (ACS) Ofcom y dylai Ofcom gyhoeddi data ar gyfer pob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau unigol a gwneud hynny'n fanylach e.e. rolau cynhyrchu staff a gweithwyr llawrydd sy'n gweithio i ddarlledwr.

### Ein hymateb

A1.162 Rydym yn rhannu'r nod o gael sector darlledu amrywiol a chynhwysol ar draws holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Y llynedd, am y tro cyntaf, fe wnaethom gyhoeddi data mewn perthynas ag amrywiaeth staff y BBC ar draws yr Alban a'r gwledydd eraill. Ym mis Tachwedd 2022, mi wnaethom hefyd gyhoeddi datganiad yn amlinellu newidiadau i'n pecyn cymorth wedi'i ddiweddaru ar gyfer casglu data ar degwch, amrywiaeth a chynhwysiant mewn darlledu, gan ganolbwyntio o'r newydd ar amrywiaeth eu gweithluoedd yn ôl gwlad/rhanbarth.

A1.163 Er nad oes gennym y pwerau ar y cyfan i fynnu gwybodaeth am weithwyr llawrydd, byddwn yn adrodd ar ddata daearyddol y gweithlu mor fanwl ag y gallwn, o ystyried cyfyngiadau diogelu data.

## Defnyddwyr agored i niwed ac anabl

A1.164 Roedd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB), Better Media, Llywodraeth Cymru a'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl (CCP-ACOD) ymysg eraill wedi cyflwyno sylwadau ynghylch diogelu a chefnogi defnyddwyr agored i niwed ac anabl.

A1.165 Mynegodd RNIB siom ynghylch y diffyg cynnydd o ran sicrhau cwotâu gwasanaeth mynediad ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw, ond roedd yn croesawu'r ffaith bod Ofcom yn cydnabod y maes hwn sy'n peri pryder.

A1.166 Dywedodd Better Media nad oedd ganddynt "fawr o hyder yng ngallu Ofcom i fonitro a rheoli marchnadoedd effeithiol, yn enwedig y rheini sy'n gweithredu er budd defnyddwyr ar incwm isel neu ar y cyrion fel arall, er enghraifft pobl y tu allan i ardaloedd trefol, pobl mewn cymunedau amrywiol, neu bobl ag anghenion cymdeithasol sylweddol". Fe wnaethant annog Ofcom i weithredu er budd pob dinesydd, nid dim ond y rheini sy'n cael eu hystyried yn ddefnyddwyr gweithredol offer cyfryngau newydd.

A1.167 Roedd Llywodraeth Cymru yn croesawu ymrwymiad parhaus Ofcom i orfodi'r gofyniad i gael gwasanaethau mynediad, gan gynnwys is-deitlau, sain-ddisgrifio ac iaith arwyddion, a'r cyhoeddiad y bydd gwaith ar y cyd â Llywodraeth y DU er mwyn cyflwyno gofynion hygyrchedd newydd. Maent yn awyddus i wneud rhagor o waith ar ofynion hygyrchedd.

A1.168 Nododd CCP-ACOD eu bod wedi annog Ofcom yn rheolaidd – ar draws ei gylch gwaith – i ddefnyddio ei ddylanwad hyd yn oed pan nad oedd ganddo bwerau gorfodi ffurfiol i ddiogelu a hyrwyddo hawliau defnyddwyr. Hoffent weld mwy o ymrwymiad ynghylch hyn, e.e. nid yw'r Cynllun, yn eu barn hwy, yn dweud digon am yr hyn y mae Ofcom yn bwriadu ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn hawdd i bawb eu defnyddio. Mi wnaethant nodi bod agweddau ar waith Ofcom yn dal i ddangos cysondeb â'r model meddygol, e.e. 'amodau cyfyngol' ac maent yn gobeithio gweld newid sylweddol mewn iaith o 'amodau cyfyngol' gyda mwy o bwyslais ar ofynion mynediad pobl (h.y. y model cymdeithasol). Anogodd CCP-ACOD y dylai Ofcom gwrdd yn fwy rheolaidd â'r grwpiau hyn i sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu'n gweithio i bobl sydd â nam ar eu synhwyrau.

### Ein hymateb

A1.169 Mae gwaith Ofcom yn ystyried yr anghenion, yn asesu'r effaith bosibl ac yn cynnwys ymchwil ar draws cynulleidfaoedd, gan gynnwys lle mae gwahanol amgylchiadau daearyddol, economaidd-gymdeithasol ac agored i niwed. Ein nod yw canfod a deall materion penodol ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn. Er enghraifft, fel y nodir uchod, rydym wedi dechrau adolygiad thematig o ddarpariaeth y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd o gefndiroedd economaidd is. Rydym hefyd yn ymchwilio i brofiadau a dewisiadau pobl anabl ac agored i niwed mewn perthynas â gwasanaethau teledu ac ar-alw.

A1.170 Gan ymateb i bwynt yr RNIB ar gwotâu gwasanaethau mynediad ar gyfer gwasanaethau ar-alw, er ein bod yn aros am ddeddfwriaeth sy'n mynnu hygyrchedd ar-alw, rydym yn parhau i roi pwysau am gynnydd gyda'n gwaith monitro ac adrodd blynyddol ar wasanaethau hygyrch (a'r Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig sy'n rhoi mynediad iddynt). Bydd yr adolygiad eleni o'n canllawiau arferion gorau ynghylch hygyrchedd yn cael ei ehangu i gynnwys gwylio ar-alw. Wrth adolygu ein canllawiau arferion gorau ynghylch hygyrchedd, rydym yn awyddus i ymgysylltu mor eang â phosibl i ddeall anghenion a dewisiadau cynulleidfaoedd. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n helaeth â grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr sydd â nam ar eu synhwyrau, ymchwil ansoddol i brofiadau a dewisiadau defnyddwyr, ac ymgynghoriad cyhoeddus yng ngwanwyn 2023. Dyma un o'r ffyrdd y gallwn annog cynnydd o ran darparu gwasanaethau cyfryngau hygyrch cyn i Lywodraeth y DU gyflwyno gofynion ar-alw.

A1.171 Wrth ymateb i bwyntiau CCP-ACOD, rydym yn ymdrechu i ddefnyddio iaith gynhwysol ar draws ein gwaith ar amrywiaeth a chynhwysiant, ac rydym yn cydnabod yn benodol y newid o 'fodel meddygol' o anabledd i 'fodel cymdeithasol', er enghraifft wrth ddiweddaru'r data rydym yn ei gasglu gan ddarlledwyr ar eu cynrychiolaeth o bobl anabl yn eu gweithluoedd.

## Rheoleiddio cynnwys fideo ar-alw

A1.172 Codwyd pwyntiau gan y Samariaid a fyddai'n hoffi gweld y Cynllun Gwaith yn canolbwyntio mwy ar reoleiddio gwasanaethau fideo ar-alw (VOD) wrth i'r Bil Cyfryngau fynd drwy'r Senedd, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw wasanaethau VOD sy'n cynnwys hunanladdiad a hunan-niweidio sy'n dewis cael eu 'lleoli' y tu allan i'r DU.

A1.173 Yn fwy cyffredinol, roedd Llywodraeth Cymru yn croesawu ymrwymiad Ofcom i weithio gyda'r DCMS i sicrhau cysondeb rheoleiddio a chomisiynu ymchwil er mwyn deall disgwyliadau ac agweddau cynulleidfaoedd o ran VOD yn well.

### Ein hymateb

A1.174 Mater i Lywodraeth y DU a Senedd y DU yw unrhyw estyniad i'r drefn reoleiddio bresennol ar gyfer gwasanaethau VOD. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r DCMS a rhanddeiliaid, gan gynnwys y Samariaid, i sicrhau: bod unrhyw drefn reoleiddio newydd yn gymesur; a bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag cynnwys niweidiol. Nodwn a chroesawn gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'n bwriadau.

## Gwledydd ac ieithoedd brodorol

A1.175 Roedd cyflwyniadau gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ac MG ALBA wedi codi pwyntiau mewn perthynas â darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a'r Alban a defnyddio a chynrychioli ieithoedd brodorol (h.y. Cymraeg a Gaeleg).

A1.176 Yn ogystal â'r pwyntiau a wnaed uchod, cododd Llywodraeth Cymru bryderon cyffredinol ynghylch adran Cymru o'r Cynllun Gwaith arfaethedig, sy'n darparu ychydig o wybodaeth am gynlluniau a blaenoriaethau Ofcom ar gyfer Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Roeddent wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y cynlluniau a'r gweithgareddau hyn i gynyddu presenoldeb a sylfaen sgiliau Ofcom yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â meysydd ffocws â blaenoriaeth Ofcom yng Nghymru.

A1.177 Nododd MG ALBA, er bod natur ffyrnig cystadleuaeth ac effaith modelau busnes esblygol, technolegau newydd a newid mewn ymddygiad cynulleidfaoedd yn cael eu teimlo gan yr holl ddarparwyr cyfryngau, mae'r cyfryngau Gaeleg yn cael eu heffeithio'n unigryw gyda chefnogaeth gyfyngedig i sicrhau eu bod yn gallu pontio'n effeithiol yn y dirwedd cyfryngau digidol hon sy'n esblygu.

A1.178 Yn y cyfamser, roedd Llywodraeth yr Alban yn pryderu mai ychydig iawn y mae Cytundeb y BBC yn ei ddweud am y gwasanaeth Gaeleg, yn wahanol i'r ymrwymiadau y mae'n eu gwneud i'r gwasanaeth Cymraeg. Mae Llywodraeth yr Alban yn credu y gellid gofyn cwestiynau hefyd am Drwydded Weithredu'r BBC, sy'n cynnig "ychydig o sylwadau ar y gwahaniaeth rhwng ariannu'r gwasanaeth Cymraeg o'i gymharu â'r gwasanaeth Gaeleg, a gallai fynd ymhellach ar gyfer BBC ALBA gyda ffocws sy'n mynd y tu hwnt i newyddion a dysgu".

### Ein hymateb

A1.179 Mae timau Ofcom yn y gwledydd yn gweithio ar draws pob agwedd ar gylch gwaith Ofcom ac felly mae'r blaenoriaethau fel y nodir yn y Cynllun Gwaith arfaethedig yn berthnasol i'n gwaith yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae'r tîm yng Nghymru yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws Ofcom i sicrhau bod materion sy'n berthnasol

i ddefnyddwyr yng Nghymru yn cael eu cynrychioli a'u hystyried ym mhopeth a wnawn. Mae hyn yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn y ffordd mae Ofcom yn sicrhau ei fod yn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr yng Nghymru. Rydym yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod gennym y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol yn y gwledydd ac ar hyn o bryd rydym yn recriwtio unigolyn i arwain ar ein gwaith ar Ddiogelwch Ar-lein, yn ogystal ag unigolyn ychwanegol i weithio ar waith Ofcom yn y Gymraeg.

A1.180 Rydym yn ymgysylltu ag MG ALBA yn rheolaidd wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â'r sefydliad ac fel partner gyda'r BBC wrth weithredu sianel BBC ALBA. O'r herwydd, rydym yn deall yn iawn yr heriau a amlygwyd gan MG ALBA yn ei gyflwyniad. Y ffordd fwyaf uniongyrchol y gallwn helpu i fynd i'r afael â'r heriau hynny yw parhau i benodi Aelodau Bwrdd i MG ALBA (gyda chymeradwyaeth Gweinidogion yr Alban) yn y flwyddyn i ddod, sydd â'r ystod briodol o sgiliau i ateb yr heriau sy'n wynebu'r sefydliad. Y tu hwnt i hyn, rydym yn croesawu ymrwymiad y BBC ac MG ALBA i foderneiddio ei gytundeb partneriaeth mewn perthynas â gwasanaeth BBC ALBA ac rydym yn gobeithio gallu myfyrio arno yn ein Hadroddiad Blynyddol ein hunain ar y BBC yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

A1.181 Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi ein Trwydded Weithredu ddiwygiedig ar gyfer y BBC a fydd yn moderneiddio amodau'r drwydded sydd, yn ein barn ni, yn angenrheidiol i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu gwasanaeth modern i gynulleidfaoedd Gaeleg eu hiaith. Mae penderfyniadau cyllido ar gyfer BBC ALBA a gofynion y BBC ynghylch darlledu Gaeleg yng Nghytundeb y BBC y tu hwnt i gylch gwaith Ofcom.

## Radio / Radio Lleol

A1.182 O ran radio lleol, trafododd Better Media fod camau rheoleiddio Ofcom yn y sector radio wedi arwain at "ddarparu gwasanaeth unffurf a chanolog iawn gan ychydig gorfforaethau mawr". Roedd eu hymateb yn amlinellu bod lle wrth galon agenda polisi lefelu Llywodraeth y DU, ond mae Ofcom wedi methu ag ymateb yn ddigonol drwy roi buddiannau cymunedau lleol yn gyntaf. Yn ei farn ef, nid yw Ofcom yn defnyddio trothwy na phrawf ystyrlon sy'n diffinio 'lleolrwydd' gwasanaeth wrth gymeradwyo a rheoleiddio radio sy'n cael ei ddarlledu.

A1.183 Croesawodd Llywodraeth Cymru yr ymrwymiad i barhau i roi sylw i ddarlledu radio, amrywiaeth y diwydiant a hyrwyddo lluosogrwydd y gwasanaethau radio sydd ar gael yng Nghymru a'r DU. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus yn eu barn nhw, er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau sy'n darparu cynnwys unigryw i gymunedau yn cael eu colli drwy unrhyw ddiwygiad i'r drwydded.

### Ein hymateb

A1.184 Nodwn yr ymateb gan Lywodraeth Cymru a Better Media ar wasanaethau radio. Mae Ofcom yn anghytuno â safbwynt Better Media ynghylch ein dull gweithredu ar gyfer radio lleol. Dros y degawd diwethaf, mae Ofcom wedi trwyddedu dros 300 o wasanaethau radio cymunedol sy'n targedu ardaloedd daearyddol bach, ac mae ein rhaglen trwyddedu DAB ar raddfa fach yn darparu rhagor o gyfleoedd i orsafoedd radio lleol. Er ein bod yn cydnabod

bod radio masnachol wedi cyfuno’n sylweddol, mae ein gwaith rheoleiddio’n dal i sicrhau bod gwasanaethau radio masnachol lleol yn darparu’r newyddion a’r wybodaeth leol y mae ein hymchwil yn dweud wrthym fod gwrandawyr yn eu gwerthfawrogi.

## Radio DAB ar Raddfa Fach (SSDAB)

A1.185 Fe wnaeth rhanddeiliaid gan gynnwys Real Radio Leicester Community Radio, y Federation of Communication Services (FCS), Bedford Radio, Better Media / Decentred, UK Community Radio Network a Rutland a Staford Sound CIC, godi amrywiaeth o faterion mewn perthynas â Radio DAB ar Raddfa Fach (SSDAB), yn enwedig ynghylch dull Ofcom o’u trwyddedu, ochr yn ochr ag ymholiadau’n ymwneud â thrwyddedau FM ac AM yn y dyfodol ar lefel leol.

A1.186 Nododd yr FCS fod Ofcom, yn wahanol i’r drefn flaenorol, yn bwriadu cynnig trwyddedau i weithredwyr SSDAB, gan ganiatáu ‘llacio’ y fanyleb ar gyfer ‘Allyriadau Allan o Fand’ ac ‘Allyriadau Sianel Gyfagos’ dan rai amgylchiadau. Rhybuddiodd y gallai nodweddion trawsyrru signalau radio ar amleddau VHF Uchel a Band III achosi tarfu ar ffurf achos difrifol o golli gwasanaeth dros ardal sylweddol, hyd yn oed ar bwerau trawsyrru cymharol isel. Gan fod y dyraniadau Radio Busnes yn agos iawn (o ran amledd) at y blociau DAB is ym Mand III a’u bod hyd yn oed wedi’u lleoli ym Mand III, mae’r FCS yn gofyn am fod yn ofalus eithriadol wrth neilltuo systemau DAB i sbectrwm radio sy’n agos at y rhai a ddefnyddir gan y systemau hyn, yn enwedig yn achos cynigion i ganiatáu’r llacio yn y manylebau.

A1.187 Holodd Better Media a oedd Ofcom, drwy gyfyngu ar weithrediad y broses trwyddedu darlledu i SSDAB yn unig, mewn gwirionedd yn “rhwystro defnydd effeithlon o sbectrwm darlledu analog presennol y gellid yn hawdd ei ddarparu ar-alw”. Roedd yn cynnig bod cynllun gwaith Ofcom yn galluogi cyflymu’r broses drwyddedu SSDAB, neu fel arall, yn darparu capasiti ychwanegol ar gyfer proses symlach ac ar-alw o drwyddedu sbectrwm analog ar yr un pryd. Yn y cyfamser, galwodd Rutland and Stamford Sound CIC am adolygiad o’r broses barhaus o gyflwyno SSDAB cyn gynted â phosibl, gan archwilio hyfywedd, gallu technegol a sicrhau bod amlblecsau mwy proffidiol ac amlblecsau gwledig mwy ymylol yn cael eu harchwilio, a dadansoddiad o ba ffioedd mae gorsafoedd yn eu talu i fod ar amlblecsau.

A1.188 Roedd Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU yn croesawu’r ffaith bod SSDAB yn parhau i gael ei gyflwyno ac eisiau annog Ofcom i barhau cyn gynted â phosibl er mwyn galluogi cynifer â phosibl o orsafoedd Radio Cymunedol i ddefnyddio SSDAB fel llwybr tuag at radio DAB.

### Ein hymateb

A1.189 Nid oes gan Ofcom yr adnoddau i wneud yr holl waith trwyddedu radio y mae galw amdano. Ar hyn o bryd, rydym yn credu ei bod er budd cynulleidfaoedd yn y DU i ni flaenoriaethu trwyddedu SSDAB dros drwyddedu gwasanaethau analog newydd (h.y. FM neu AM). Mae hyn oherwydd ein bod o’r farn y bydd SSDAB yn y pen draw yn cynnig mwy o orsafoedd i gynulleidfaoedd, yn fwy effeithlon, ac mewn mwy o leoliadau, nag y gallai FM neu AM. Dyma felly’r defnydd gorau posibl o sbectrwm ac mae’n cyflawni ein dyletswydd i sicrhau bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio yn cael eu darparu sydd (o’u

hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac y cyfrifwyd a fydd yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau.

A1.190 Nodir dull Ofcom o drwyddedu SSDAB, a'r rhesymau dros y dull gweithredu hwn, yn y datganiad Trwyddedu DAB ar raddfa fach a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020 (yn benodol, gweler paragraffau 4.1-4.17 a 7.2-7.24 o'r datganiad hwnnw), ac yn yr Adolygiad o'r galw yn y tair cylch trwyddedu cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022.

A1.191 Mewn perthynas â phwynt yr FCS ar allyriadau allan o fand a sianeli cyfagos, mae Ofcom wedi ymgynghori'n ddiweddar ar y posibilrwydd o lacio'r masg ar gyfer amlblecsau SSDAB. Rydym yn adolygu'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad hwn ac nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ar hyn o bryd. Bydd y Datganiad yn adlewyrchu ein penderfyniadau pan gaiff ei gyhoeddi.

# Rydym yn byw bywyd mwy diogel ar-lein

## Sefydlu ein gweithrediadau, Map Diogelwch Ar-lein a'r Bil Diogelwch Ar-lein

A1.192 Croesawodd Ymddiriedolaeth Carnegie UK fap Ofcom ar y Bil Diogelwch Ar-lein ym mis Gorffennaf 2022, ond dywedodd, o ystyried yr oedi i'r Bil, ei fod wedi dyddio bellach. Byddai'n croesawu amserlen ddiwygiedig ar gyfer yr olyniaeth o ymgynghoriadau a chodau a fydd yn ofynnol gan y rheoleiddiwr unwaith y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol yng Nghynllun Gwaith eleni.

A1.193 Dywedodd y Gymdeithas Darparwyr Dilysu Oedran fod Ofcom wedi dod yn gyfrifol am orfodi gofynion diweddaraf y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ym mis Tachwedd 2020. Dywedont eu bod wedi drysu ar ôl darllen ym mis Hydref 2022 bod Ofcom yn nodi ei "flaenoriaethau ar gyfer yr ail flwyddyn". Mae'n credu mai dyma'r drydedd flwyddyn i Ofcom roi'r rheoliad hwn ar waith.

A1.194 Trafododd y Gymdeithas Darparwyr Dilysu Oedran fod y map a gyhoeddwyd yn iawn i flaenoriaethu deunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM) a chynnwys terfysgaeth, ond ei fod yn bryderus nad yw'n ddigon uchelgeisiol o ran mathau eraill o niwed blaenoriaeth.

A1.195 Croesawodd Grŵp BT fap Ofcom ar gyfer rhoi'r drefn diogelwch ar-lein ar waith unwaith y daw'r Bil Diogelwch Ar-lein yn gyfraith. Mi wnaethant drafod nad yw'r Bil yn bodloni'r hyn y mae Llywodraeth y DU wedi dweud wrth BT y mae'n bwriadu ei wneud dro ar ôl tro: sef y gallai unrhyw wasanaeth sy'n galluogi mynediad at wasanaeth sy'n destun gorfodaeth fod yn destun gorchymyn cyfyngu ar fynediad neu wasanaeth. Hoffent ymgysylltu ag Ofcom cyn gynted â phosibl i egluro gweithrediad a chwmpas y gorchmynion blocio, gan gynnwys darparu rhestr o gyfleusterau mynediad sydd o fewn y cwmpas i weithredu gorchmynion cyfyngu ar fynediad a chyfyngu ar wasanaeth.

A1.196 Cynigiodd Reset y dylai'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol a'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau ohono (gan gynnwys Ofcom) sefydlu fframwaith ffurfiol i gomisiynu ymchwil a dadansoddi a gofyn am dendrau gan grwpiau cymdeithas sifil, academyddion a'r sector

dielw. Dywedodd y byddai proses o'r fath yn arbennig o ddefnyddiol yng nghyswllt is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Bil Diogelwch Ar-lein a drafftio'r Codau Ymarfer.

A1.197 Mae cymal 146 o'r Bil Diogelwch Ar-lein sydd ar y gweill yn mynnu bod Ofcom yn darparu adroddiad yn ystyried a ddylai ymchwilwyr annibynnol gael mynediad at ddata sy'n ymwneud â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, a sut i roi'r mynediad hwnnw. Bydd rhaid i Ofcom wneud hyn yn ystod y ddwy flynedd gyntaf wedi i'r Bil ddod i rym. Nododd Reset y dylai'r adroddiad hwn nodi sut i ddarparu mynediad i ymchwilwyr at y data, nid ystyried a ddylai'r data fod ar gael. Hefyd, gofynnodd Reset i Ofcom gyflymu'r gwaith hwn i wella mynediad ymchwilwyr at ddata o fewn cyfnod byrrach. Mae'n cynnig 6 mis. Mae Deddf Gwasanaethau Digidol yr UE yn darparu ar gyfer rhaglen waith debyg, a bydd ar waith eleni. Er mwyn sicrhau nad yw ymchwilwyr o Brydain yn cael eu gadael ar ôl, mae Reset o'r farn bod angen i Ofcom flaenoriaethu'r mesur tryloywder pwysig hwn a gweithio gyda chymheiriaid Ewropeaidd i sicrhau bod safon debyg o fynediad at ddata ar waith yn y DU.

A1.198 Dywedodd Match Group nad yw siopau apiau'n cael eu cydnabod fel categori gwasanaeth yn y Bil Diogelwch Ar-lein ar hyn o bryd, er eu bod yn byrth at y rhan fwyaf o gynnwys digidol ar gyfer oedolion a phlant. Fel y rhagwelwyd yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod y siopau apiau wedi cael eu hystyried yn anghywir fel rhai nad oes ganddynt unrhyw ran i'w chwarae o ran hyrwyddo neu wella diogelwch ar-lein. Yn eu barn nhw, mae'n hanfodol bod Ofcom yn edrych ar y mater hwn yn y Cynllun Gwaith ar gyfer 2023/2024, gan ystyried y rôl mae siopau apiau eu hunain yn ei chwarae yn yr economi ddigidol, ac archwilio rhwymedigaethau posibl siopau apiau o dan y drefn diogelwch ar-lein newydd. Awgrymodd hefyd y dylai Ofcom ystyried ymdrechion presennol Apple a Google i gyfrannu at sicrhau rhyngrwyd mwy diogel.

A1.199 Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi ymrwymo i gadw pobl yn ddiogel pan fyddant ar-lein, ac mae'n gwbl gefnogol o rôl Ofcom o ran goruchwylio trefn reoleiddio newydd, glir a fydd yn gwella diogelwch defnyddwyr ar-lein. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn hanfodol bod gwaith Ofcom yn y maes hwn yn cael ei gyflawni mewn ffordd sy'n golygu bod amrywiaeth eang o bobl yn gallu elwa o'r gwaith hwn, gan gynnwys y rheini sy'n llai galluog yn ddigidol a'r rheini sydd fwyaf agored i niwed. I Lywodraeth Cymru, mae'n hanfodol bod Ofcom yn ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol yng Nghymru, drwy'r broses ymgynghori ffurfiol a thrwy ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid, i sicrhau bod y drefn reoleiddio'n adlewyrchu'r blaenoriaethau yng Nghymru ac yn cydnabod gwahaniaethau mewn meysydd datganoledig, fel addysg a'r cwricwlwm, diogelu a'r Gymraeg. Hefyd, dylid addasu'r rhestrau o ymadroddion a'r algorithmau i dynnu sylw'n awtomatig at gynnwys ar-lein a allai fod yn niweidiol yn Saesneg ar gyfer y Gymraeg hefyd, er mwyn sicrhau bod plant sy'n siarad Cymraeg hefyd yn cael eu cadw'n ddiogel ar-lein.

A1.200 Nododd Llywodraeth Cymru yr ymrwymiad i ymgysylltu ag ystod eang o arbenigwyr pwnc a phartïon sydd â diddordeb er mwyn rhannu profiadau ac arferion gorau. Lle bo hynny'n bosibl, gallai cydweddoldeb ar draws gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth ymysg darparwyr gwasanaethau ar-lein o'r gofynion a osodir arnynt, a'r gobaith yw y byddai'n arwain at well cydymffurfiaeth. Mae'n cefnogi'r bwriad i ddatblygu gallu diogelwch ar-lein y sefydliad. Byddai hefyd yn ddefnyddiol deall mwy am rôl a chylch gwaith y Grŵp Diogelwch Ar-lein arfaethedig.

## Ein hymateb

A1.201 Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am gynlluniau Ofcom i roi cyfreithiau diogelwch ar-lein ar waith, a'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan gwmnïau technoleg o fewn y cwmpas. Rydym yn bwriadu cyhoeddi diweddariad byr i'n map unwaith y bydd yr amserlenni seneddol yn gliriach.

A1.202 Cafodd Ofcom swyddogaethau newydd i reoleiddio llwyfannau rhannu fideos ym mis Tachwedd 2020. Fe wnaethom ddechrau datblygu a gweithredu'r fframwaith rheoleiddio o'r pwynt hwn, ac ym mis Hydref 2021 fe wnaethom gyhoeddi ein canllawiau i'r diwydiant ochr yn ochr â'n cynllun a'n dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r llwyfannau yn y flwyddyn ganlynol. Roedd y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a chyhoeddi adrodddiad cyntaf Ofcom ar lwyfannau rhannu fideos ym mis Hydref 2022 felly yn nodi ein blwyddyn lawn gyntaf o reoleiddio ('Blwyddyn 1') a dechreuom ein hail flwyddyn lawn o reoleiddio ('Blwyddyn 2') ym mis Hydref 2022.

A1.203 Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn nodi'n glir mai cyfrifoldeb y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yw mynd i'r afael â phob niwed blaenoriaeth. Mae'r Bil yn parhau i esblygu, ond rydym wedi gallu buddsoddi mewn datblygu ein sylfaen dystiolaeth sylfaenol mewn ffyrdd a fydd yn ein galluogi i nodi mesurau wedi'u targedu rydym yn disgwyl i wasanaethau eu cymryd i fynd i'r afael â phob niwed blaenoriaeth. Byddwn yn nodi rhagor o wybodaeth yn ein dogfennau ymgynghori.

A1.204 Byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau drafft ar sut byddwn yn mynd ati i orfodi'r dyletswyddau diogelwch ar-lein, gan gynnwys ein defnydd o fesurau tarfu ar fusnesau. Rydym yn annog rhanddeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw i'n helpu i siapio ein dull gweithredu, a byddem yn awyddus i glywed gan drydydd partïon a allai fod yn destun gorchymyn tarfu ar fusnes o ran unrhyw heriau maen nhw'n eu rhagweld gyda'r broses.

A1.205 Fel cyrff cyhoeddus, mae Ofcom ac aelodau eraill y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol yn caffael yn unol â'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus, yn ogystal â deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol eraill a allai fod yn berthnasol i bob awdurdod. Mae rhagor o fanylion am ddulliau caffael Ofcom, ynghyd â gwybodaeth am ein System Tendro Ar-lein, ar gael yma. O dan gynllun gwaith y Fforwm, mae aelodau'r Fforwm wedi comisiynu ymchwil ar y cyd, gan gynnwys ar Sicrhau Oedran.

A1.206 Bydd Ofcom yn cyhoeddi ei adroddiad ar ddarparu mynediad i ymchwilwyr at ddata llwyfannau cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Mae'n rhaid i Ofcom ymgynghori a nifer o randdeiliaid penodol wrth baratoi'r adroddiad, a fydd yn sicr o effeithio ar ba mor gyflym y gall Ofcom gyflawni ei ddyletswyddau o ran adroddiadau mynediad i ymchwilwyr. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod arbenigwyr perthnasol yn gallu cyfrannu at ein hystyriaethau yn yr adroddiad. Fel rhan o'i waith, bydd Ofcom yn adrodd ar wahanol fecanweithiau presennol y llwyfannau i ddarparu mynediad at ddata ar gyfer ymchwil. Mater i Lywodraeth y DU a'r Senedd yw'r pwerau penodol sydd gan Ofcom mewn perthynas â rhoi mynediad ymchwilwyr at ddata'r llwyfannau.

A1.207 O ran y pwynt a godwyd ynghylch a ddylid dod â siopau apiau o fewn y cwmpas, i wneud hyn byddai angen gwneud diwygiadau i'r Bil ac felly mae'n fater i Lywodraeth y DU a'r Senedd, ac nid i Ofcom.

A1.208 Rydym yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru yn croesawu rôl newydd Ofcom fel y rheoleiddiwr Diogelwch Ar-lein. Mae diogelu pobl ifanc yn un o brif amcanion y Bil Diogelwch Ar-lein ac mae diogelu plant yn faes blaenoriaeth pwysig fel rhan o waith Ofcom o reoleiddio gwasanaethau ar-lein. Rydym yn gweithio'n frwd i feithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid yng Nghymru, er mwyn i ni allu elwa o'r profiad a'r arbenigedd sylweddol sydd yna yn y byd academaidd a'r trydydd sector. Bydd ein cydweithwyr yng Nghymru yn parhau i gyfrannu at ddatblygu polisïau yn Ofcom, gan dynnu sylw at faterion perthnasol a chyfrannu at y ddealltwriaeth rydym wedi'i chael o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid yng Nghymru. Rydym hefyd wedi bod yn mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth drwy raglen eang o ymchwil, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn y flwyddyn i ddod. Fodd bynnag, nid yw datblygu rhestrau ymadroddion ac algorithmau i fflagio cynnwys ar-lein a allai fod yn niweidiol yn awtomatig o fewn cwmpas ein dyletswyddau.

A1.209 Ym mis Ebrill 2023, byddwn yn lansio Grŵp Diogelwch Ar-lein newydd yn Ofcom, dan arweiniad Gill Whitehead. Mae Gill yn ymuno â ni o'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol lle bu, fel Prif Weithredwr, yn cyd-arwain arbenigedd digidol pedwar corff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm: yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom. Rydym yn cydnabod bod rheoleiddio technoleg yn fater cymhleth ac mae angen dull gweithredu soffistigedig a chydgysylltiedig rhwng rheoleiddwyr. Rydym wedi cynyddu ein cydweithrediad â'r CMA, yr FCA a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Drwy'r Fforwm, rydym yn gallu tynnu ynghyd gwybodaeth, arbenigedd, sgiliau ac adnoddau i hyrwyddo cydweithrediad ac aliniad rheoleiddiol. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod trefn diogelwch ar-lein y DU yn cyd-fynd â'r fframweithiau diogelwch ar-lein sy'n dod i'r amlwg yn rhyngwladol. Yn ddiweddar, lansiodd Ofcom y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang gyda Chomisiynydd e-Ddiogelwch Awstralia, a Chomisiwn Diogelwch Ar-lein Fiji – gyda chymorth Awdurdod Darlledu Iwerddon. Bwriad y Rhwydwaith yw paratoi'r ffordd ar gyfer dull rhyngwladol cydlynol o reoleiddio diogelwch ar-lein, drwy alluogi rheoleiddwyr diogelwch ar-lein i rannu gwybodaeth, profiad ac arferion gorau.

## Gwirio oedran

A1.210 Soniodd Barnardo's eu bod nhw, a chynghrair o sefydliadau eraill, yn galw ar bob safle pornograffi gyda defnyddwyr y DU sy'n cynnal cynnwys, i gyflwyno trefn annibynnol a safonol o ddilysu oedran gyda safonau sylfaenol mewn ffordd sydd wedi'i chymeradwyo gan Ofcom, fel bod gwasanaethau a reoleiddir wedi'u bodloni y tu hwnt i amheuaeth resymol bod defnyddiwr yn 18 oed neu'n hŷn. Roedd trefn ddilysu oedran i fod i gael ei chyflwyno o dan y Ddeddf Economi Ddigidol, ond ers i Lywodraeth y DU benderfynu peidio â gweithredu Rhan 3 o'r Ddeddf honno, mae plant wedi cael mynediad dirwystr at gynnwys pornograffig. Mae Barnardo's yn cynnig bod rhaid i Ofcom baratoi a chyhoeddi cod ymarfer ar gyfer pob cynnwys pornograffig o fewn pedwar mis i gael Cydsyniad Brenhinol ac y dylid cyflwyno trefn ddilysu oedran o fewn chwe mis.

A1.211 Tynnodd Match Group sylw at y ffaith eu bod yn gwbl gefnogol o nodau Ofcom o ran cyflwyno system gadarn i sicrhau oedran er mwyn amddiffyn plant rhag cynnwys i oedolion a fydd yn amddiffyn y defnyddwyr mwyaf agored i niwed (plant) rhag cael niwed ar-lein.

A1.212 Byddai Barnardo’s wedi dymuno bod Cynllun Gwaith arfaethedig Ofcom yn cynnwys ffocws ar sicrhau bod cwmnïau pornograffi yn dilysu oedrannau perfformwyr mewn cynnwys i wneud yn siŵr eu bod dros 18 oed, ac i wneud yn siŵr bod y fideos yn gydsyniol. Mae Barnardo’s o’r farn nad oes ffordd ar hyn o bryd o sicrhau bod perfformwyr mewn cynnwys pornograffig dros 18 oed, y tu hwnt i’r sicrwydd a roddir gan y gwefannau pornograffi.

A1.213 Mynegodd Barnardo’s bryder bod y Bil Diogelwch Ar-lein yn cynnwys bwlch cyfreithiol y gall safleoedd pornograffi ei ddefnyddio i osgoi trefn ddilysu oedran drwy ddadlau nad y DU yw ei marchnad darged. Er mwyn ddod o dan ddarpariaethau’r Bil, mae cymalau 3(5) a 67(4) y Bil yn mynnu bod rhaid i wasanaethau fod â “nifer sylweddol o ddefnyddwyr y DU” neu fod defnyddwyr y DU yn “un o farchnadoedd targed y gwasanaeth (neu’r unig farchnad darged)”. Gall safleoedd pornograffi ddadlau nad ydynt yn bodloni’r gofyniad hwn, gan ganiatáu iddynt beidio â defnyddio mesurau dilysu oedran.

A1.214 Nododd y Gymdeithas Darparwyr Trefnau Dilysu Oedran y bydd y Cynllun Gwaith yn datgan y bydd Ofcom yn canolbwyntio, ym Mlwyddyn 3, ar “Bwrw ymlaen â’r gwaith o roi trefniadau cadarn ar waith i gadarnhau oedran er mwyn diogelu plant rhag y cynnwys ar-lein mwyaf niweidiol gan gynnwys pornograffi.” Nododd fod hwn yn gam gweithredu sy’n fwy addas ar gyfer Blwyddyn 1 na Blwyddyn 3, ond mae’n croesawu’r ffocws hwn. Roedd hefyd yn rhoi croeso cadarn i agor rhaglen orfodi pedwar mis yn y maes hwn, ac mae’n ymddiried yn y ffaith y bydd ymchwiliadau a chamau gorfodi yn cael eu cynnal os bydd methiannau amlwg gan rai llwyfannau rhannu fideos hysbysedig i gydymffurfio â’r ddeddfwriaeth bresennol.

A1.215 Mae’r Gymdeithas Darparwyr Dilysu Oedran yn nodi nad yw’n cytuno â’r rhesymeg yn y map i ohirio cyn gorfodi Rhan 5 ar gynnwys a gynhyrchir gan ddarparwyr yn artiffisial i’w alinio â Rhan 3. Mae llwybr critigol cymhleth is-ddeddfwriaeth yn gohirio Rhan 3 ond nid yw hynny’n berthnasol o gwbl i Ran 5. Roedd yn cynnig y gall Ofcom fwrw ymlaen â’r Rhan hon yn gyflym a mynd i’r afael â phob safle sydd â chynnwys a gynhyrchir gan ddarparwyr. Roedd hefyd yn dadlau bod hyn yn cynnwys y prif safleoedd ‘tiwb’ gan mai dim ond asiantau cymeradwy’r safleoedd hyn sy’n gallu llwytho fideos i fyny. Ni all y cyhoedd wneud hynny, felly nid ydynt yn cynnal cynnwys defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. Yn wleidyddol, nid oes modd cyfiawnhau caniatáu i blant gael mynediad dirwystr at bornograffi tan 2025, ac mae’n debygol iawn y bydd yn hwyrach na hynny.

## Ein hymateb

A1.216 Byddwn yn ymgynghori ar ein dull o ddilysu oedran i gydbwyso ystyriaethau perthnasol gan gynnwys ystyried arloesi gyda thechnolegau arloesol newydd i ddiogelu plant ar-lein. Rydym wedi comisiynu ymchwil ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i adeiladu ein sylfaen dystiolaeth ar gywirdeb ac effeithiolrwydd y mesurau sicrhau oedran presennol. Bydd hyn yn ein galluogi i osod disgwyliadau rhesymol ar wasanaethau o fewn y cwmpas sydd â dyletswydd i sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws pornograffi ar eu gwasanaeth. Ar ben hynny, o dan Ran 5 y Bil Diogelwch Ar-lein, bydd rhaid i Ofcom lunio canllawiau ar gyfer darparwyr cynnwys pornograffig i gydymffurfio â’u dyletswyddau o dan Ran 5. Bydd angen trefn ymgynghori wrth lunio’r canllawiau hyn ac ni allwn wneud sylw ynghylch pennu amserlen benodol i weithredu arni cyn y broses honno. O dan Ran 3 o’r Bil Diogelwch Ar-lein, bydd rhaid i Ofcom lunio Codau Ymarfer ar gyfer gwasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. Bydd y rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i,

mesurau lliniaru i'w rhoi ar waith yn erbyn niwed prif flaenoriaeth a niwed blaenoriaeth, ac rydym yn deall bod pornograffi yn debygol o fod yn un ohonynt. Byddwn yn ymgynghori ar ein hymagwedd at hyn ac ni allwn wneud sylw ynghylch pennu amserlen benodol i weithredu arni cyn y broses honno.

A1.217 Rydym yn falch o weld bod Match Group yn cydnabod pwysigrwydd diogelu plant rhag cynnwys i oedolion a niwed arall i blant.

A1.218 Mae Ofcom wedi nodi ei flaenoriaeth strategol ar gyfer Blwyddyn 2 y broses o reoleiddio VSP, gan sicrhau bod trefn gadarn o ddilysu oedran. Bydd hyn yn canolbwyntio ar sicrhau amddiffyniad i blant rhag y cynnwys ar-lein mwyaf niweidiol (gan gynnwys pornograffi).

A1.219 Bydd ein trefn o reoleiddio gwasanaethau ar-lein yn cynnwys yr holl wasanaethau o fewn y cwmpas sydd â chysylltiadau â'r DU, boed y gwasanaethau hynny wedi'u sefydlu yn y DU ai peidio. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau bach a rhai sydd wedi'u sefydlu mewn gwledydd eraill, ond fod unigolion yn gallu eu defnyddio yn y DU. Ni fyddwn yn defnyddio asesiad y llwyfan i benderfynu a oes gan wasanaeth y cysylltiadau angenrheidiol, a byddwn yn hytrach yn ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys i ba raddau y mae gan wasanaeth ddefnyddwyr yn y DU neu fod defnyddwyr yn y DU yn gallu ei ddefnyddio

A1.220 Rydym yn gwerthfawrogi'r awydd am gynnydd cyflym yn y maes hwn ac yn cydnabod bod amddiffyn plant ar-lein yn fater brys. Rydym yn rhagweithiol wrth ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth ar sicrhau oedran drwy raglen eang o waith ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys cydweithio â rheoleiddwyr rhyngwladol eraill yn y gofod hwn er mwyn dysgu o'u profiadau nhw ac osgoi rhwystrau posibl rhag rheoleiddio llwyddiannus. Byddwn yn sicrhau bod gennym broses gadarn a chynhwysfawr ar gyfer gosod ein codau a'n canllawiau. Mae angen inni ganiatáu digon o amser ar gyfer ymgynghori a chasglu tystiolaeth yn briodol gan ein bod yn hyderus y bydd hyn yn ein galluogi i roi rheolau effeithiol a gorfodadwy ar waith yn gynt. Ym mis Ionawr 2023, fel rhan o'n gwaith o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos (VSP), fe wnaethom hefyd agor rhaglen orfodi ar gyfer mesurau sicrhau oedran i VSP i oedolion sydd wedi'u sefydlu yn y DU. Mae'r rhaglen orfodi hon yn ceisio pennu graddfa unrhyw bryderon ynghylch cydymffurfio, a byddwn yn defnyddio deilliannau hyn i benderfynu ar y ffordd orau o fynd i'r afael ag unrhyw niwed posibl. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a oes angen cymryd camau gorfodi pellach. Rydym yn credu ei bod yn bwysig i bob gwasanaeth pornograffi pwrpasol ddarparu lefel gyffelyb o amddiffyniad i blant, os ydynt yn wasanaethau Rhan 3 neu'n rhai Rhan 5. Mae ein hymgysylltiad â rheoleiddwyr rhyngwladol wedi dangos y bydd sicrhau tegwch yn agwedd bwysig ar reoleiddio llwyddiannus yn y maes hwn.

## Safonau cynnwys pornograffig

A1.221 Mi wnaeth Barnardo's argymell yn gryf y dylai Cynllun Gwaith arfaethedig Ofcom gynnwys ffocws ar reoleiddio cynnwys pornograffig, er mwyn sicrhau bod safonau ar-lein ar gyfer cynnwys pornograffig yn cyd-fynd â safonau all-lein. Mae cynnwys pornograffig, sy'n anghyfreithlon all-lein, ar DVD, Blu-Ray neu fideo ar alw, ar gael yn helaeth ar-lein. Dylid mynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn rhwng safonau all-lein a rhai ar-lein drwy atal cynnwys

rhag cael ei lwytho i fyny ar-lein os na fyddai'n cael tystysgrif R18, a bod rhywfaint o'r cynnwys wedi'i wahardd.

A1.222 Argymhellodd Barnardo's y dylid cynnwys diffiniad o bornograffi yn y Bil Diogelwch Ar-lein yn seiliedig ar adran 15 o Ddeddf yr Economi Ddigidol. Gofynnodd i Gynllun Gwaith arfaethedig Ofcom ar bornograffi ymestyn i bob llwyfan sydd â chynnwys pornograffig.

A1.223 Mae Barnardo's yn pryderu bod plant yn dod ar draws cynnwys rhywiol amlwg sy'n cael ei farchnata iddynt drwy apiau cyfryngau cymdeithasol heb i'r defnyddiwr hyd yn oed chwilio am gynnwys pornograffig. Mae marchnata cynnwys pornograffig fel hyn yn gallu denu plant i chwilio am gynnwys pornograffig ar safleoedd eraill. Dywedodd Barnardo's y dylai Cynllun Gwaith arfaethedig Ofcom nodi sut y byddant yn gweithio gyda VSP, gan gynnwys TikTok, i fynd i'r afael â'r cynnwys hwn a diogelu plant rhag pornograffi.

A1.224 Roedd Barnardo's yn dadlau'n gryf y dylai'r dyletswyddau a osodir ar ddarparwyr cynnwys pornograffig yn Rhan 5 y Bil Diogelwch Ar-lein fod yn berthnasol hefyd i lwyfannau sy'n dod o dan Ran 3 o'r Bil. Mae'n credu mai "pornograffi yw pornograffi", a'i fod yn niweidiol iddyn nhw - dim ots lle mae plentyn yn cael mynediad ato.

## Ein hymateb

A1.225 Mae Ofcom wedi nodi ei flaenoriaeth strategol ar gyfer Blwyddyn 2 y broses o reoleiddio VSP, gan sicrhau bod trefn gadarn o ddilysu oedran. Bydd hyn yn canolbwyntio ar sicrhau amddiffyniad i blant rhag deunydd pornograffig. Mewn perthynas â sicrhau bod safonau ar gyfer cynnwys pornograffig yn gyson ar-lein ac all-lein, nid yw hyn yn rhan o bwerau Ofcom o dan y drefn VSP, ac nid yw wedi'i nodi yn y Bil Diogelwch Ar-lein drafft.

A1.226 Mater i Lywodraeth y DU yw penderfynu ar y diffiniadau sy'n cael eu cynnwys yn y Bil, nid Ofcom. I weld ble arall mae Ofcom wedi darparu canllawiau ar delerau tebyg, trowch at Ganllawiau VSP Ofcom: "Dylid ystyried bod fideos sydd wedi eu creu'n bennaf er mwyn cynhyrfu neu gyffroi pobl yn rhywiol yn addas i oedolion yn unig, yn unol â Chanllawiau Dosbarthu'r BBFC ar gyfer gweithiau Rhywiol i bobl dros 18 oed".

A1.227 Ym mis Hydref 2022 mi wnaethom gyhoeddi adroddiad "blwyddyn gyntaf Ofcom o reoleiddio llwyfannau rhannu fideos". Mae'n cynnwys ein blaenoriaethau ar gyfer Blwyddyn 2 sy'n ymdrin â sut mae llwyfannau'n cadw pob defnyddiwr yn ddiogel rhag deunydd niweidiol. Ond mae'n ymdrin yn benodol â sut mae llwyfannau'n defnyddio dulliau sicrhau oedran, gan gynnwys dilysu oedran, i ddiogelu pobl ifanc dan 18 oed rhag niwed, gan gynnwys pornograffi.

A1.228 Mater i Lywodraeth y DU, nid i Ofcom, yw penderfynu sut mae gwasanaethau'n cael eu cynnwys yn y Bil a pha ddarpariaethau sy'n berthnasol iddynt. Er bod gwasanaethau Rhan 5 ar wahân i wasanaethau Rhan 3, bydd rhaid i wasanaethau sy'n dod o dan Ran 3 ddiogelu plant rhag cynnwys sy'n niweidiol iddynt, sef cynnwys prif flaenoriaeth a deallwn y bydd hynny'n cynnwys pornograffi. Felly, bydd rhaid i'r gwasanaethau hyn hefyd roi mesurau lliniaru diogelwch ar waith.

## Codau ymarfer ar hysbysebu twyllodrus

A1.229 Gwnaeth MoneySavingExpert a Which? sylwadau ynglŷn â hysbysebion twyllodrus sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Diogelwch Ar-lein, gan fynegi diddordeb mewn cydweithio ag Ofcom wrth iddo ddatblygu codau ymarfer i fynd i'r afael â thwyll gan ddefnyddwyr a hysbysebu twyllodrus. Dywedodd MoneySavingExpert yr hoffai weld Ofcom yn ystyried llwyfannau sy'n cael eu talu i gyhoeddi hysbysebion twyllodrus fel 'cyhoeddwyr'. O'r herwydd, dylai fod dyletswydd ar y diwydiant i roi mesurau ar waith sy'n diogelu defnyddwyr yn rhagweithiol ac yn atal hysbysebion twyllodrus rhag ymddangos yn y lle cyntaf, yn hytrach na dibynnu ar ddefnyddwyr i roi gwybod am sgamiau pan fyddant yn dod ar eu traws.

A1.230 Nododd Which? ei bod yn addawol clywed y bydd Ofcom yn parhau i weithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wrth iddo adolygu trefniadau rheoleiddio hysbysebion ar-lein. Fodd bynnag, amlinellodd Which? fod ganddynt rai pryderon penodol ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â hysbysebion sy'n agored i bawb, gyda dim ond 1% o'r ecosystem yn ddiogel yn erbyn twyll, a thwyllwyr yn gwneud hyd at $1m mewn diwrnod. Eglurodd Which? eu bod yn galw am reoleiddio cyfryngwyr technoleg hysbysebu i sicrhau bod ganddynt systemau a phrosesau cymesur ar waith i atal twyll. Byddai eu galwad yn ymestyn dull gweithredu'r Bil Diogelwch Ar-lein ar hysbysebu twyllodrus i rannau eraill o'r rhyngrwyd.

### Ein hymateb

A1.231 Yn unol â sut rydym yn ymdrin â'n dyletswyddau rheoleiddio presennol, byddwn yn defnyddio dull ymgynghorol i ddatblygu'r drefn rheoleiddio diogelwch ar-lein, fel ei bod yn seiliedig ar fewnbwn diwydiant, sefydliadau sy'n hyrwyddo hawliau defnyddwyr y rhyngrwyd, academyddion a rhanddeiliaid eraill. Byddwn yn ymgynghori ar y Cod Hysbysebu Twyllodrus unwaith y bydd y broses gategoreiddio wedi'i chwblhau, a disgwyliwn y bydd hynny'n digwydd yn ystod 2024/25.

A1.232 Deallwn fod y DCMS yn ystyried rôl cyfryngwyr fel rhan o'i Rhaglen Hysbysebu Ar-lein. Bydd Ofcom yn parhau i weithio gyda'r DCMS wrth iddo ystyried rheoleiddio hysbysebion ar-lein, er mwyn helpu i sicrhau cydlyniant mewn rheoleiddio digidol.

## Defnyddwyr agored i niwed

A1.233 Dywedodd Pwyllgor Cynghori'r Alban (ACS) ei bod yn amlwg nad yw risg ar-lein yr un fath i bawb. Mae pobl agored i niwed yn fwy tebygol o brofi niwed ar-lein a gallant ymateb iddo mewn ffyrdd gwahanol (fel y tebygolrwydd o roi gwybod amdano). Mae ffactorau fel, er enghraifft, oedran, rhyw, ethnigrwydd, anabledd, lles meddyliol, hanes o fod yn gaeth i rywbeth ac ati, a ffactorau fel tlodi, bod yn ofalwr neu beidio â siarad Saesneg fel iaith gyntaf, yn dylanwadu ar y tebygolrwydd o fod yn agored i risg ar-lein. Mi wnaeth ACS annog Ofcom i ystyried sut y gallai adrodd ar dryloywder fod yn ffordd o ddeall profiadau anghyfartal pobl agored i niwed ar-lein ac effeithiolrwydd systemau a phrosesau sydd wedi'u cynllunio i'w diogelu.

### Ein hymateb

A1.234 Mae pwerau tryloywder Ofcom yn caniatáu i Ofcom nodi'n union pa ddata y mae angen i lwyfannau ei gyhoeddi yn eu hadroddiadau tryloywder blynyddol. Ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, bydd Ofcom yn ymgynghori ar ei Ganllawiau Tryloywder, a fydd yn nodi sut maent yn penderfynu pa wybodaeth y mae'n rhaid i lwyfannau ei chyhoeddi yn eu hadroddiadau tryloywder, a byddem yn croesawu ymateb gan y Pwyllgor. Cyhoeddodd Ofcom bapur Strategaeth Dryloywder ym mis Ionawr 2023.

## Cynnwys niweidiol

A1.235 Cyfeiriodd Barnardo's at Adran 2.17 y Cynllun Gwaith arfaethedig sy'n datgan y bydd Ofcom yn sicrhau bod ei ddull o reoleiddio'r Bil Diogelwch Ar-lein yn cynnal pwysigrwydd rhyddid mynegiant ar-lein. Er bod Barnardo's wedi nodi pwysigrwydd rhyddid mynegiant, roedd yn trafod y dylai Ofcom ychwanegu cafeat i'w ddull gweithredu, a sicrhau ei fod yn cydbwyso rhyddid mynegiant yn erbyn yr angen i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol ac anghyfreithlon ar-lein.

A1.236 Soniodd Ymddiriedolaeth Carnegie UK nad yw'r Cynllun Gwaith yn nodi sut mae Ofcom yn bwriadu ymgynghori ac ymgysylltu â chymdeithas sifil – byddai'n amhrisiadwy i gael eu dealltwriaeth a'u harbenigedd am natur niwed ar-lein, a pha mor aml mae'n digwydd, a byddant yn bartneriaid hanfodol yn y blynyddoedd i ddod. Roedd yn dadlau y byddai'n dda cael gwybod sut bydd Ofcom yn gweithio gyda dioddefwyr niwed ar-lein a grwpiau cynrychioliadol sy'n gallu cyfuno profiad dioddefwyr mewn ffordd sy'n llai trawmatig i'r dioddefwr unigol ac sy'n fwy cyfleus i Ofcom.

A1.237 Nododd Ymddiriedolaeth Carnegie UK fod llawer o sylw'n cael ei roi yn naratif y Cynllun Gwaith i'r cydgyfeiriant yn y ffordd y mae defnyddwyr yn defnyddio'r cyfryngau, yn enwedig drwy lwyfannau digidol ac ar-lein, a sut mae Ofcom ei hun yn adlewyrchu'r byd ar-lein newydd hwnnw yn ei ddull gweithredu. Nododd, fodd bynnag, fod gwahanol safonau a diffiniadau o beth yw 'niwed' yn y cynnwys y mae defnyddwyr yn pori drwyddo o un funud i'r llall, ac mae gan Ofcom bwerau gwahanol ym mhob maes. Awgrymodd Ymddiriedolaeth Carnegie UK y gallai fod achos dros gynnal adolygiad o gydlyniaeth y systemau hyn i reoleiddio 'niwed', lle bynnag y gellir dod o hyd iddo, i ganfod anghysonderau a mynd i'r afael â bylchau – yn enwedig o safbwynt defnyddiwr; byddai'n codi cwestiwn ynghylch sut i gategoreiddio'r gwasanaeth Discord er enghraifft, o ystyried ei fod yn ddrws cefn i ryngweithio rhwng defnyddwyr (a niwed sylweddol posibl) wrth ei ddefnyddio ochr yn ochr â llwyfannau gemau, ond nid yw'n un o'r gwasanaethau y mae dyletswydd ar Ofcom i'w rheoleiddio ar hyn o bryd. Er gwaethaf y pwysau a wynebwyd eisoes, awgrymodd Ymddiriedolaeth Carnegie UK y gallai Ofcom ychwanegu syniadau cychwynnol am hyn at ei waith blaenoriaeth yn y flwyddyn i ddod.

A1.238 Dywedodd y Samariaid y dylai Ofcom roi blaenoriaeth i wella prosesau adrodd ar wefannau fel bod modd nodi a dileu cynnwys niweidiol, gan gynnwys sicrhau bod proses ar waith gan bob safle sy'n cynnal cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr. Mae canllawiau'r diwydiant yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer prosesau adrodd hygyrch. Dylai Ofcom hefyd roi pwyslais ar sicrhau bod gwefannau'n dryloyw o ran eu canllawiau a'u telerau ac amodau. Mae canllawiau'r diwydiant yn argymell y dylid darparu canllawiau cymunedol clir a hygyrch i ddefnyddwyr ynghylch pa gynnwys a ganiateir ar y safle. Dylid hefyd rhoi

gwybodaeth gam wrth gam iddynt, gan gynnwys sut i adrodd a pha gamau y gellir eu cymryd.

A1.239 Dywedodd y Samariaid y dylid bod yn ofalus ac yn sensitif wrth ymdrin â'r iaith sy'n ymwneud â swyddogaethau adrodd ar gyfer hunan-niweidio a hunanladdiad. Yn aml iawn, does dim bwriad maleisus i'r hyn mae person yn ei bostio am hunanladdiad neu hunan-niweidio, er y gallai fod yn niweidiol i ddefnyddwyr eraill. Gyda hyn mewn golwg, efallai na fydd defnyddwyr eraill yn rhoi gwybod am gynnwys o'r fath rhag ofn y bydd safonwyr yn ei ddileu. Gallai'r prinder presennol o gategorïau adrodd sy'n ymwneud yn benodol â hunanladdiad a hunan-niweidio hefyd atal defnyddwyr rhag rhoi gwybod am gynnwys. Felly, awgrymodd y Samariaid y dylai Ofcom sefydlu canllawiau clir i safleoedd cynnal cynnwys ar gynnwys yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio. Dylai'r rhain gynnwys canllawiau ar brosesau adrodd a chanllawiau er mwyn gwahaniaethu rhwng cynnwys maleisus a diniwed.

A1.240 Dywedodd yr ACS fod y Cynllun Gwaith yn cyfeirio at ddefnydd Ofcom o bwerau adrodd ar dryloywder i ddatgelu perfformiad llwyfannau o ran diogelu pobl ar-lein. Roedd yn dadlau ei bod yn hanfodol bod adroddiadau tryloywder y llwyfannau ac adroddiadau Ofcom ei hun yn darparu dadansoddiad o brofiadau pobl ar-lein fesul gwlad. Roedd yn teimlo ei bod yn bwysig deall profiad yr Alban o niwed a mesurau diogelu ar-lein. Roedd ACS yn argymell y dylai Ofcom ystyried sut gallai adrodd ar dryloywder gynnwys niwed ar-lein yn y gwledydd unigol.

### Ein hymateb

A1.241 Dyletswydd graidd Ofcom o dan y Bil Diogelwch Ar-lein fydd sicrhau bod digon o amddiffyniad i ddinasyddion rhag niwed a achosir gan gynnwys ar wasanaethau a reoleiddir, drwy sicrhau bod darparwyr gwasanaethau o'r fath yn gwneud defnydd priodol o systemau a phrosesau sydd wedi eu dylunio i leihau'r risg o niwed o'r fath. Bydd sicrhau lefel uwch o amddiffyniad i blant nag i oedolion yn amcan allweddol i ni. Wrth geisio cyflawni hyn, byddwn yn ystyried yr angen i sicrhau lefel briodol o amddiffyniad i'r hawl i ryddid mynegiant.

A1.242 Mae'n bwysig bod Ofcom yn clywed gan amrywiaeth eang o randdeiliaid a sefydliadau arbenigol er mwyn cyfrannu at ein dull rheoleiddio, gan gynnwys y rheini sy'n cynnig safbwynt defnyddwyr a niwed. Rydym wrthi'n ymgysylltu â sefydliadau o'r fath a byddwn yn mynd ati i ymgynghori i ddatblygu'r drefn reoleiddio diogelwch ar-lein, er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei llywio gan fewnbwn rhanddeiliaid cymdeithas sifil (fel y rheini sy'n cynrychioli dioddefwyr niwed ar-lein), yn ogystal â diwydiant, academyddion a rhanddeiliaid eraill.

A1.243 O ran sylwadau ynghylch y ffaith bod gwahanol systemau rheoleiddio ar waith a allai fod yn berthnasol i wasanaethau tebyg mewn ffyrdd ychydig yn wahanol, mater i Lywodraeth a Senedd y DU yw cwmpas cyfundrefnau statudol yn y DU (ac a ddylid cynnal adolygiad o'r rhain ai peidio).

A1.244 Mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn nodi bod gwasanaethau'n cynnwys gwybodaeth yn eu telerau gwasanaeth ynglŷn â sut maen nhw'n diogelu defnyddwyr rhag cynnwys anghyfreithlon, a bod y darpariaethau hyn yn glir ac yn hygyrch. Mae hefyd yn darparu bod

gan wasanaethau ddarpariaethau yn eu telerau gwasanaeth sy’n egluro eu polisïau a’u prosesau ar gyfer cwynion sy’n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon, a bod y rhain ar gael yn rhwydd. Rydym yn bwriadu nodi mesurau allweddol i fodloni gofyniad y Bil y dylai fod yn hawdd defnyddio trefnau adrodd, gan ystyried cymesuredd a phroffil maint/risg y gwasanaeth. Rydym hefyd yn ystyried hygyrchedd fel rhan o’r mesurau hyn. Rydym yn edrych ar dystiolaeth o’n hymchwil ein hunain yn ogystal ag ymatebion i’n cais am dystiolaeth ac adroddiadau rhanddeiliaid.

A1.245 Rydym yn ymwybodol o’r gwahaniaethau rhwng mathau o gynnwys yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio, ac mae hyn yn sail i ddatblygiad yr ymgynghoriadau y cyfeirir atynt yn ein Cynllun Gwaith. Yn unol â sut rydym yn ymdrin â’n dyletswyddau rheoleiddio presennol, byddwn yn defnyddio dull ymgynghorol i ddatblygu’r drefn rheoleiddio diogelwch ar-lein, fel ei bod yn seiliedig ar fewnbwn diwydiant, sefydliadau sy’n hyrwyddo hawliau defnyddwyr y rhyngrwyd, academyddion a rhanddeiliaid eraill.

A1.246 Fel y nodwyd uchod, mae pwerau Ofcom yn ymwneud â thryloywder yn caniatáu iddo nodi’n union pa ddata y mae angen i lwyfannau ei gyhoeddi yn eu hadroddiadau tryloywder blynyddol. Ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, bydd Ofcom yn ymgynghori ar ei Ganllawiau Tryloywder, a fydd yn nodi sut mae’n penderfynu pa wybodaeth y mae’n rhaid i lwyfannau ei chyhoeddi yn eu hadroddiadau tryloywder, a byddem yn croesawu ymateb gan Bwyllgor Ymgynghorol yr Alban ar hyn. Cyhoeddodd Ofcom bapur Strategaeth Dryloywder ym mis Ionawr 2023.

## Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau

A1.247 Croesawodd Lego Group ffocws cryfach yng Nghynllun Gwaith Ofcom ar ‘ymwybyddiaeth o'r cyfryngau’ ac maent yn falch o fod yn rhan o weithgor Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau Ofcom. Mi wnaethant nodi y byddent yn parhau i weithio’n agos gyda’r sefydliad i gyflawni eu huchelgais ar y cyd.

A1.248 Dywedodd Llywodraeth Cymru eu bod yn arbennig o gefnogol i’r gwaith i wella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, yn enwedig comisiynu amrywiaeth o ymyriadau peilot ar gyfer grwpiau/cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol. Pwysleisiodd ei bod yn hanfodol iddynt barhau i ymgysylltu â’r holl randdeiliaid perthnasol yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod pawb sy’n ymwneud â gwella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn gweithio mewn ffordd gydlynol.

### Ein hymateb

A1.249 Rydym yn edrych ymlaen at barhau i ymgysylltu â Lego Group a rhanddeiliaid eraill sy’n ymwneud â’r Rhaglen Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau e.e. drwy ein Panel Cynghori ar y Rhaglen Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau.

A1.250 Rydym yn dal wrthi’n ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y DU, ac rydym yn falch bod dwy o’r 13 rhaglen beilot yng Nghymru. Rydym yn awyddus i ehangu ein rhwydwaith ledled Cymru ac rydym yn edrych ymlaen at ein hail ddigwyddiad wyneb yn wyneb ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yng Nghymru ym mis Mehefin.

# Galluogi gwasanaethau diwifr yn yr economi ehangach

A1.251 Cyflwynodd amrywiaeth eang o randdeiliaid sylwadau ynghylch rheoli sbectrwm. Roedd llawer o'r rhain yn adeiladol ac rydym wedi ceisio ymateb i'r pwyntiau perthnasol a wnaed isod. Dylai rhanddeiliaid barhau i gyfeirio at ein Map Ffordd Sbectrwm i gael amlinelliad manylach o'n gweithgarwch mewn perthynas â sbectrwm dros y deng mlynedd nesaf.

## Rhannu sbectrwm - cyflymu arloesi a rhannu sbectrwm

A1.252 Gwnaeth Cellnex UK y pwynt bod Llywodraeth y DU ac Ofcom wedi cyflawni arweinyddiaeth dros fynediad rhannu sbectrwm ar draws Ewrop yn y band sbectrwm 3.8 – 4.2 GHz. Fodd bynnag, gan ein bod nawr yn symud y tu hwnt i'r cynlluniau peilot/treialon cychwynnol ac i faint y defnydd, ei farn yw y dylai Ofcom adolygu'r prosesau trwyddedu a'r amodau cysylltiedig i sicrhau eu bod yn addas i'r diben, yn awtomatig lle bo hynny'n bosibl ac yn raddadwy yn ystod 2023/24.

A1.253 Argymhellodd y Gynghrair Sbectrwm Deinamig y dylai Ofcom roi systemau rheoli sbectrwm deinamig awtomatig ar waith cyn gynted â phosibl i adeiladu ar y fframwaith trwyddedu rhannu mynediad llwyddiannus y mae eisoes wedi'i roi ar waith. Byddai hyn yn gwella hyblygrwydd gweithredol ymhellach ar gyfer gwasanaethau newydd ac yn cynyddu effeithlonrwydd sbectrwm i gyflawni'r nod a ddatganwyd yn y Cynllun Gwaith.

### Ein hymateb

A1.254 Fe wnaethom lansio'r fframwaith trwyddedu Rhannu Mynediad yn 2019, ac ar y pryd fe wnaethom ddweud y byddem yn adolygu ein dull gweithredu yn sgil ein profiad. Bwriad ein hamcanion, a adlewyrchwyd yn ein rheolau cychwynnol, oedd galluogi'r hyn a oedd ar y pryd yn alw ansicr am fynediad lleol i sbectrwm symudol. Gyda mwy na 1600 o drwyddedau ar draws y bandiau hyn sy'n cael eu rhannu, byddwn yn sefydlu adolygiad i werthuso sut gallem wella'r broses. Rydym hefyd yn credu y dylai ein cynllun i hwyluso blychau tywod dan arweiniad y diwydiant yn y band 3.8-4.2GHz ddarparu data ychwanegol yn y byd go iawn ar nodweddion defnyddio a fydd yn sail i'n hadolygiad.

A1.255 Mae rhannu sbectrwm yn un o bileri ein strategaeth rheoli sbectrwm, a bydd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o alluogi rhagor o ddefnyddwyr i gael gafael ar y sbectrwm sydd ei angen arnynt. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein hadnoddau awdurdodi i ddiwallu anghenion yr amgylchedd rheoli sbectrwm hwn sy'n esblygu. Rydym wedi ymgysylltu â defnyddwyr, darparwyr cronfeydd data a rhanddeiliaid eraill i lywio ein syniadau ynghylch a fyddai adnoddau rheoli mwy deinamig a seiliedig ar amser yn dod â manteision yn y bandiau Rhannu Mynediad. Ein barn ar hyn o bryd yw y bydd ein rhaglen Esblygiad Llwyfannau Trwyddedu (LPE) yn rhoi mynediad cyflymach i randdeiliaid at sbectrwm, ac y byddai cyflwyno adnoddau awdurdodi mwy deinamig yn lleihau'r sicrwydd o fynediad at sbectrwm i ddefnyddwyr yn y bandiau hyn. Byddwn yn parhau i archwilio pa mor addas yw'r adnoddau hyn ar gyfer penderfyniadau rheoli sbectrwm eraill yn y dyfodol (ac rydym wedi nodi ein barn ar y cyfleoedd hyn yn ein cyhoeddiad ar Ddyrannu Sbectrwm Addasol).

## Sbectrwm ar gyfer sectorau arbenigol

A1.256 Gwnaeth Cellnex UK ac eraill bwyntiau hefyd ynghylch defnyddio Sbectrwm ar gyfer sectorau arbenigol e.e. cyfleustodau, gweithgynhyrchu a thrafnidiaeth (gan gynnwys rheilffyrdd).

### Ein hymateb

A1.257 Byddwn yn ystyried gofynion sbectrwm rheilffyrdd gweithredol yn y dyfodol fel rhan o'n gwaith parhaus. Yn ddiweddar, mi wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y band 1900 MHz lle rydym yn nodi bod yr achosion defnydd posibl ar gyfer y band hwn yn cynnwys cyfathrebiadau rheilffyrdd gweithredol sydd wedi cael eu cysoni ar lefel Ewropeaidd.

## Bregusrwydd Systemau Llywio â Lloeren Byd-eang

A1.258 Mynegodd Hellen Systems a Rethink PNT Ltd bryderon penodol ynghylch bregusrwydd Systemau Llywio â Lloeren Byd-eang (GNSS). Awgrymodd RethinkPNT fod y gweithgareddau yn y Cynllun Gwaith yn dechrau mynd i'r afael yn syth â "gwendidau systemig mewn gwasanaethau" drwy sicrhau bod atebion diwifr preifat, sy'n seiliedig ar y farchnad yn cael eu galluogi i liniaru'r bregusrwydd i golli GNSS. Nododd Hellen Systems bod bregusrwydd systemau GNSS i ymyriant bwriadol a methiannau systemig yn dod yn fwy o risg systematig i economi'r DU.

A1.259 Byddai Intelsat yn croesawu cynllun mwy uchelgeisiol a rôl weithredol gan Ofcom mewn cydgyfeiriant gwasanaethau daearol a lloeren na dim ond monitro datblygiadau.

### Ein hymateb

A1.260 Roedd ein strategaeth sbectrwm gofod yn cydnabod pwysigrwydd GNSS, o ran ein helpu i lywio ble bynnag yr ydym yn y byd a darparu amseru cywir iawn ar gyfer seilwaith cenedlaethol hanfodol. Rydym yn darparu cymorth fel sy'n briodol i waith y DU ar wasanaethau amseru a llywio safleoedd (PNT) cadarn, gan gynnwys monitro a chymryd camau cydymffurfio yn ôl yr angen yn erbyn y defnydd o jamwyr anghyfreithlon sy'n effeithio ar y gwasanaethau hyn, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddeall unrhyw ofynion sbectrwm posibl. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar fynediad at sbectrwm radio yn y band 90-110 KHz yn 2023/24.

A1.261 Rydym wedi cydnabod y duedd o gydgyfeiriant mewn gwasanaethau daearol a lloeren yn ein Strategaeth Sbectrwm Gofod. Rydym wedi ymrwymo i edrych ar wasanaethau uniongyrchol i ddyfeisiau yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac rydym yn ymgysylltu ag amryw o randdeiliaid fel rhan o'r gwaith hwn.

## Rhannu sbectrwm ac ardaloedd anodd eu cyrraedd

A1.262 Nododd Llywodraeth Cymru y gallai rhannu sbectrwm ddarparu cysylltedd ffonau symudol a band eang symudol mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd drwy ddefnyddio technolegau datblygol arloesol. Roedd yn croesawu ein hymrwymiad i barhau i ymgysylltu â defnyddwyr sbectrwm ac adolygu'r fframwaith sbectrwm yng ngoleuni profiad a diddordeb cynyddol defnyddwyr sbectrwm; ac mae'n credu y gallai rhannu sbectrwm chwarae rhan bwysig o ran mynd i'r afael â 'mannau di-gyswllt' parhaus ar gyfer ffonau symudol ac o ran datblygu defnydd newydd i gefnogi busnesau mewn ardaloedd gwledig.

A1.263 Honnodd y Gynghrair Sbectrwm Deinamig fod galw mawr am y genhedlaeth nesaf o gysylltedd di-wifr ar gyfer rhwydweithiau defnyddwyr a rhwydweithiau menter. Bydd rhannu sbectrwm yn elfen bwysig o'r ymdrech i ddiwallu'r galw hwn, fel y bydd opsiynau trwyddedig (gan gynnwys trwyddedu lleol a rennir) a mynediad wedi'i eithrio o drwydded.

### Ein hymateb

A1.264 Fel y nodir yn y Cynllun Gwaith hwn, byddwn yn adolygu ein dull gweithredu ar gyfer trwyddedau rhannu mynediad i sicrhau ei fod yn dal i gefnogi arloesedd. Rydym hefyd yn parhau i gynnig trwyddedu rhannu mynediad lleol mewn ardaloedd lle nad yw Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol (MNOs) yn defnyddio eu sbectrwm.

A1.265 Mae rhannu sbectrwm yn un o bileri ein strategaeth rheoli sbectrwm, a bydd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o alluogi rhagor o ddefnyddwyr i gael gafael ar y sbectrwm sydd ei angen arnynt. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr offer awdurdodi mwyaf priodol ar gael gennym i sicrhau bod y sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl. Bydd ein rhaglen waith Esblygiad y Llwyfan Trwyddedu (LPE) yn awtomeiddio'r broses drwyddedu ac yn rhoi profiad gwell i randdeiliaid wrth gael mynediad at sbectrwm.

## Cyfleustodau, cydweithio rhyngwladol, a chostau cysylltiedig

A1.266 Mae'r Joint Radio Company (JRC) yn pryderu bod mynediad cyfleustodau at ddyraniadau sbectrwm eraill wedi cael eu cwtogi neu eu dileu'n llwyr e.e. 26GHz, 1.4GHz, 6GHz. Mi wnaeth y JRC gydnabod a thrafod eu gwerthfawrogiad am waith diweddar Ofcom yn yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU) WP5A ynghyd â rheoleiddwyr o wledydd eraill Ewrop. Nododd y JRC hefyd fod cyhoeddiadau diweddar ynghylch newidiadau i'r bandiau microdon a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau 5G a 6G, ynghyd â datrysiad LTE neu WiFi yn yr ystod 6GHz yn debygol o olygu y bydd angen gwaith costus i gyfnewid caledwedd, a defnyddwyr ynni fydd yn ysgwyddo'r costau hynny. Nododd y JRC bod y newidiadau mawr i'r tri band amledd hyn yn ymddangos yn groes i'r gwaith presennol i adolygu'r gofynion (cynyddol) sy'n newid er mwyn i gyfleustodau gael mynediad at sbectrwm radio penodol i hwyluso datblygiadau 'Grid Clyfar'.

### Ein hymateb

A1.267 Fel y nodir yn y Cynllun Gwaith hwn, byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar opsiynau sbectrwm ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu cyfleustodau.

A1.268 Mae'r bandiau 26 GHz, 1.4 GHz a 6 GHz i gyd yn cael eu defnyddio ar gyfer cysylltiadau sefydlog. Mae cynlluniau i ddefnyddio'r bandiau 26 GHz ac 1.4 GHz ar gyfer ffonau symudol yn y dyfodol a byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar adeg addas ar gynigion i ddefnyddio rhan uchaf y band 6 GHz yn y DU yn y dyfodol. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal adolygiad newydd o sut gallai'r galw am sbectrwm ar gyfer cysylltiadau sefydlog mewn bandiau amledd presennol ac uwch esblygu dros y degawd nesaf.

## Blychau tywod sbectrwm

A1.269 Er bod Intelsat yn croesawu dull gweithredu Ofcom i alluogi arloesi a rhannu drwy arbrofi mewn blychau tywod h.y. mewn bandiau a lleoliadau daearyddol penodol, roedd yn argymell y dylid cymryd gofal wrth gynnal unrhyw arbrofion o'r fath ac y dylid cynnwys pob defnyddiwr sbectrwm, er mwyn osgoi unrhyw effaith niweidiol bosibl ar wasanaethau sy'n cael eu cynnig gan ddefnyddwyr sbectrwm presennol yn yr un bandiau ac mewn bandiau cyfagos.

A1.270 Roedd cyflwyniad gan Brifysgol Strathclyde a Phrifysgol Glasgow yn cymeradwyo bwriad Ofcom i weithio gyda'r byd academaidd a diwydiant i edrych ar ffyrdd newydd o arloesi a rhannu, mewn ardaloedd daearyddol penodol ac mewn bandiau penodol.

A1.271 Mae diddordeb eang o hyd mewn blychau tywod, yn ogystal â chefnogaeth iddynt – adlewyrchwyd hyn hefyd yn yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### Ein hymateb

A1.272 Rydym yn annog pob defnyddiwr sbectrwm i ystyried potensial blychau tywod, gan gynnwys defnyddwyr presennol a defnyddwyr newydd.

A1.273 Rydym wedi ymrwymo i archwilio sut gallai blychau tywod dan arweiniad y diwydiant ddarparu data i ni ar y defnyddio o sbectrwm fel sail i benderfyniadau polisi yn y dyfodol; mae hyn yn cyd-fynd â'n data gwell ar gyfer gwell maes gwaith rheoli sbectrwm a nodir yn y map. Bydd yr holl gynlluniau'n cael eu cynllunio a'u monitro i ddiogelu defnyddwyr presennol.

## Ffurflen gais am Radio (busnes) Wedi'i Neilltuo'n Dechnegol ac oedi cyffredinol gyda thrwyddedu

A1.274 Mynegodd y FCS gefnogaeth i'r gwaith o symleiddio Trwyddedau WTA (Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr) a nododd fod cyhoeddi trwyddedau radio busnes (BR) ar gyfer sbectrwm wedi'i Neilltuo'n Dechnegol a sbectrwm wedi'i Ddiffinio gan Ardal yn broses hir ac anodd, ac yn aml mae angen wythnosau lawer o ymdrech. Dywedodd yr FCS fod angen adolygu'r cyfnod gorfodol presennol o saith wythnos i gyhoeddi trwydded a bod angen amserlen fyrrach o lawer. Roedd yn trafod y dylid ymestyn y strategaeth ar-lein i'r holl drwyddedau BR. Ar hyn o bryd, rhaid i'r ymgeisydd argraffu'r ffurflen gais ar-lein ar gyfer rhai wedi'u 'Neilltuo'n Dechnegol' er mwyn ei llenwi â llaw.

### Ein hymateb

A1.275 Y terfyn amser o 42 diwrnod, a nodir yn Neddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, yw'r cyfnod hiraf y dylai Ofcom ei gymryd i gyhoeddi trwydded. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gryn dipyn yn fyrrach na hyn. Fel y nodir yn y Cynllun Gwaith hwn, rydym wrthi'n diweddaru ein systemau rheoli sbectrwm fel rhan o'n rhaglen Esblygiad y Llwyfan Trwyddedu (LPE). Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar y trwyddedau symlach a'r trwyddedau rhannu mynediad, ac yna byddwn yn symud ymlaen i'n cynhyrchion trwydded mwy technegol. I ddechrau, rydym yn bwriadu darparu cais ar-lein a phroses sypiau er caniatáu i ymgeiswyr/trwyddedeion reoli eu ceisiadau eu hunain. Yn nes ymlaen, rydym yn bwriadu integreiddio swyddogaeth cydlynu awtomatig, lle bo hynny'n bosibl. Dylai pob cam o'r gwaith uwchraddio hwn arwain at ostyngiad sylweddol yn yr amser mae'n cymryd i ymgeiswyr gael eu trwydded(au). O ran llenwi ffurflenni cais, mewn rhai meysydd fel trwyddedau BR a Neilltuwyd yn Dechnegol, rydym eisoes yn darparu'r ffurflen y gellir ei hargraffu a phroses ar-lein lle gellir llenwi manylion y cais ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dewis llenwi'r ffurflen ar-lein ac felly does dim angen iddynt ei hargraffu i'w llenwi â llaw.

## Parthau profi sbectrwm a chefnogaeth i brosiectau arloesi

A1.276 Nododd Pwyllgor Cynghori'r Alban (ACS) er bod gan Ofcom ddarpariaeth profi sbectrwm hyblyg iawn, gallai fod yn fwy o her i gynnal profion ar draws ardaloedd ehangach o ddinas. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Brifysgol Strathclyde sy'n ceisio sefydlu parth profi ardal fawr a fyddai'n dod â budd i drigolion lleol, a byddai hefyd yn gallu bod yn effeithiol o ran denu buddsoddiad i'r brifysgol oddi wrth gwmnïau rhyngwladol blaenllaw yn y sector. Awgrymodd ACS y dylai Ofcom ymgysylltu ag adrannau prifysgol (e.e.) a allai ddatblygu enw da'r Alban am ragoriaeth mewn ymchwil sydd wedi'i alinio â diwydiant, a chwmnïau 'deillio' cysylltiedig a allai sicrhau manteision economaidd ehangach i economi'r Alban.

### Ein hymateb

A1.277 Gall fod yn anodd darparu mynediad i sbectrwm ar draws dinas gyfan oherwydd yr angen i ddiogelu defnyddwyr presennol rhag ymyriant a galw sy'n cystadlu â'i gilydd am y sbectrwm. Byddwn yn parhau i weithio gyda phrifysgolion a rhanddeiliaid eraill ledled y DU i alluogi arloesi a thwf ar gyfer amrywiaeth eang o ddefnyddwyr sbectrwm.

## Band 6GHz uwch

A1.278 Gofynnodd y Gynghrair Wi-Fi i Ofcom flaenoriaethu'r ystyriaeth o sicrhau bod y band 6.425-7.125 GHz ar gael ar gyfer Wi-Fi yn ei Gynllun Gwaith 2023/24. Ategodd y Gynghrair Sbectrwm Deinamig y pwyntiau hyn.

### Ein hymateb

A1.279 Mae defnyddio'r band 6 GHz uchaf yn y dyfodol (6.425-7.125 GHz) yn denu diddordeb sylweddol gan randdeiliaid. Mae ganddo'r potensial i gefnogi defnydd band eang di-wifr o wasanaethau symudol masnachol ac wedi'u heithrio o drwydded fel Wi-Fi. Mae dyfodol y band yn cael ei drafod yn rhyngwladol - mae ar agenda Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC-23) nesaf ac mae hefyd yn cael ei ystyried yn Ewrop drwy'r Gynhadledd Ewropeaidd

ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau (CEPT). Fe wnaethom gyhoeddi diweddariad ar y band ym mis Rhagfyr 2022, lle gwnaethom nodi ein hoff ganlyniad ar gyfer WRC-23. Mae setlo’r defnydd o’r band yn y DU ac Ewrop yn y dyfodol yn flaenoriaeth i ni a byddwn yn parhau i weithio yn y DU a gyda’n cydweithwyr rhyngwladol i sicrhau canlyniad sy’n gwneud y gorau o'r manteision a ddaw yn sgil defnyddio’r band yn y dyfodol.

## Rheoli sbectrwm – effaith economaidd

A1.280 Cododd BT Group a Cellnex UK bwyntiau ynghylch y pwysau economaidd cynyddol ar MNOs y DU a’r effaith gysylltiedig ar allu buddsoddi. Cynigiodd BT Group y dylai Ofcom ddatblygu cynllun strategol ar gyfer cael y budd economaidd mwyaf posibl o’r sbectrwm sy’n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer teledu daearol digidol (DTT). Roedden nhw’n dadlau, o ystyried dyfodol a gofynion newidiol Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE), Teledu Daearol a Symudol, y dylai Ofcom arwain y ffordd o feddwl am ddefnyddio’r sbectrwm hwnnw yn y dyfodol.

### Ein hymateb

A1.281 Yn ei bapur Ebrill 2022 ar Ddarlledu, dywedodd y Llywodraeth y bydd yn gofyn i Ofcom barhau i gadw golwg ar newidiadau i wylio DTT ac i gynnal adolygiad cynnar cyn diwedd 2025 o newidiadau yn y farchnad a allai effeithio ar ddyfodol dosbarthu cynnwys.

A1.282 Yn y cyfamser, nid yw sefyllfa Ofcom ar DTT wedi newid: mae ganddo ddyfodol tan o leiaf 2030 a thu hwnt mae’n debyg. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y ddeddfwriaeth a roddwyd ar waith gan y Llywodraeth i ganiatáu adnewyddu’r pum prif drwydded amlblecs tan 2034, gyda chymal torri ar ddiwedd 2030.

## ALF (Ffioedd Trwyddedau Blynyddol) a Therfynau Dyrannu Sbectrwm

A1.283 Roedd BT Group o’r farn y dylai Ofcom gynnal adolygiad sylfaenol o’i ddull gweithredu ar gyfer pennu ffioedd blynyddol ar gyfer sbectrwm symudol. Fe anogodd bod dull Ofcom o bennu ffioedd blynyddol yn cael ei addasu ar gyfer sbectrwm symudol er mwyn cyd-fynd yn well â sefyllfaoedd y farchnad heddiw, gan ystyried yn benodol y ffordd orau o alluogi neu hyrwyddo masnachu a phrydlesu sbectrwm, a chronfa ddata ymarferol ar gyfer rhannu sbectrwm.

A1.284 Dadleuodd Vodafone fod angen cyfres o rwydweithiau cadarn ar raddfa addas ar y DU i ffynnu, gan alluogi pob sector o’r economi i ddatblygu a thyfu ar gefn seilwaith o’r radd flaenaf. Yn ei farn ef, mae 5G yn hanfodol i hyn ac mae Vodafone yn ceisio ei weld yn cael blaenoriaeth ym mhob penderfyniad. Galwodd am gamau gweithredu i fynd i’r afael â’r canlynol: 1. colli cyfalaf gan y diwydiant drwy ffioedd sbectrwm blynyddol uchel iawn. Nododd Vodafone ei fod yn awyddus i weld y baich hwn yn cael ei ailasesu neu gronfeydd yn cael eu neilltuo ar gyfer buddsoddi mewn rhwydweithiau; a, 2. penderfyniadau aneffeithlon ynghylch dyrannu sbectrwm sy’n golygu bod angen cael mwy o safleoedd nag sy’n angenrheidiol er mwyn cyrraedd y lefelau darpariaeth tebyg.

### Ein hymateb

A1.285 Rydym yn dal o'r farn y dylai ffioedd ar gyfer sbectrwm symudol adlewyrchu gwerth y farchnad. Rydym yn parhau i adolygu ein dull o osod y ffioedd hyn yng ngoleuni datblygiadau yn y farchnad a chyflwyniadau gan randdeiliaid. Wrth bennu ffioedd, rydym yn ystyried amgylchiadau sy'n benodol i fand wrth benderfynu ar y lefelau ffioedd priodol. Mae masnachu eisoes wedi'i alluogi mewn bandiau sbectrwm symudol ac mae trwyddedu lleol yn hwyluso mynediad at sbectrwm symudol mewn ardaloedd lle nad yw'n cael ei ddefnyddio gan y gweithredwyr.

A1.286 Rydym yn anghytuno bod ffioedd sbectrwm blynyddol yn afresymol o uchel, ac rydym yn nodi eu bod yn adlewyrchu'r taliadau y mae gweithredwyr wedi'u gwneud ar gyfer sbectrwm mewn arwerthiannau cystadleuol. Yn ein barn ni, mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod MNOs yn ystyried gwerth sbectrwm wrth wneud penderfyniadau buddsoddi. Ar ben hynny, fel y nodir yn ein Dull Gweithredu ar gyfer Marchnadoedd Symudol yn y Dyfodol, yn ein barn ni, ni fydd mesurau i gynyddu proffidioldeb cyffredinol MNOs o reidrwydd yn gwella'r cymhellion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

## Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC)

A1.287 Edrychodd amrywiaeth o randdeiliaid ymlaen at y cyfleoedd a ddarparwyd gan y Gynhadledd ac roeddent yn awyddus i ymgysylltu ymhellach ag Ofcom ynghylch hyn. Croesawodd BT y bwriad i gyhoeddi safbwynt Ofcom ar ofynion sbectrwm 6G yn y dyfodol, ond nododd fod amseriad y gwaith yn anghyson ag amseriad cynhadledd ITU WRC-23, lle bydd penderfyniad ar eitem ar yr agenda ar gyfer 6G yn y dyfodol yn cael ei wneud, yn ogystal â mater pwysig mynediad at sbectrwm ar 6GHz a 600 MHz.

A1.288 Mynegodd The Voice of the Listener and Viewer (VLV) y farn y dylai gwasanaethau teledu a radio gwasanaeth cyhoeddus fod ar gael i bawb ledled y DU yn rhad ac am ddim adeg eu derbyn. Mae rôl y band 600MHz sydd ar hyn o bryd yn cefnogi darparu gwasanaethau Freeview yn annibynnol yn rhan hanfodol o PSB ei hun, ac mae angen iddo gael ei ddiogelu yn ei farn ef. Ailadroddwyd sylwadau a wnaed i ymgynghoriadau blaenorol Ofcom ar sbectrwm ac ar baratoadau ar gyfer WRC23 mewn perthynas benodol â DTT yn y band amledd uchel iawn (UHF) 600 MHz.

A1.289 Nododd Llywodraeth Cymru y WRC sydd ar y gweill ac fe wnaeth annog Ofcom, sy'n cynrychioli'r DU, i ofyn am farn rhanddeiliaid a'r gynulleidfa ynghylch unrhyw angen i ystyried ymestyn teledu a radio digidol yn y dyfodol.

### Ein hymateb

A1.290 Bydd ein gwaith ar alluogi gwaith band eang di-wifr yn parhau a bydd yn sail i'n cyfraniad at gynhadledd nesaf WRC ym mis Tachwedd 2023.

A1.291 Er nad yw ein Cynllun Gwaith yn crybwyll PMSE yn benodol, rydym yn cwrdd yn rheolaidd â'u defnyddwyr a gwneuthurwyr offer. Mae hyn yn ein galluogi i gynrychioli safbwyntiau PMSE yn gywir wrth gyflawni ein dyletswyddau rheoli sbectrwm, gan gynnwys gweithio gyda'r Llywodraeth i gynrychioli buddiannau'r DU yn effeithiol mewn trafodaethau rhyngwladol. Mae'r cyfarfodydd hynny sydd ar y gweill, yn enwedig WRC-23, yn cael sylw yn ein Cynllun Gwaith.

A1.292 Nid yw sefyllfa Ofcom ar DTT wedi newid: mae ganddo ddyfodol tan o leiaf 2030 a thu hwnt mae'n debyg. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y ddeddfwriaeth a roddwyd ar waith gan y Llywodraeth i ganiatáu adnewyddu'r pum prif drwydded amlblecs tan 2034, gyda chymal torri ar ddiwedd 2030. Mae ein safbwynt ar y sbectrwm UHF yn WRC-23 yn dal i ddweud na ddylid newid y dyraniad (i DTT a PMSE) h.y. na ddylid cael dyraniad symudol newydd.

# Post

## Ein dull postio

A1.293 Er bod Cyngor ar Bopeth, at ei gilydd, yn cefnogi dull gweithredu Ofcom sy'n seiliedig ar ganlyniadau defnyddwyr, roedd yn teimlo bod angen i Ofcom roi rhagor o sylw i wasanaethau post yn hyn o beth. Roedd yn annog Ofcom i ganolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau post yn gyffredinol, yn fforddiadwy, yn gyson ac yn deg a mynegodd siom hefyd nad oes unrhyw ganlyniad a ddymunir ar gyfer gwasanaethau post yng Nghynllun Gwaith Ofcom.

A1.294 Dywedodd Pwyllgor Cynghori'r Alban (ACS) fod goruchwylio'r farchnad bost wedi disgyn i lawr rhestr blaenoriaethau Ofcom. Dywedodd ei fod yn dal yn flaenoriaeth allweddol yn yr Alban, a dylai barhau i fod yn flaenoriaeth uchel i Ofcom.

A1.295 Roedd y Post Brenhinol yn dadlau bod Ofcom, y Post Brenhinol a rhanddeiliaid eraill wedi buddsoddi adnoddau sylweddol yn adolygiad Ofcom o reoleiddio yn 2022. Fodd bynnag, mae'r fframwaith rheoleiddio a Chynllun Gwaith Ofcom yn cynnal y sefyllfa o ran polisi ochr yn ochr â chynyddu'r baich adrodd rheoleiddiol heb ddangos budd ystyrlon i ddefnyddwyr. Dywedodd y Post Brenhinol hefyd fod angen i Gynllun Gwaith Ofcom adlewyrchu newidiadau sylfaenol yn nynameg y farchnad bost a newidiadau yn anghenion defnyddwyr.

### Ein hymateb

A1.296 Mae rheoleiddio gwasanaethau post yn parhau i fod yn elfen graidd o'n gwaith ac mae ein dull gweithredu yn cyd-fynd â'r gwerthoedd a ddisgrifir gan Gyngor ar Bopeth (cyffredinol, fforddiadwy, cyson a theg): rydym yn canolbwyntio ar sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy'n ariannol ar gyfer y dyfodol, gan gynnal gweithrediadau effeithlon a hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr sy'n dibynnu ar wasanaethau post ledled y DU.

A1.297 Fe wnaethom nodi ein penderfyniadau ar wasanaethau'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer post yn 2022, yn dilyn proses adolygu ac ymgynghori gynhwysfawr. Rydym yn cydnabod y bydd angen i ni barhau i edrych ymlaen at ddyfodol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) a'r ffordd orau o ddiogelu buddiannau defnyddwyr. Fel yr eglurwyd yn y Cynllun Gwaith, bydd ein gwaith eleni yn cynnwys monitro gwell i adlewyrchu casgliadau ein hadolygiad yn 2022, yn ogystal â rhoi sylw i gynnydd effeithlonrwydd y Post Brenhinol a chynaliadwyedd yr USO ar gyfer y tymor hwy. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad monitro blynyddol ar gyfer 2022, mae'r ansicrwydd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd yr

USO wedi cynyddu’n ddiweddar, sy’n golygu y bydd angen i ni fonitro’r sefyllfa’n agos iawn a bod mewn sefyllfa i ymateb os bydd angen.

## Fforddiadwyedd post

A1.298 Gwnaeth nifer o randdeiliaid bwyntiau am fforddiadwyedd post. Roedd Consumer Scotland yn annog Ofcom i gynnal adolygiad llawn o fforddiadwyedd yr holl wasanaethau post a nododd petai gwasanaethau post yn mynd yn anfforddiadwy i’r rheini sydd â’r angen mwyaf, y gallai hyn danseilio un o brif egwyddorion yr USO.

A1.299 Roedd y Cyngor Defnyddwyr yn cydnabod pwysigrwydd y cap diogelu ail ddosbarth fel amddiffyniad i ddefnyddwyr ac mae’n aros am gynigion Ofcom ar gapiau prisiau yn 2023/24. Addawodd y Cyngor Defnyddwyr hefyd i weithio gydag Ofcom i sicrhau bod y warchodaeth allweddol hon yn parhau.

A1.300 Croesawodd Cyngor ar Bopeth waith Ofcom yn y maes hwn a’r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Ofcom ar y capiau diogelu Ail Ddosbarth yn ddiweddarach eleni, ond mae’n dal yn siomedig nad yw traciwr fforddiadwyedd rheolaidd Ofcom yn cynnwys gwasanaethau post o gwbl. Dywedodd Cyngor ar Bopeth fod postio llythyrau yn wasanaeth hanfodol lle mae gan y Post Brenhinol “fonopoli o un pen i’r llall i bob diben”; felly roedd yn dadlau bod gosod cap fforddiadwy yn ymddangos yn gymesur ac yn angenrheidiol.

A1.301 Dywedodd y Post Brenhinol nad yw fforddiadwyedd yn broblem i’r mwyafrif helaeth o gwsmeriaid ac y dylid adlewyrchu hyn yn y ffordd y caiff ei reoleiddio. Gofynnodd y Post Brenhinol i Ofcom gwblhau ei adolygiad o’r capiau diogelu mewn da bryd i ddarparu sicrwydd rheoleiddiol pan fydd yn datblygu ei strategaeth brisio ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch prisiau.

### Ein hymateb

A1.302 Rydym yn adolygu fforddiadwyedd gwasanaethau post yn rheolaidd yn ein hasesiad cyfnodol o gapiau diogelu a’n hystyriaeth ar wahân o wasanaethau unigol fel yr adolygiad diweddar o ailgyfeirio. Byddwn yn ystyried fforddiadwyedd ein gwasanaethau post nesaf yn ein hadolygiad ar y gweill o gwmpas a lefel briodol y capiau diogelu a fydd yn berthnasol o fis Ebrill 2024 ymlaen. Rydym yn nodi bod rhaid cydbwyso ein dyletswyddau i sicrhau bod gwasanaethau’n fforddiadwy yn erbyn ein dyletswyddau i sicrhau bod gwasanaethau’r USO yn gynaliadwy.

A1.303 Mae cap diogelu ar rai cynhyrchion Ail Ddosbarth yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau post yr USO yn fforddiadwy i ddefnyddwyr. Fel y nodwyd gan y Cyngor Defnyddwyr (Gogledd Iwerddon) ym Mhennod 2 2023/24, byddwn yn nodi ein cynigion ar gyfer y gyfres nesaf o gapiau diogelu a fyddai’n dechrau ym mis Ebrill 2024. Er mwyn cyfrannu at ein gwaith, rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr.

A1.304 Rydym yn ystyried fforddiadwyedd gwasanaethau post ar wahân i wasanaethau telegyfathrebiadau oherwydd nodweddion gwahanol y gwasanaethau a sut maen nhw’n

cael eu prynu (er enghraifft, y ffaith bod defnyddwyr fel arfer yn ymrwymo i berthynas gontractiol barhaus â darparwr telegyfathrebiadau, a bod gwasanaethau post yn cael eu prynu ar sail untro). Rydym yn defnyddio ein Traciwr Post rheolaidd i lywio ein dealltwriaeth o fforddiadwyedd gwasanaethau post.

## Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol y Post (USO)

A1.305 Trafododd y Post Brenhinol fod ei ymchwil ochr yn ochr ag ymchwil Ofcom yn dangos y byddai anghenion cwsmeriaid yn cael eu diwallu gan wasanaeth llythyr pum diwrnod. Roedd y Post Brenhinol hefyd yn annog Ofcom i sicrhau bod ei Gynllun Gwaith yn caniatáu iddo weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod yr USO yn y DU yn diwallu anghenion defnyddwyr orau yn y tymor hir.

A1.306 Nododd y Post Brenhinol fod Cynllun Gwaith Ofcom yn cadarnhau ei farn bod newid i gwmpas yr USO yn fater i Lywodraeth y DU. Roedd y Post Brenhinol hefyd yn annog Ofcom i gynnwys hyblygrwydd yn ei Gynllun Gwaith i gefnogi Llywodraeth y DU yn ei phenderfyniadau; i ganiatáu i'r Post Brenhinol ymateb yn gyflym i'r heriau ariannol mae'n eu hwynebu. Gofynnodd y Post Brenhinol hefyd i Ofcom weithio gyda'r Llywodraeth i roi proses ac amserlen glir iddo ef a rhanddeiliaid eraill sy'n nodi pa sefydliad sy'n gyfrifol am asesu'r achos a gwneud penderfyniadau ar wahanol adegau yn y broses. Ar ben hynny, addawodd y Post Brenhinol ei ymrwymiad i'r USO a'r gwasanaeth post un pris i bob cyfeiriad ar draws y wlad, gan nodi bod angen trefn reoleiddio gefnogol i sicrhau bod yr USO yn dal yn berthnasol ac yn gynaliadwy.

A1.307 Cytunodd Cyngor ar Bopeth fod y farchnad bost yn sector sy'n esblygu a bod rhaid i Ofcom ymateb i anghenion defnyddwyr sy'n newid. Fodd bynnag, dadleuodd Cyngor ar Bopeth hefyd y dylai'r rheoleiddiwr gydnabod bod gwasanaethau post yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'i rwydwaith cyfathrebu. Hefyd, trafododd Cyngor ar Bopeth bwysigrwydd y farchnad lythyrau ochr yn ochr â niwed posibl llythyrau nad ydynt yn cael eu danfon, fel apwyntiadau iechyd a gollwyd. Dadleuodd Cyngor ar Bopeth ar ben hynny fod gwasanaethau post dibynadwy a fforddiadwy yn achubiaeth hanfodol i'r miliynau o bobl ledled y DU sydd â sgiliau digidol cyfyngedig neu ddim mynediad i'r rhyngrwyd o gwbl. Dywedodd y Cyngor Defnyddwyr fod angen datblygu gwell dealltwriaeth o sut y byddai gostyngiad mewn danfon llythyrau yn effeithio ar ddefnyddwyr ar draws Gogledd Iwerddon drwy gael gwared ar ddanfon llythyrau ar ddydd Sadwrn, gan fod y Post Brenhinol yn gofyn am rannu ei waith gydag Ofcom yn y maes hwn, ac yn edrych ymlaen at hynny.

### Ein hymateb

A1.308 Mater i Lywodraeth y DU yw unrhyw ddiwygiad i ofynion sylfaenol yr USO ar gyfer y post, ond rydym yn barod i gymryd rhan mewn unrhyw ystyriaeth bellach o ddyfodol yr USO. Rydym yn cydnabod bod gwasanaethau post yn parhau i chwarae rhan allweddol mewn cymdeithas ac rydym yn canolbwyntio ar sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ac sy'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae ein trefn fonitro weithredol yn helpu i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyfredol o anghenion newidiol defnyddwyr, deinameg y farchnad a chynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd yr USO, yn ogystal ag unrhyw risgiau i wasanaeth cyffredinol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ar y materion hyn fel rhan o'n gwaith monitro gwell eleni.

## Post - ansawdd y gwasanaeth (QoS)

A1.309 Dywedodd y Fforwm Cystadleuaeth Post (MCF) fod angen newid y drefn reoleiddio i fynd i'r afael â'r argyfwng o ran Ansawdd y Gwasanaeth (QoS) wrth ddanfon. Er bod y Fforwm wedi mynegi cydnabyddiaeth bod Ofcom wedi cael cyfarfodydd rheolaidd â'r Post Brenhinol er mwyn deall yn well y camau mae rheolwyr y Post Brenhinol yn eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r perfformiad gwael hwn, roedd MCF yn dadlau nad yw'r gweithgarwch hwn wedi arwain at unrhyw welliant gwirioneddol ym mherfformiad QoS. Roedd y Fframwaith hefyd yn cynnig tri chynnig allweddol: Amserlen – Lleihau'r amserlenni ar gyfer gwneud y gwaith monitro; Dirwy – Gwneud y gosb yn fwy tryloyw a chymesur â'r gostyngiad yn y gwasanaeth; Cynnwys Mynediad yn y drefn monitro QoS.

A1.310 Dadleuodd Whistl, o ganlyniad i ansawdd gwael iawn y gwasanaeth a gynigiwyd gan y Post Brenhinol i'w gwsmeriaid yn 2022/23, fod yr amser yn iawn i gryfhau gweithgareddau presennol Ofcom yn y maes hwn. O ganlyniad i'r datblygiad anffodus hwn yn y farchnad, gofynnodd Whistl i Ofcom gynnwys elfen o waith yn ei Gynllun Gwaith i asesu pa mor addas yw'r drefn bresennol ac i ystyried sut y gellid ei haddasu i wella ei heffeithiolrwydd. Roedd y cynigion yn cynnwys lleihau'r amserlen ar gyfer monitro a gorfodi o'r amserlen flynyddol bresennol i amserlen fisol neu chwarterol; a sicrhau bod yr USO a'r rhwydwaith sy'n ei chefnogi yn cyflawni i'r safon a ddisgwylir ac y telir amdani drwy bosteri.

A1.311 Roedd y Cyngor Defnyddwyr yn dadlau "Rhaid i berfformiad QoS y Post Brenhinol fod yn flaenoriaeth ar gyfer gwaith post Ofcom yn 2023/24". Mae'r Cyngor Defnyddwyr hefyd yn bryderus bod y Post Brenhinol wedi torri'r QoS ar gyfer targedau dros y tair blynedd diwethaf. Er bod y Cyngor Defnyddwyr yn gwerthfawrogi'r amgylchiadau eithriadol oherwydd pandemig Covid-19, roedd yn dadlau y gallai oedi gyda llythyrau gael effaith sylweddol ar ddefnyddwyr. Roedd y Cyngor Defnyddwyr hefyd yn dadlau o ran y rheini a oedd yn wynebu oedi gyda llythyrau yng Ngogledd Iwerddon. Roedd 16% wedi profi canlyniad negyddol difrifol o ganlyniad i hynny, fel colli dogfennau pwysig, apwyntiadau ariannol, apwyntiadau iechyd ac apwyntiadau i gael pigiad atgyfnerthu rhag COVID-19. Tynnodd y Cyngor Defnyddwyr sylw hefyd at y ffaith nad oes gan ddefnyddwyr ddewis yn y farchnad lythyrau gan fod y Post Brenhinol yn ddarparwr monopoli.

A1.312 Roedd ACS yn dadlau bod effaith perfformiad gwael yn fwy arwyddocaol ar aelwydydd agored i niwed a chymunedau gwledig yn ardaloedd anghysbell yr Alban, sy'n dibynnu llawer mwy ar y gwasanaethau post hyn. Dywedodd ACS ymhellach y dylid cydnabod effaith gronnus yr ystod o wasanaethau cyfathrebu llai dibynadwy ar y 'defnyddwyr cydgyfeiriol' hyn.

A1.313 Yn y gorffennol, mae Cyngor ar Bopeth wedi codi'r angen am fwy o dryloywder ac amledd i wella'r drefn QoS, gan alw'n benodol am natur anfoddhaol y drefn fonitro bresennol lle nad yw Ofcom yn ymchwilio i faterion ansawdd gwasanaeth tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. I ddangos hyn, dadleuodd Cyngor ar Bopeth ymhellach ei fod, yn 2021/22, wedi canfod oedi difrifol o ran llythyrau dros gyfnod y Nadolig ac wedi cyhoeddi ymchwil ar 17 Chwefror 2022, ond ni wnaeth Ofcom gwblhau ei ymchwiliad a chyhoeddi penderfyniad tan 2 Rhagfyr 2022 – bron i 10 mis yn ddiweddarach. O'r herwydd, roedd Cyngor ar Bopeth wedi annog Ofcom i adolygu ei drefn QoS fel rhan o'i Gynllun Gwaith 2023/24.

A1.314 Dadleuodd Cyngor ar Bopeth y dylai Ofcom fod yn fwy rhagweithiol ac ystwyth yn ei ddull rheoleiddio, i ymateb i heriau marchnad sy’n esblygu’n gyflym ac atal niwed rhag digwydd yn y lle cyntaf. Dylai Ofcom hefyd ddefnyddio ei bwerau i ddarparu rhwyd ddiogelwch i ddefnyddwyr, gan barhau i ganiatáu i fusnesau ffynnu.

A1.315 Roedd Cyngor ar Bopeth yn siomedig o weld bod Ofcom wedi penderfynu peidio â dirwyo’r Post Brenhinol am fethu â danfon yn y farchnad hanfodol hon yn 2021/22, gan fod ymchwil diweddar wedi dangos bod tua 31 miliwn o bobl (60% o oedolion y DU) wedi cael eu heffeithio gan oedi gyda llythyrau’r Nadolig hwn, a dyma’r drydedd flwyddyn yn olynol lle canfu ymchwil niwed sylweddol i ddefnyddwyr o ganlyniad i oedi gyda llythyrau’r Post Brenhinol.

### Ein hymateb

A1.316 Mae fframwaith rheoleiddio Ofcom wedi’i lunio i gyflawni ein dyletswydd i sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy’n diwallu anghenion defnyddwyr, gan sicrhau bod gwasanaethau fforddiadwy ar gael ar yr un pryd ag ystyried effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol. Er bod ein fframwaith rheoleiddio cyffredinol yn caniatáu hyblygrwydd masnachol i’r Post Brenhinol wrth ddarparu’r USO, mae’n cael ei gefnogi gan fesurau diogelu pwysig sy’n cynnwys cap diogelu ar lythyrau Ail Ddosbarth a thargedau QoS.

A1.317 Mae ein targedau QoS yn mynnu bod y Post Brenhinol yn danfon o leiaf 93% o bost Dosbarth Cyntaf - ar draws y DU - o fewn un diwrnod gwaith i’w gasglu, a 98.5% o bost Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith, dros y flwyddyn ariannol gyfan. Rydym yn asesu perfformiad y Post Brenhinol yn erbyn y targedau hyn ar gyfer pob blwyddyn ariannol - gan edrych ar sut mae wedi perfformio dros y flwyddyn gyfan. Fel rhan o’n ’Hadolygiad diweddar o Reoleiddio’r Post <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/postal-regulation-review> yn 2022, daethom i’r casgliad bod ein targedau QoS a’n proses asesu flynyddol yn dal yn briodol. Rydym yn gwybod pa mor rhwystredig a thrafferthus y gall fod pan fydd y post yn cael ei oedi ac rydym yn siomedig iawn â chanlyniadau QoS diweddar y Post Brenhinol, sy’n is o lawer na’r targed.

A1.318 Daethom i’r casgliad yn ein penderfyniad ar ymchwiliad 2021/22 na fyddai’n briodol pennu bod y Post Brenhinol wedi torri ei dargedau, o ystyried effaith sylweddol a hollbresennol Covid-19. Fodd bynnag, roeddem hefyd wedi egluro nad ydym yn disgwyl i Covid-19 gael effaith sylweddol ar QoS y Post Brenhinol yn y dyfodol. Ar hyn o bryd rydym yn paratoi ar gyfer ein hasesiad o ganlyniadau’r Post Brenhinol ar gyfer 2022/23 er mwyn i ni allu cyflymu’r broses cyn gynted â phosibl ac os yw’n briodol, ni fyddwn yn oedi cyn cymryd camau gorfodi.

## Parseli

A1.319 Mae’r Cyngor Defnyddwyr wedi mynegi pryderon ynghylch effaith barhaus Brexit ar ddefnyddwyr a busnesau sy’n dibynnu ar y farchnad barseli ar draws ffiniau yng Ngogledd Iwerddon. Trafododd y Cyngor Defnyddwyr ei ymchwil annibynnol a oedd yn dangos bod dal angen gwybodaeth ar ddefnyddwyr am wasanaethau post mewn perthynas ag ymadael â’r UE a’i effaith bosibl yng Ngogledd Iwerddon, sy’n pwysleisio’r angen i ddarparu canllawiau clir, cywir ac amserol. Ar ben hynny, addawodd y Cyngor Defnyddwyr

ddefnyddio ei wybodaeth i weithio mewn partneriaeth ag Ofcom, gan sicrhau bod Ofcom yn ymwybodol o'r problemau sy'n wynebu defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon.

A1.320 Gofynnodd Consumer Scotland i Ofcom ystyried ymrwymo i gyhoeddi nifer y cwynion gan bob prif weithredwr parseli fel rhan o'u gwaith monitro, gan nodi y byddai hyn yn arwain at effeithiau cadarnhaol amrywiol, fel mwy o dryloywder o ran ansawdd gwasanaeth yn y farchnad barseli neu greu rhagor o gymhellion i weithredwyr parseli wella eu gwasanaethau i ddefnyddwyr.

A1.321 Mynegodd Cyngor ar Bopeth gefnogaeth i Ofcom ddatblygu rhwymedigaethau a chanllawiau newydd yn y farchnad barseli ar gyfer delio â chwynion a sut i drin cwsmeriaid anabl, ond mae'n gresynu nad yw'r farchnad hon yn gweithio i bawb gan fod defnyddwyr sydd ag anghenion hygyrchedd penodol yn cael profiad anghymesur o broblemau danfon, ar yr un pryd â chael eu heffeithio'n fwy difrifol ganddynt. Roedd Cyngor ar Bopeth felly'n croesawu'r amod newydd, sy'n cyflwyno fframwaith i weithredwyr ddiwallu anghenion defnyddwyr anabl yn well o ran danfon parseli.

A1.322 Mynegodd Cyngor ar Bopeth wybodaeth fod defnyddwyr sydd am wneud cwynion yn wynebu heriau a phroblemau pellach wrth wneud hynny, ac mae'n dadlau, gyda phobl yn wynebu problemau ar gyfradd mor uchel, ei bod yn bwysig bod defnyddwyr yn gallu datrys eu problem yn gyflym ac yn hawdd. O'r herwydd, croesawodd Cyngor ar Bopeth ganllawiau newydd Ofcom ar gyfer helpu cwmnïau parseli i wella eu prosesau cwyno.

A1.323 Gofynnodd Cyngor ar Bopeth am ragor o fanylion gan Ofcom am ei gynlluniau i fonitro cynnydd cwmnïau drwy ymchwil a rhannu data, yn ogystal â chamau gorfodi os oedd angen. Fodd bynnag, dadleuodd Cyngor ar Bopeth hefyd y gallai Ofcom fynd ymhellach, drwy annog cwmnïau parseli i rannu eu data â chyrff defnyddwyr a'r cyhoedd, ochr yn ochr ag ystyried yn ofalus y trothwy ar gyfer camau gorfodi i sicrhau ei fod yn gweithredu'n gyflym ac yn bendant pan fydd cwmnïau parseli'n methu â chyrraedd eu safonau dro ar ôl tro.

## Ein hymateb

A1.324 Rydym yn cydnabod yr ansicrwydd parhaus ynghylch trefniadau masnachu'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar weithrediadau parseli trawsffiniol rhwng y DU a gwledydd Ewropeaidd eraill. Mater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yw gweithredu Fframwaith newydd Windsor (sy'n disodli Protocol Gogledd Iwerddon). Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU, cwmnïau post a grwpiau defnyddwyr i gynghori ar oblygiadau'r fframwaith hwn ar gyfer y farchnad bost, yn ogystal â'u deall.

A1.325 Mae ein hamod newydd ar weithredwyr parseli (gan gynnwys y Post Brenhinol) i fod â pholisïau a gweithdrefnau ar waith, sydd wedi'u dylunio i wella profiad defnyddwyr anabl, yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2023. Byddwn yn monitro gweithrediad yr amod hwn yn ofalus, a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol. Rydym yn disgwyl i fabwysiadu mesurau o'r fath, a'r tryloywder sy'n gysylltiedig â nhw, wella profiadau defnyddwyr ac rydym yn barod i ymchwilio i gwmnïau sy'n methu â chydymffurfio.

A1.326 Daw ein canllawiau diweddaraf ar ddelio â chwynion i rym ar 1 Ebrill 2023, ac rydym hefyd wedi ymrwymo i fonitro perfformiad gweithredwyr parseli yn y maes hwn. I wneud hyn, rydym y bwriadu defnyddio tair prif ffynhonnell: data gweithredwyr rydym yn eu casglu gan ddefnyddio ein pwerau statudol, ymchwil defnyddwyr rydym yn ei gynnal ac ymgysylltiad parhaus â'r diwydiant. Byddwn hefyd yn adolygu data a gwybodaeth o ffynonellau eraill, gan gynnwys cyrff eiriolaeth defnyddwyr a'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl (CCP-ACOD).

A1.327 Fel y nodwyd yn ein datganiad Adolygiad o Reoleiddio'r Post 2022, nid ydym yn bwriadu cyhoeddi data cwynion sy'n benodol i weithredwyr, y byddwn yn ei gael gan weithredwyr parseli, ar hyn o bryd. Er ein bod yn gwerthfawrogi y gallai hyn arwain at rai manteision, gallai cyhoeddi gwybodaeth o'r fath arwain at heriau penodol (e.e. cymharu data), ond efallai y byddwn yn dychwelyd at hyn maes o law os byddwn o'r farn bod angen cymryd camau pellach i gymell gwell perfformiad gan weithredwyr wrth reoli cwynion. Ar ôl i'n canllawiau ddod i rym, os byddwn yn nodi pryderon ynghylch cydymffurfiaeth cwmnïau parseli, gallwn gymryd camau gorfodi yn ôl yr angen, yn unol â'n canllawiau gorfodi.

## Defnyddwyr post agored i niwed

A1.328 Mynegodd Consumer Scotland bryderon y gall defnyddwyr heb gartref sefydlog ei chael yn anodd iawn cael gafael ar wasanaethau post oherwydd efallai nad oes ganddynt leoliad i dderbyn danfoniadau, neu efallai eu bod yn symud lleoliad ar fyr rybudd.

A1.329 Dadleuodd y CCP-ACOD fod blaenoriaethau Ofcom yn golygu nad yw defnyddwyr gwasanaethau post yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar adeg pan mae angen gwarchodaeth Ofcom arnynt yn fwy nag erioed. Croesawodd y CCP-ACOD waith parhaus Ofcom yn monitro gwasanaethau post a'i waith parhaus gyda'r Post Brenhinol, yn ogystal â'i waith ar draws gwledydd y DU, fel y nodir yn y Cynllun Gwaith, ond mae'n credu mai dyma'r isafswm a ddisgwylir gan Ofcom o dan ei gylch gwaith ac y byddai'n hoffi gweld Ofcom yn gwneud mwy. Dywedodd y CCP-ACOD hefyd fod perygl y bydd rhai defnyddwyr gwasanaethau post yn cael eu gadael ar ôl, yn enwedig y rheini na fyddant yn elwa o ganlyniadau blaenoriaeth Ofcom – y rheini sy'n dewis peidio â defnyddio'r rhyngrwyd neu'n methu â defnyddio'r rhyngrwyd, er enghraifft.

A1.330 Roedd y CCP-ACOD hefyd yn annog rhagor o ymchwil i sicrhau bod pobl yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt, yn enwedig y grwpiau o bobl sydd mewn mwy o berygl o golli post, o brofi oedi neu hygyrchedd gwael. Mae'r rhain yn cynnwys pobl yng Ngogledd Iwerddon, Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban, a phobl sydd â gofynion mynediad ychwanegol ymysg eraill sy'n wynebu risgiau cysylltiedig â danfon parseli.

A1.331 Argymhellodd Cyngor ar Bopeth fod Ofcom yn cynnwys gwasanaethau post yn benodol yn ei waith sy'n ymwneud â'r gwaith 'Cefnogi cwsmeriaid agored i niwed.' Dywedodd y gallai hyn ganiatáu i Ofcom (e.e.) cynnwys gwasanaethau post yn ei sgoriau ar gyfer cerdyn sgorio Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU, er mwyn sicrhau tryloywder i ddefnyddwyr post. Dywedodd Cyngor ar Bopeth y byddai'n cael mewnwelediad gwerthfawr i'w fwydo i'r ffrwd waith hon – yn enwedig mewn perthynas ag eithriadau gyda'r post a thrin pobl mewn amgylchiadau agored i niwed yn y farchnad barseli.

### Ein hymateb

A1.332 Mae ein gwaith ar wasanaethau post yn ystyried anghenion defnyddwyr agored i niwed, ac yn ymuno â chydweithwyr sy'n gweithio ar faterion cwsmeriaid agored i niwed mewn marchnadoedd telegyfathrebiadau lle bo hynny'n briodol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau mynediad rhesymol at wasanaethau post i'r cymunedau mwyaf agored i niwed ac ynysig. Mae nifer o'n rheolau presennol yn helpu i sicrhau mynediad eang i grwpiau o'r fath. Mae hyn yn cynnwys ein gofynion ar ddosbarthu pwyntiau mynediad, sy'n cael ei ategu gan fynediad at rwydwaith Swyddfa'r Post a sicrheir gan reolau wedi'u gosod gan y Llywodraeth.

A1.333 Er ein bod yn cydnabod diddordeb defnyddwyr mewn hwylustod wrth dderbyn eitemau post, yn enwedig parseli, mae'r farchnad yn parhau i ddatblygu seilwaith a thechnoleg i hwyluso opsiynau danfon amgen ar wahân i ddanfon i gartrefi, drwy ganolfannau casglu (gan gynnwys Swyddfeydd Post) a loceri parseli er enghraifft. Rydym yn monitro'r datblygiadau hyn ochr yn ochr â chyrff eiriolaeth defnyddwyr, sy'n ystyried hygyrchedd mewn perthynas â chynlluniau newydd o'r fath.

A1.334 Fel y nodwyd uchod, byddwn yn monitro'n ofalus y gwaith o weithredu ein hamod newydd ar weithredwyr parseli (gan gynnwys y Post Brenhinol) i gael polisïau a gweithdrefnau ar gyfer trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg ac yn briodol. Fel rhan o hyn, rydym yn bwriadu comisiynu ymchwil defnyddwyr i fonitro profiadau defnyddwyr anabl. Bydd yr ymchwil hwn yn ategu at ein hymchwil barhaus sy'n olrhain defnydd defnyddwyr a pha mor fodlon yw'r pedair gwlad â gwasanaethau post.

# Gwaith cyffredinol a sylfaenol

## Ymchwil a Sganio'r Gorwel

A1.335 Nododd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB) fod y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at ymchwil i'r buddsoddiad mewn bydoedd rhithiol ar-lein. Mynegodd bryder nad yw'r rhain yn cael eu crybwyll mewn perthynas â'r cynllun i ddatblygu dealltwriaeth Ofcom o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg a thechnolegau sy'n tarfu; roedd yn cynnig bod angen i Ofcom ddeall y rhwystrau hygyrchedd posibl y gellid eu codi a bod ganddo gynllun i liniaru'r rhwystrau hyn. Yn yr un modd, teimlai'r RNIB y byddai'n amserol i Ofcom gynnal ei ymchwil ei hun i hygyrchedd y diwydiant gemau a pha anogaethau allai arwain at hygyrchedd gwell mewn gemau.

A1.336 Dywedodd Openreach fod y cyfresi data mawr a manwl a ddefnyddir ar gyfer yr adroddiad Cysylltu'r Gwledydd yn dal i fod yn heriol i'w cynhyrchu oherwydd bod data sylfaenol craidd ar gyfer eiddo a chodau post yn y DU yn agored i newid parhaus. Roedd Openreach hefyd wedi mynegi gwerth am y ffordd gadarnhaol a rhagweithiol mae tîm Cysylltu'r Gwledydd Ofcom yn ymgysylltu â nhw i ymchwilio a deall y data, os bydd unrhyw ymholiadau'n codi. Mae Openreach wedi cwblhau diweddariad mawr arall i fodelau data Ofcom yn ddiweddar ac mae'n edrych ymlaen at weld hyn yn sail i gyflwyniadau 2023 Ofcom, ochr yn ochr â pharhau i weithio gyda thîm Ofcom i gynhyrchu ystadegau amserol a chywir ar gyfer y DU.

### Ein hymateb

A1.337 Mae rhaglen dechnoleg Ofcom yn ceisio deall sut gall esblygiad a mabwysiadu ystod eang o dechnolegau effeithio ar fywydau dinasyddion a defnyddwyr. Wrth wneud gwaith o'r fath, rydym yn cael ein harwain gan ddyletswyddau a darpariaethau a nodir mewn deddfwriaeth berthnasol a gallwn, o bryd i'w gilydd, gynnwys ymchwil i hygyrchedd gwasanaethau sy'n dod i'r amlwg.

A1.338 Rydym yn croesawu'r ymgysylltu cadarnhaol parhaus ag Openreach a'r holl randdeiliaid sy'n cefnogi ein gwaith o gasglu data Cysylltu'r Gwledydd. Mae ein hadroddiadau yn y maes hwn yn helpu i fesur y rhwydweithiau gwell sydd ar gael ledled y DU.

## Deallusrwydd Artiffisial (AI)

A1.339 Codwyd rheoleiddio AI mewn rhai ymatebion ac, yn benodol, awgrymodd Which? ei bod yn bwysig bod Ofcom yn ystyried y ffordd orau o weithredu rheoleiddio o'r fath yng nghyd-destun y sector cyfathrebu. Cafodd Ofcom ei annog i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill a'r Llywodraeth i sicrhau ei fod â'r gallu a'r adnoddau digonol i reoleiddio deallusrwydd artiffisial yn effeithiol a diogelu defnyddwyr.

### Ein hymateb

A1.340 Mae Ofcom wedi bod yn cydweithio'n agos â'r Swyddfa AI i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ei Bapur Gwyn AI sydd ar y gweill. Ar yr un pryd, rydym wedi bod yn ystyried sut gall Ofcom wneud y defnydd gorau o'r egwyddorion anstatudol y mae'r llywodraeth yn bwriadu eu cynnwys yn ei fframwaith rheoleiddio AI newydd. Bydd y gwaith hwn yn parhau i 2023/24. Ar ben hynny, fel aelod gweithredol o Brosiect Algorithmau'r DRCF, bydd Ofcom yn gweithio'n agos gyda'r rheoleiddwyr digidol eraill dros 2023/24 i sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull cydlynol a chydgysylltiedig o weithredu fframwaith newydd Llywodraeth y DU.

## Newid yn yr hinsawdd

A1.341 Nododd Pwyllgor Cynghori'r Alban (ACS) fod cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd yn faes lle mae'r Alban yn gweithio o fewn amserlen wahanol i weddill y wlad (targed Llywodraeth yr Alban o Sero Net erbyn 2045). Nododd y Pwyllgor fod angen rhywfaint o gydnabyddiaeth i hyn yn y Cynllun Gwaith wrth i Ofcom a rhanddeiliaid ledled y DU ddechrau ystyried sut bydd y targed cynharach hwn yn cael ei reoli. Gwnaed argymhellion penodol ynghylch sut y gellid cyflwyno hyn a phwysleisio materion amgylcheddol yn y Cynllun Gwaith.

A1.342 Croesawodd Cyngor ar Bopeth waith Ofcom ar yr hinsawdd a chynaliadwyedd gan godi'n benodol y pwynt yr hoffent ddeall sut y bydd Ofcom yn gweithio gyda chwmnïau yn y sector post i ystyried sut y gallant gyfrannu tuag at gyrraedd targed carbon sero net y DU.

A1.343 Dywedodd BT Group y dylai Ofcom fod yn fwy uchelgeisiol o ran mynd i'r afael â materion amgylcheddol. Ni waeth beth yw'r dyletswyddau penodol, gall Ofcom gydlynu polisi ar draws telegyfathrebiadau a sbarduno ffocws ar y mater hollbwysig hwn.

A1.344 Yn y cyfamser, roedd Llywodraeth Cymru wedi "croesawu'r ffocws ar gynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd fel elfen greiddiol o waith Ofcom". Mae adeiladu economi gryfach a

gwyrddach a gwneud y gorau o'r cynnydd tuag at ddatgarboneiddio yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru. Byddai'n croesawu rhagor o fanylion ynghylch sut gall Ofcom fanteisio i'r eithaf ar ei bwerau rheoleiddio presennol i herio'r diwydiannau telegyfathrebiadau a darlledu o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwella cynaliadwyedd.

### Ein hymateb

A1.345 Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn sbardun sy'n gynyddol bwysig i benderfyniadau masnachol cwmnïau cyfathrebu ac mae llawer o'n cwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio wedi ymrwymo i gynlluniau sero net i leihau eu heffaith amgylcheddol eu hunain. Er nad oes gan Ofcom ddyletswyddau rheoleiddio mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, mae hwn yn faes rydym wedi ymrwymo iddo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Er enghraifft, rydym yn cynnal ymchwil i'n helpu i ddeall effeithlonrwydd ynni cymharol technolegau cyfathrebu a gofynion cysylltedd sy'n esblygu mewn sectorau eraill, gan nodi rhyng-gysylltiad y sector cyfathrebiadau ac ynni yn benodol. Rydym hefyd wedi cyhoeddi cyngor i ddefnyddwyr ar sut i arbed arian ac ynni drwy ddefnyddio dyfeisiau cyfathrebu'n effeithlon.

A1.346 Nodwn fod gan Lywodraeth yr Alban ddyddiad targed sero net o 2045, bum mlynedd yn gynharach na tharged Llywodraeth y DU. Rydym yn cydnabod bod ein sectorau sy'n cael eu rheoleiddio yn cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr er mai dim ond ar lefel y DU y caiff data perthnasol ei gasglu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n amharu ar ein gallu i wneud asesiadau o allyriadau gan y diwydiant ar lefel yr Alban. Rydym yn fodlon archwilio gyda Llywodraeth yr Alban ac eraill sut y gallem gyfrannu ymhellach at y gwaith hwn.

A1.347 Rydym hefyd yn nodi rôl bwysig cyfathrebu digidol o ran galluogi sectorau eraill i ddatgarboneiddio, er enghraifft drwy atebion di-wifr clyfar, ond nid oes methodoleg y cytunwyd arni ar gyfer cyfrifo gostyngiad mewn allyriadau. Yn ogystal â'n hymchwil sefydledig a nodir uchod, rydym yn datblygu ein gwybodaeth am y rôl alluogi hon yn ein sectorau.

A1.348 Rydym yn annog y darparwyr telegyfathrebiadau i ymgynnull fel grŵp diwydiant drwy ddigwyddiad bwrdd crwn ym mis Mai 2023. Y nod yw annog dull gweithredu ar draws y sector i fynd i'r afael â'r heriau cyffredin o fod yn fwy cynaliadwy (e.e. archwilio sut i leihau allyriadau o gadwyni cyflenwi'r diwydiant). Gobeithiwn y gall menter o'r fath adlewyrchu'r llwyddiant y mae'r sector darlledu wedi'i wneud drwy fforwm diwydiant Bafta Albert, i leihau eu hôl troed carbon.

## Partneriaethau

A1.349 Dywedodd BT Group y dylai Ofcom ddefnyddio'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) i sicrhau bod cyd-drefnu effeithiol rhwng rheoleiddwyr ar faterion sy'n ymwneud â marchnadoedd digidol, a harneisio arbenigedd rheoleiddiwr y sector. Mae BT Group yn gweld rôl i Ofcom sy'n gweithio gyda'r CMA i fwrw ymlaen â chynlluniau adfer ar gyfer y canfyddiadau a nodwyd yn Astudiaeth Marchnad Ecosystemau Symudol y CMA sydd â chysylltiad telegyfathrebiadau.

### Ein hymateb

A1.350 Mae Ofcom yn ymgysylltu'n weithredol â'i gyd-reoleiddwyr digidol (y CMA, yr FCA a'r ICO) drwy'r Fforwm ac yn ddwyochrog. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfle y mae'r Fforwm yn ei ddarparu ar gyfer cydlynu a chydweithredu mewn materion sy'n ymwneud â'r farchnad ddigidol, ac rydym yn chwarae rhan weithredol yn ei ffrydiau gwaith. Mewn perthynas ag Astudiaeth o Farchnad Ecosystemau Symudol y CMA, rhoddodd Ofcom gefnogaeth weithredol i'r CMA yn yr astudiaeth marchnad ac mae'n edrych ymlaen at ymgysylltu ag ef yn y dyfodol ynghylch unrhyw gamau gweithredu perthnasol sy'n deillio ohono.

## Dyfodol dosbarthu teledu

A1.351 O ran dyfodol dosbarthu teledu, mynegodd BT Group ei farn y dylai Ofcom hefyd ystyried y model dosbarthu teledu yn y dyfodol ac y dylai Ofcom, er mwyn gallu ailddefnyddio'r sbectrwm teledu daearol digidol (DTT), sbarduno strategaeth i ddarparu dull arall o ddefnyddio i gartrefi sydd heb fabwysiadu IPTV eto.

### Ein hymateb

A1.352 Yn ei Bapur Gwyn o Ebrill 2022, *Nesaf*, ar y diwydiant darlledu, dywedodd y Llywodraeth y bydd yn gofyn i Ofcom barhau i gadw golwg ar newidiadau i wylio DTT ac i gynnal adolygiad cynnar cyn diwedd 2025 o newidiadau yn y farchnad a allai effeithio ar ddyfodol dosbarthu cynnwys. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, rydym yn gwneud gwaith trawsbynciol i edrych ar yr ystyriaethau strategol sy'n sbarduno dyfodol hirdymor dosbarthiad ar gyfer cynnwys teledu yn y 2030au a thu hwnt. Byddwn yn edrych ar beth allai'r goblygiadau fod i gynulleidfaoedd, gan gynnwys cynulleidfaoedd agored i niwed, a'n sectorau petai dosbarthiad teledu llinol yn newid, yn enwedig tuag at fodel sy'n gynyddol seiliedig ar IP. Byddwn yn ystyried amrywiaeth o faterion polisi cyhoeddus ac economaidd ar draws ein sectorau y gallai hyn eu codi, ac rydym yn disgwyl ymgysylltu â rhanddeiliaid gwahanol yn ystod y gwaith hwn.

## Dull Ofcom o gynllunio, ymgysylltu ac ymgynghori

A1.353 Ar draws yr ystod o ymatebion a gawsom gan randdeiliaid, gwnaed pwyntiau cyffredinol am ddull gweithredu Ofcom o ran cynllunio, ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ac ymgynghori ar y Cynllun Gwaith a meysydd eraill o'n gwaith.

A1.354 Mae'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl (CCP-ACOD) yn argymell mwy o gyd-ddylunio gyda chynrychiolwyr defnyddwyr, i sicrhau bod y diwydiant a llunwyr polisïau yn codi ymwybyddiaeth o newidiadau ac yn gwrando ar anghenion defnyddwyr sy'n wynebu rhwystrau e.e. oherwydd eu lleoliad. Roedd Better Media yn adlewyrchu pwyntiau tebyg ynghylch a oedd Ofcom wedi blaenoriaethu buddiannau dinasyddion yn briodol yn erbyn darparwyr 'ar raddfa fawr'.

A1.355 Ategodd INCA sylwadau blaenorol ynghylch Ofcom yn ymgorffori ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn egluro ei resymeg lle nad yw'n ystyried cynigion rhanddeiliaid yn ei Gynllun Gwaith diwygiedig.

### Ein hymateb

**Cynllun gwaith 2023/24 – ymatebion rhanddeiliaid**

A1.356 Mae'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gwaith yn ganolog i'n cylch cynllunio blynyddol. Rydym yn gobeithio y bydd yr ymatebion a amlinellir uchod yn rhoi tryloywder o ran safbwynt Ofcom ar y prif bwyntiau a godwyd o'r ystod o ymatebion a gawsom i'n hymgynghoriad ar y Cynllun Gwaith. Mae amrywiaeth eang o sianeli y mae Ofcom yn eu defnyddio i ymgysylltu â defnyddwyr a'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys drwy gyrff fel y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu, ein Panel Cynghori Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau a'n Pwyllgorau Cynghori ar gyfer y Gwledydd. Rydym hefyd yn gwneud amrywiaeth eang o waith sganio'r gorwel, gan gynnwys drwy'r DRCF. Mae ein gwaith yn cael ei lywio gan ein cenhadaeth i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb, a bydd diweddariadau i ddogfen ymgynghori'r Cynllun Gwaith yn cael eu cynnwys yn ein datganiad terfynol a gyhoeddir ar 28 Mawrth 2023.